

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

85/2024

DYDDIAD CYHOEDDI:

03/12/2024

Archwilio'r dyraniad o dai cymdeithasol yng Nghymru

YN SWYDDOGOL SENSITIF

Title: Archwilio'r dyraniad o dai cymdeithasol yng Nghymru

Awdur(on): Alma Economics



Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2024). *Teitl.* Caerdydd:
Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 85/2024
Ar gael yn: <https://www.gov.wales/exploring-allocation-social-housing-wales>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r
safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Benjamin Lewis

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000257438

e-bost: HousingResearchTeam@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr tablau.....	2
Rhestr o ffigurau	2
Acronymau.....	3
1. Cyflwyniad.....	8
2. Dull ymchwil	12
3. Bodloni'r galw am dai cymdeithasol drwy'r stoc sydd ar gael.....	17
4. Dyraniadau tai cymdeithasol a phartneriaethau lleol	39
5. Llwyddiannau, heriau ac arfer gorau yn y systemau lleol presennol	59
6. Heriau a chyfleoedd ansawdd data	72
7. Casgliadau	75
8. Atodiad A: Trosolwg o ymgysylltu â rhanddeiliaid	78
Atodiad B: Canllaw trafod awdurdod lleol	80
Atodiad C: Canllaw trafod LCC	83
Atodiad D: Canllaw trafod sefydliadau rhanddeiliaid	86
Atodiad E: Templed casglu data	91

Rhestr tablau

Tabl 1. Sampl o gasglu data - Awdurdodau lleol sy'n dal stoc	13
Tabl 2. Sampl o gasglu data – Dosbarthiad gwledig-trefol	13
Tabl 3. Cyfraddau dyraniadau fesul 1,000 o unedau o stoc tai cymdeithasol – Dosbarthiad gwledig-trefol	40
Tabl 4. Cyfraddau dyraniadau i bob aelwyd fesul 1,000 o unedau o stoc tai cymdeithasol – awdurdodau lleol sy'n dal stoc o'i gymharu ag awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc.....	40

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1. Cyfanswm yr aelwydydd ar gofrestrau tai dros amser	18
Ffigur 2. Cyfran yr aelwydydd ar y gofrestr tai yn ôl math o ddyletswydd (awdurdodau lleol sy'n dal stoc o'i gymharu ag awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc)	19
Ffigur 3. Cyfran yr aelwydydd ar y gofrestr tai yn ôl math o ddyletswydd (dosbarthiad gwledig-trefol awdurdodau lleol).....	20
Ffigur 4. Cyfran yr aelwydydd ar y gofrestr tai yn ôl math o ddyletswydd dros amser.....	22
Ffigur 5. Nifer yr ystafelloedd gwely y mae galw amdanynt ar y gofrestr dai yn ôl dosbarthiad awdurdod lleol	34
Ffigur 6. Cyfran cyfanswm y dyraniadau yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely (rhai sy'n dal stoc o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn dal stoc).....	41
Ffigur 7. Cyfraddau dyraniadau yn ôl math o ddyletswydd ar gyfer awdurdodau lleol sy'n dal stoc ac awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc	42
Ffigur 8. Cyfraddau dyraniadau yn ôl math o ddyletswydd ar gyfer awdurdodau lleol sy'n dal stoc ac awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc	43
Ffigur 9. Cyfraddau dyraniadau yn ôl math o ddyletswydd yn ôl dosbarthiad gwledig-trefol awdurdodau lleol	44

Acronymau

YGG: Ymddygiad gwrthgymdeithasol

CHC: Cartrefi Cymunedol Cymru

CHR: Cofrestr Tai Cyffredin

GP: Meddyg Teulu

CDLI: Cynllun Datblygu Lleol

LTLI: Lwfans Tai Lleol

LHMA: Aseidiadau o'r Farchnad Dai Leol

OT: Therapydd Galwedigaethol

LCC: Landlord Cymdeithasol Cofrestredig

SARTH: Llwybr Mynediad Sengl i Dai

TA: Llety dros dro

TACP: Rhaglen Ariannu Cyfalaf Llety Trosiannol

VAWDASV: Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Rhestr Termau

Dyraniad

Dewis, cynnig a gosod aelwyd o'r gofrestr tai mewn tai cymdeithasol naill ai drwy'r awdurdod lleol neu drwy landlord cymdeithasol cofrestredig neu gymdeithas dai.

Cyfradd dyraniadau fesul 1000 o unedau

Nifer yr aelwydydd a neilltuwyd i dai cymdeithasol am bob 1000 o unedau o stoc tai dros gyfnod o flwyddyn amcangyfrifedig.

Ymgeisydd

Yr unigolyn sydd wedi cofrestru ar gyfer tai cymdeithasol, o bosibl yn cynrychioli aelwyd fwy.

Tai yn Gyntaf

Mae 'Tai yn Gyntaf' yn ddull sy'n canolbwyntio ar adferiad i roi diwedd ar ddigartrefedd. Mae'n canolbwyntio ar symud pobl sy'n profi digartrefedd yn gyflym i dai annibynnol a pharhaol ac yna darparu cymorth a gwasanaethau ychwanegol yn ôl yr angen.

Cofrestr Tai neu Gofrestr Tai Cyffredin (CHR)

Mae cofrestr tai yn rhestr o'r holl unigolion sydd wedi gwneud cais am dŷ cymdeithasol, a gwybodaeth allweddol am yr unigolyn.

Mae'r CHR yn rhestr o unigolion sydd wedi gwneud cais am dai cymdeithasol, a rennir rhwng un neu fwy o awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Swyddogaeth gyffredin y rhain yw galluogi pobl sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol i wneud un cais sengl am yr holl dai mewn un ardal.

Enwebiad

Pan gynigir unigolyn – neu restr fer o unigolion – ar gofrestr tai gan awdurdod lleol i'w ystyried ar gyfer dyraniad tai cymdeithasol.

Cytundeb Enwebu

Cytundeb rhwng awdurdod lleol a chymdeithas dai lle pennir nifer targed o enwebiadau.

Cynnig

Pan roddir cyfle i unigolyn neu aelwyd dderbyn neu wrthod dyraniad tai cymdeithasol.

System fandiio ffafraethol

Mecanwaith cynllun dyrannu neu fframwaith dyrannu i asesu anghenion ymgeisydd er mwyn blaenoriaethu dyraniad tai cymdeithasol, gydag aelwydydd sydd â'r angen mwyaf brys yn cael eu rhoi mewn bandiau blaenoriaeth neu fandiau ffafraethol. Mae systemau bandio yn gweithredu mewn sawl rhan o Gymru – fodd bynnag, nid oes unrhyw safoni ac mae gan lawer o ardaloedd ofynion gwahanol i bob band, nifer gwahanol o fandiau, a gwahanol enwau neu labeli ar gyfer y bandiau.

Ailgartrefu Cyflym

Mae Ailgartrefu Cyflym yn ddull a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n sicrhau y gall unrhyw un sy'n profi digartrefedd symud i gartref sefydlog addas cyn gynted â phosibl, yn hytrach nag aros mewn llety dros dro am gyfnodau hir o amser.

Landlord Cymdeithasol Cofrestredig

Landlord cymdeithasol cofrestredig (LCC) yw'r enw technegol ar gymdeithasau tai sydd wedi'u cofrestru gyda Llywodraeth Cymru ac sy'n cael eu rheoleiddio i gynnal safon dda o reolaeth.

Rheolwyr Perthynas

Gweision sifil Llywodraeth Cymru sy'n gweithredu i wella'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid drwy ddarparu cymorth a chanllawiau i'w cynorthwyo i ddatblygu eu strategaethau a'u polisiau digartrefedd, tra'n meithrin dealltwriaeth o faterion gweithredol i lywio polisi Llywodraeth Cymru datblygiad.

Awdurdodau lleol sy'n dal stoc a rhai nad ydynt yn dal stoc

Mae awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc wedi trosglwyddo eu stoc i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig annibynnol ac felly nid ydynt yn berchen ar eu stoc tai cymdeithasol eu hunain, nac yn eu rheoli. Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn berchen ar y tai cymdeithasol yn yr ardaloedd hyn, ac yn eu rheoli.

Mae awdurdodau lleol sy'n dal stoc yn berchen ar eu stoc dai eu hunain ac yn eu rheoli, ond mae LCCiaid yn dal i fod yn berchen ar rywfaint o stoc yn yr ardaloedd hyn ac yn eu rheoli.

Dyletswyddau adrannau 66, 73, a 75

Mae'r rhain yn rhan o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ac fe'u trafodir yn fanwl ar y dudalen ganlynol.

Tenantiaeth

Mae gan y term hwn yr un ystyr â chontract meddiannaeth o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Tenant

Tenant tŷ cymdeithasol yw'r prif unigolyn ar aelwyd sy'n rhentu cartref cymdeithasol gan LCC neu awdurdod lleol. Mae i'r term hwn yr un ystyr â deiliad contract o dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.

Tâl tanfeddiannu

Polisi Llywodraeth y DU yw hwn, sy'n codi tâl ar denantiaid tai cymdeithasol sy'n byw mewn cartref y bernir bod ganddo fwy o ystafelloedd gwely nag sydd eu hangen. Fe'i disgrifir yn aml fel 'y dreth ystafell wely'.

Atodiad i'r rhestr termau: Eglurhad o ddyletswyddau Deddf Tai (Cymru) 2014

Cyfeirir yn aml yn yr adroddiad hwn at ddyletswyddau sy'n ddyledus gan awdurdodau lleol drwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y dyletswyddau sy'n ddyledus i bobl sy'n profi digartrefedd, neu sydd mewn perygl o brofi digartrefedd. Y rhain yw:

- Mae Adran 66 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014¹ yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol helpu i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i'w feddiannu os yw'r awdurdod wedi'i fodloni bod yr ymgeisydd dan fygythiad o ddigartrefedd a'i fod yn gymwys i gael cymorth. Cyfeirir at hyn yn aml fel y 'ddyletswydd atal'. Mae'r ddyletswydd hon yn ddyledus i bobl sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod – er enghraifft, os ydynt wedi derbyn hysbysiad troi allan, ac yn cysylltu ag awdurdodau am gymorth.
- Mae Adran 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014² yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol helpu i sicrhau bod llety addas ar gael os yw'r ymgeisydd yn profi digartrefedd. Mae'n para hyd at 56 diwrnod. Cyfeirir at hyn yn aml fel y 'ddyletswydd rhyddhad'.
- Mae Adran 75 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014³ yn darparu bod rhaid i awdurdod lleol sicrhau llety addas i ymgeiswyr cymwys sy'n profi digartrefedd. Cyfeirir at hyn yn aml fel y 'ddyletswydd derfynol'. Daw'r ddyletswydd hon i ben dan amodau a amlinellir yn Adran 67, gan gynnwys os gwrthodir cynnig o lety neu os canfyddir llety tymor hir.

Mae'r adroddiad yn disgrifio pobl nad yw'r un o'r dyletswyddau uchod yn berthnasol iddynt fel pobl nad oes gan yr awdurdod lleol "unrhyw ddyletswydd" iddynt ("dim dyletswydd"), neu fod yr awdurdod "heb ddyletswydd" iddynt dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. I grynhoi, ni ystyrir y bobl hyn fel rhai sy'n profi digartrefedd, neu sydd mewn perygl o brofi digartrefedd.

¹ Adran 66 o HWA 2014. Mwy o wybodaeth yn: [Deddf Tai \(Cymru\) 2014. Adran 66.](#)

² Adran 73 o HWA 2014. Mwy o wybodaeth yn: [Deddf Tai \(Cymru\) 2014. Adran 73.](#)

³ Adran 75 o HWA 2014. Mwy o wybodaeth yn: [Deddf Tai \(Cymru\) 2014. Adran 75.](#)

1. Cyflwyniad

Cefndir polisi

- 1.1 Mae tai cymdeithasol yn darparu cartrefi fforddiadwy a diogel i bobl sydd angen tai, ac maent yn arf allweddol i atal a lliniaru digartrefedd yng Nghymru. Sicrheir bod eiddo tai cymdeithasol ar gael drwy bartneriaethau rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCCiaid) gyda'r nod o ddarparu tai addas i'r rhai sydd eu hangen.
- 1.2 Y fframwaith cyfreithiol sy'n sail i'r ddarpariaeth o dai cymdeithasol yng Nghymru yw Deddf Tai 1996⁴, sy'n gosod y sylfaen ar gyfer sut y gall awdurdodau tai lleol ddyrannu tai cymdeithasol. Yn ogystal, cyflwynwyd Deddf Tai (Cymru) 2014⁵ i wneud darpariaeth ar gyfer safonau tai ac i gryfhau'r gwaith o atal digartrefedd, cynnig mwy o ddewis i ddarpar denantiaid a gwella gwasanaethau cymorth i bobl agored i niwed. Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth⁶ yn nodi ei huchelgais i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru drwy ei wneud yn rhywbeth prin, byrhoedlog, a phrofiad na chaiff ei ailadrodd. Lanswyd y Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru (2021-2026)⁷ ym mis Tachwedd 2021. Hysbyswyd hwn gan gynigion y Grŵp Gweithredu Digartrefedd⁸ i atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Mae'n adlewyrchu'r newidiadau y rhagwelir y bydd eu hangen i atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru a symud i ailgartrefu cyflym. Yn dilyn argymhellion adolygiad y Panel Adolygu Arbenigol o ddeddfwriaeth ddigartrefedd o 2022-2023⁹, cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru¹⁰ gan Lywodraeth Cymru ac ymgynghorwyd arno. Mae'n nodi ystod o gynigion ar gyfer newidiadau i'r gyfraith a pholisi gyda'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Mae'n seiliedig ar adborth gan dros 350 o bobl a oedd â phrofiad personol o ddigartrefedd a'r sector tai cymdeithasol. Mae'r

⁴ Deddf Tai 1996. Ar gael yn: [Deddf Tai 1996](#).

⁵ Deddf Tai (Cymru) 2014. Ar gael yn: [Deddf Tai \(Cymru\) 2014](#).

⁶ Llywodraeth Cymru (2019), Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd. Ar gael yn: [Strategaeth ar ddigartrefedd | LLYW.CYMRU](#).

⁷ Llywodraeth Cymru (2021), 'Rhoi diwedd ar ddigartrefedd: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026'. Ar gael yn: [Rhoi diwedd ar ddigartrefedd: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU](#).

⁸ Grŵp Gweithredu Digartrefedd. Ar gael yn: [Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd | LLYW.CYMRU](#).

⁹ Crisis (2023), 'Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Adolygiad Ddeddfwriaethol'. Ar gael yn: <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/wales-expert-review-panel/#cliciwch>

¹⁰ Llywodraeth Cymru (2023), 'Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru'. Ar gael yn: [Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#)

holl ddogfennau hyn yn cydnabod bod dyraniadau tai cymdeithasol yn arf hollbwysig ar gyfer atal a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.

- 1.3 Mae systemau gweinyddol tai cymdeithasol lleol, y stoc tai cymdeithasol sydd ar gael, a pholisïau dyrannu lleol yn amrywio'n fawr rhwng awdurdodau lleol ledled Cymru. Mae hyn yn arwain at wahaniaethau o ran blaenoriaethu anghenion tai, gweithio mewn partneriaeth leol, a chasglu data. O ganlyniad, gall profiad tenantiaid, ymgeiswyr, a rhanddeiliaid amrywio ar draws awdurdodau lleol. Er mwyn cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i ddiwygio deddfwriaeth berthnasol, mae'n hanfodol sefydlu dealltwriaeth fanwl o strwythurau lleol, cyfleoedd, heriau, yn ogystal â meysydd arfer gorau.

Pwrpas yr ymchwil

- 1.4 Comisiynwyd Alma Economics gan Lywodraeth Cymru i archwilio'r modd y caiff tai cymdeithasol eu dyrannu ar draws awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru. Mae'r ymchwil yn ceisio gwella'r ddealltwriaeth o'r berthynas rhwng cyflenwad tai, enwebiadau, dyraniadau a gweithrediad effeithiol y dull Ailgartrefu Cyflym sy'n angenrheidiol i weithredu'r Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru¹¹. Mae'r gwaith yn caniatáu i lunwyr polisi:

- ddeall yn well i ba raddau y mae anghenion grwpiau allweddol sydd angen tai cymdeithasol, gan gynnwys y rhai sy'n profi digartrefedd, yn cael eu diwallu ar hyn o bryd,
- cryfhau'r ddealltwriaeth bresennol o'r stoc sydd ar gael,
- sefydlu mewnwlediadau cadarn i waith partneriaethau lleol rhwng awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig,
- darparu trosolwg o lwyddiannau, heriau ac arfer gorau cyfredol ar draws systemau lleol.

- 1.5 Mae'r gwaith yn cynnwys dau brif biler. Yn gyntaf, ceisiodd yr ymchwil sefydlu sylfaen dystiolaeth feintiol well o'r galw a'r prosesau presennol am dai cymdeithasol drwy ymarfer casglu data sylfaenol gydag awdurdodau lleol ar y gofrestr tai, dyraniadau, enwebiadau a chynigion i ymgeiswyr am dai cymdeithasol. Mae'r ail biler yn cynnwys gwaith maes helaeth trwy gyfweiliadau ansoddol. Cysylltwyd ag awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli defnyddwyr

¹¹ Canllawiau ailgartrefu cyflym. Ar gael yn: [Ailgartrefu Cyflym: canllawiau \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

gwasanaethau neu'r digartref. Roedd cyfweld y rhanddeiliaid hyn yn caniatáu mewnwelediad dyfnach i bolisiâu lleol, strwythurau gweinyddol, a dysgu ar gyfer y dyfodol.

- 1.6 Caiff yr ymchwil hwn ei lywio gan astudiaeth ddichonoldeb¹² i ymchwilio i ddyraniadau tai cymdeithasol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar ymchwil gan Alma Economics. Cyfwelodd yr astudiaeth ddichonoldeb sampl o bedwar awdurdod lleol i ddeall y data sydd ar gael a chael cipolwg ar sut mae dyraniadau'n gweithio. Roedd hwn yn ddefnyddiol ar gyfer llywio'r modd y datblygwyd offer gwaith maes, a chynhaliwyd ymchwil ar gyfer y corff hwn o waith. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn adeiladu ar ystod eang o lenyddiaeth berthnasol, gan gynnwys adroddiad Bec Woolley (2023)¹³ ar ddyraniadau tai cymdeithasol yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru, a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd adroddiad Woolley yn bennaf yn defnyddio arolwg ansoddol o gymdeithasau tai ac awdurdodau lleol ledled Cymru, a ategwyd gan astudiaethau achos o bum ardal ddaearyddol. Mae'r adroddiad yn ddefnyddiol ac yn cynnwys llawer o ddyfyniadau manwl o'r arolwg sy'n ategu'r adroddiad hwn. Canfuwyd fod diffyg difrifol yn y stoc tai cymdeithasol a disgrifiodd y system tai cymdeithasol fel 'ecosystem', lle dylai polisi anelu at wneud y mwyaf o 'lif', tra'n ystyried yn gryf y canlyniadau anfwriadol. Mae'r adroddiad presennol yn adeiladu ar adroddiad Woolley a'i hargymhelliad ar gyfer ymchwil pellach, drwy gyfweld mwy o sefydliadau a chasglu data meintiol manwl ar ddyraniadau tai cymdeithasol gan awdurdodau lleol.

Strwythur yr adroddiad

- 1.7 Caiff gweddill yr adroddiad hwn ei strwythuro fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn amlinellu nodau a methodoleg yr ymchwil, ac yn trafod cyfyngiadau'r prosiect hwn.
- Mae Adran 3 yn cyflwyno tystiolaeth feintiol ac ansoddol ynghylch sut mae awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ledled Cymru yn bodloni'r galw am dai cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar faint aelwydydd, profiadau o ddigartrefedd, a nodweddion gwarchoddedig.

¹² Llywodraeth Cymru (2023), 'Astudiaeth Ddichonoldeb Dyraniadau Tai Cymdeithasol'. Ar gael yn: [Astudiaeth ddichonoldeb ynghylch ddyrannu tai cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#).

¹³ Bec Woolley (2023), 'Dyraniadau: Deall mwy, yng nghyd-destun digartrefedd yng Nghymru'. Ar gael yn: [Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#).

- Mae Adran 4 yn cynnwys canfyddiadau meintiol ac ansoddol ynghylch sut y gwneir dyraniadau ledled Cymru. Mae'n amlinellu cryfderau a heriau gwahanol systemau dyrannu.
- Mae Adran 5 yn nodi'r llwyddiannau, yr heriau a'r arferion gorau yn y systemau presennol. Mae'n nodi'r 'pileri llwyddiant' ymhlith partneriaethau â chanlyniadau effeithiol, yr elfennau o systemau dyrannu sy'n aml yn cyflwyno heriau, y potensial ar gyfer newidiadau polisi a newidiadau ehangach, ac arferion gorau ac argymhellion.
- Mae Adran 6 yn amlinellu sut mae data'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i wneud penderfyniadau ar ddyraniadau tai cymdeithasol a'r cyfleoedd i wella hyn.
- Mae Adran 7 yn dod i gasgliadau o'r adroddiad cyfan.

2. Dull ymchwil

Amcanion yr ymchwil

- 2.1 Mae'r ymchwil hwn yn canolbwyntio ar ddwy gydran graidd: (i) casglu a dadansoddi data ar lefel awdurdod lleol, gan ganolbwyntio ar ddata'r gofrestr dai, enwebiadau, dyraniadau a chynigion; a (ii) ymgysylltu ag awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCCiaid), ac amrywiaeth o sefydliadau rhanddeiliaid drwy gyfweiliadau lled-strwythuredig. Casglwyd y data rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2024 gyda'r canlyniadau'n cael eu trafod drwy'r adrannau a ganlyn.

Methodoleg

Dull casglu data meintiol

- 2.2 Roedd elfen feintiol yr ymchwil yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â chyfyngiadau a bylchau mewn data tai cymdeithasol, gan adeiladu ar yr hyn sydd eisoes wedi'i gasglu'n genedlaethol. Mae ystadegau swyddogol yn cynnwys gwybodaeth am y stoc tai cymdeithasol, gan gynnwys cyfanswm y stoc a'r rhenti¹⁴ ym mhob awdurdod lleol, nifer y gosodiadau tai cymdeithasol¹⁵, gwerthiannau tai cymdeithasol¹⁶, tenantiaethau ag ôl-ddyledion rhent¹⁷ a nifer y lleoedd gwag¹⁸. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ystadegau swyddogol yn dangos nodweddion y rhai sy'n defnyddio'r system tai cymdeithasol, gan gynnwys y rhai sy'n aros am dai cymdeithasol (aelwydydd ar y gofrestr tai), na nifer yr aelwydydd y dyrannwyd tai cymdeithasol iddynt. Yn ogystal, er bod gan Lywodraeth Cymru ddata ar lefelau digartrefedd o ddata a gasglwyd ar nifer yr unigolion mewn llety dros dro a nifer yr unigolion sy'n cysgu allan, mae'r ddealltwriaeth o ddyraniadau tai cymdeithasol i unigolion sy'n profi digartrefedd yn annibynadwy ac anghyson. Roedd yr ymchwil hwn felly yn ceisio mynd i'r afael â'r bylchau hyn drwy gasglu data sylfaenol i greu darlun dadansoddol mwy cynhwysfawr o ddyraniadau tai cymdeithasol.
- 2.3 Casglwyd data sylfaenol drwy daenlen hawdd ei defnyddio a anfonwyd at bob un o'r 22 awdurdod lleol i'w chwblhau. Roedd gan bob taenlen 6 tab, a oedd yn cynnwys:

¹⁴ Llywodraeth Cymru (d.d.), 'Stoc tai cymdeithasol a rhenti'. Ar gael yn: [Stoc tai landlordiaid cymdeithasol a rhent | LLYW.CYMRU](#).

¹⁵ Llywodraeth Cymru (d.d.), 'Gosodiadau tai cymdeithasol'. Ar gael yn: [Llefydd gwag, gosodiadau ac ôl-ddyledion tai cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#).

¹⁶ Llywodraeth Cymru (d.d.), 'Gwerthiannau tai landlordiaid cymdeithasol'. Ar gael yn: [Gwerthiannau tai landlordiaid cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#).

¹⁷ Llywodraeth Cymru (d.d.), 'Ôl-ddyledion rhent tai cymdeithasol.' Ar gael yn: [Llefydd gwag, gosodiadau ac ôl-ddyledion tai cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#).

¹⁸ Llywodraeth Cymru (d.d.), 'Llefydd gwag mewn tai cymdeithasol.' Ar gael yn: [Llefydd gwag, gosodiadau ac ôl-ddyledion tai cymdeithasol | LLYW.CYMRU](#).

(i) manylion yr awdurdod lleol, gan gynnwys bod â Chofrestr Tai Cyffredin neu gytundeb enwebu, (iii) nifer yr aelwydydd ar y gofrestr tai, (iv) nifer yr aelwydydd y dyrannwyd tai cymdeithasol iddynt, (v) nifer yr aelwydydd sydd wedi cael cynnig tai cymdeithasol, a (vi) nifer yr aelwydydd sydd wedi cael eu henwebu ar gyfer tai cymdeithasol. Roedd yr holl ddata yn adrannau (iii) i (vi) yn cynnwys dadansoddiadau fesul dyletswydd¹⁹ a nodweddion aelwydydd eraill.²⁰ Gweler yr holl ganllawiau a chwestiynau a ofynnwyd yn Atodiad E. Casglwyd templedi rhwng mis Mawrth 2024 a mis Gorffennaf 2024, sy'n arwydd mai "ciplun" a geir o'r galw am dai cymdeithasol a'r dyraniadau yn y cyfnod hwn, ac eithrio cwestiynau sy'n gofyn i awdurdodau lleol ddarparu data hanesyddol. Mae hyn yn cynnwys gofyn am nifer yr aelwydydd ar y gofrestr tai flwyddyn ynghynt. Derbyniwyd 16 o dempledi data a oedd yn fras yn gynrychioliadol o'r boblogaeth wirioneddol, o safbwynt yr awdurdodau lleol a oedd yn dal stoc a'u dosbarthiad gwledig-trefol. Pennwyd bod awdurdodau naill ai'n wledig, yn drefol, yn y cymoedd, neu fel arall, yn unol â chanllawiau StatsCymru.²¹ Dangosir cynrychiolaeth y sampl isod yn Nhabl 1 a 2.

Tabl 1. Sampl o gasglu data - Awdurdodau lleol sy'n dal stoc

Math o Awdurdod Lleol	Nifer o Awdurdodau Lleol	Sampl Templed Data
Yn dal stoc	11 (50.0%)	8 (50.0%)
Ddim yn dal stoc	11 (50.0%)	8 (50.0%)

Ffynhonnell: Data tai cymdeithasol sylfaenol a gasglwyd gan Alma Economics o sampl o 16 o awdurdodau lleol Cymru.

Tabl 2. Sampl o gasglu data – Dosbarthiad gwledig-trefol²²

Math o Awdurdod Lleol	Nifer o Awdurdodau Lleol	Sampl Templed Data
Gwledig	9 (41.0%)	6 (37.5%)
Trefol	3 (13.6%)	3 (18.75%)
Cymoedd	5 (22.7%)	3 (18.75%)
Arall	5 (22.7%)	4 (25.0%)

Ffynhonnell: Data tai cymdeithasol sylfaenol a gasglwyd gan Alma Economics o sampl o 16 o awdurdodau lleol Cymru.

¹⁹ Mae hyn yn cyfeirio at y dyletswyddau sy'n ddyledus i bobl sy'n profi digartrefedd, neu sydd mewn perygl o brofi digartrefedd, a geir yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Disgrifir hyn yn fanylach yn y Rhestr Termau.

²⁰ Ymhlith y nodweddion mae: maint yr aelwyd, nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen, oedran, statws cyflogaeth, statws anabledd, grŵp ethnig neu hil, rhyw a rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol. Mae hyn yr un fath ar draws data a gasglwyd ar y gofrestr tai, dyraniadau, enwebiadau a chynigion.

²¹ StatsCymru (2008), 'Cymru wledig – diffiniadau a sut i ddewis rhyngddynt'. Ar gael yn: [Cymru wledig: diffiniadau a sut i ddewis rhwyg hwy | LLYW.CYMRU.](#)

²² StatsCymru (2008), 'Cymru wledig – diffiniadau a sut i ddewis rhyngddynt'. Ar gael yn: [Cymru wledig: diffiniadau a sut i ddewis rhwyg hwy | LLYW.CYMRU.](#)

Dadansoddiad data meintiol

2.4 Cafodd templedi data eu glanhau i ganfod anghysondebau neu wallau yn y data ac yna eu trefnu'n 6 set ddata wahanol yn ôl y math o ddata a ddarparwyd, gan gynnwys (i) manylion dyrannu pob awdurdod lleol, (ii) cofrestr tai, (iii) dyraniadau, (iv) enwebiadau a (iv) cynigion. Yna, cyfrifwyd ystadegau cryno, croes dabliadau a chynrychioliadau gweledol ar gyfer pob set ddata yn ôl (i) priodwedd neu nodwedd ddemograffig, (ii) math o ddyletswydd, (iii) awdurdodau lleol sy'n dal stoc o'i gymharu ag awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc, a (iv) dosbarthiad gwledig-trefol. Cafodd metrigau eraill, gan gynnwys cyfraddau dyrannu fesul 1000 o aelwydydd, eu cyfrifo hefyd gan ddefnyddio data stoc tai cymdeithasol gan StatsCymru²³.

Ansawdd y data

2.5 Mae nifer o gyfyngiadau o ran ansawdd y data a ddarperir drwy'r ymarfer casglu data hwn. Er bod y templedi yn gofyn am wybodaeth am nodweddion demograffig a chynigion ac enwebiadau, roedd y cyfraddau cwblhau yn isel iawn, i'r graddau nad oedd yn bosibl cynnal dadansoddiad cadarn gyda'r wybodaeth a gafwyd. Dywedwyd bod hyn yn ormod o faich i awdurdodau lleol ei gwblhau, gan y byddai angen llawer o adroddiadau â llaw gyda thebygolrwydd uchel o gamgymeriadau dynol. Oherwydd pryderon am ansawdd y data, nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw ddadansoddiad demograffig. Fodd bynnag, cafwyd cyfraddau cwblhau uchel iawn ar ddata cyfanredol ynghylch nifer yr aelwydydd ar y gofrestr tai a dyraniadau, gyda mwyafrif yr awdurdodau lleol yn darparu dadansoddiadau ar lefel y ddyletswydd. Mae'r cyfyngiadau gyda'r data hwn yn cynnwys:

- Dim ond ciplun cyfredol o'r data sydd ganddynt y gall awdurdodau lleol ei ddarparu. Mae hyn yn golygu na allant ddarparu data am gyfnod penodol oni bai eu bod wedi digwydd tynnu data bryd hynny. Yn ogystal, casglwyd templedi data rhwng mis Mawrth 2024 a mis Gorffennaf 2024 sy'n golygu bod rhywfaint o anghysondeb yn yr amserlen ciplun a ddarparwyd gan bob awdurdod lleol. Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn golygu bod y cymariaethau data a wnaed dros gyfnodau amser ychydig yn wahanol.
- Mae'r holl ddata tai cymdeithasol yn seiliedig ar y "prif ymgeisydd", sy'n dangos bod y rhan fwyaf o'r wybodaeth am nodweddion yn cynrychioli

²³ Llywodraeth Cymru (d.d), 'Stoc tai cymdeithasol a rhenti'. Ar gael yn: [Stoc tai landlordiaid cymdeithasol a rhenti | LLYW.CYMRU](#).

person sengl yn hytrach na'u haelwydydd cyflawn. Mae hefyd yn golygu y gallai un aelwyd a gynrychiolir fod yn berson sengl neu'n deulu o bedwar, gan arwain at rai anghysondebau yn y ffordd y caiff y data ei ddehongli. Yn ogystal, gall rhai awdurdodau lleol ddarparu dadansoddiadau fesul dyletswydd, tra bod eraill yn cynnig ffigurau cyfanredol yn unig.

- Mae cyfyngiadau cynhenid i'r data a gesglir oherwydd mai data gweinyddol awdurdodau lleol yw. Golyga hyn bod amrywiadau yn debygol o fod rhwng awdurdodau lleol o ran sut mae data tai cymdeithasol yn cael ei reoli, ei gynnal a'i brosesu ar gyfer y gofrestr tai a data dyraniadau. Mae gan awdurdodau lleol ddulliau gwahanol o ddiweddarau cofrestrau tai; er hynny, mae'r rhan fwyaf yn cynnal diweddariadau blynyddol ar raddfa fawr o wybodaeth cofrestrau tai. Gall aelwyd wneud cais i fwy nag un awdurdod lleol, neu i fwy nag un gofrestr o fewn awdurdod lle nad oes CHR yn cael ei dal, ac o ganlyniad mae rhai aelwydydd yn debygol o gael eu cynnwys ar fwy nag un gofrestr, gan arwain at eu cyfrif ddwywaith. Felly, dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau ar draws awdurdodau lleol neu ar draws blynyddoedd. Ni fydd hyn yn cael unrhyw effaith ar ddata dyraniadau a chyfraddau dyraniadau wedi'u cyfrifo nad ydynt yn defnyddio data o gofrestrau tai. Fodd bynnag, bydd data dyraniadau a chyfraddau dyraniadau wedi'u cyfrifo yn parhau i wynebu'r cyfyngiadau sy'n gynhenid i ddata gweinyddol lleol, fel y trafodwyd uchod.

2.6 Cyfyngiad pellach i'r ymarfer casglu data sylfaenol hwn yw na chasglwyd unrhyw ddata meintiol gan LCCiaid. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl na fydd y data gan dri awdurdod lleol nad ydynt yn gweithredu Cofrestr Tai Cyffredin yn cynnwys yr holl ymgeiswyr – gan y gallai rhai fod ar gofrestrau LCCiaid yn hytrach na'r cofrestrau awdurdodau lleol a ystyriwyd ar gyfer yr ymchwil hwn. Serch hynny, casglwyd data gan 8 awdurdod lleol nad ydynt yn dal stoc, sy'n rhoi cipolwg ar y gofrestr dai a data dyraniadau gan LCCiaid yn y rhanbarthau hynny. Yn ogystal, cyfwelwyd 17 LCC ar gyfer y prosiect hwn, sy'n golygu bod safbwyntiau LCCiaid yn cael eu cynrychioli'n dda mewn canfyddiadau ansoddol.

Dull casglu data ansoddol

2.7 Bwriad y gwaith maes gydag awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid sector oedd darparu gwell dealltwriaeth o brosesau a strwythurau lleol ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru, yn ogystal â nodi enghreifftiau o arfer da ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Y ffocws drwy gydol y cyfweiliadau oedd i ba

raddau y gellid diwallu anghenion ymgeiswyr am dai cymdeithasol a thenantiaid presennol ar hyn o bryd, y lefelau stoc sydd ar gael, systemau gweinyddol lleol a gweithio mewn partneriaeth, yn ogystal â llwyddiannau a heriau ehangach ar lefel leol. Cynhaliwyd y gwaith o ddatblygu'r offer gwaith maes mewn cydweithrediad agos â Llywodraeth Cymru. Gweler y canllawiau trafod yn Atodiadau B-D.

2.8 Gwahoddwyd cynrychiolwyr o 22 o dimau awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am dai, dyraniadau, neu feysydd polisi cyfagos i gyfweiliadau. Rhannwyd manylion cyswllt gyda chytundeb y cyfweleion trwy reolwyr perthynas Llywodraeth Cymru. Llwyddwyd i recriwtio 17 LCC arall ar gyfer cyfweiliadau i daflu goleuni ar safbwyntiau lleol amrywiol gan randdeiliaid hanfodol. Rhannwyd manylion cyswllt LCCiaid gyda chytundeb y cyfweleion, naill ai gan awdurdodau lleol, Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC), ac ar adegau eraill trwy ddefnyddio ffurflenni cyswllt ar-lein neu fanylion cyswllt e-bost sydd ar gael yn gyhoeddus. Mae'r LCCiaid a gyfwelwyd ar gyfer y prosiect hwn yn gweithredu ar draws gogledd, de, dwyrain a gorllewin Cymru ac mewn awdurdodau lleol trefol a gwledig. Maent hefyd yn cynnwys LCCiaid a ffurfiwyd o ganlyniad i drosglwyddo stoc a LCCiaid eraill. Yn ogystal ag awdurdodau lleol a LCCiaid, rhannwyd manylion cyswllt 10 sefydliad rhanddeiliaid naill ai gan Lywodraeth Cymru, yn dilyn cytundeb y cyfweleion, neu drwy fanylion cyswllt a nodwyd ar-lein a oedd ar gael yn gyhoeddus. Mewn achosion o ddiffyg ymateb yn dilyn gwahoddiadau cychwynnol, anfonwyd gwahoddiadau dilynol i sicrhau bod rhanddeiliaid y sector yn cael eu cynrychioli cymaint â phosibl. Ceir trosolwg o'r holl gyfweleion a gymerodd ran yn Atodiad A. Roedd yr ymchwil hwn yn canolbwyntio ar awdurdodau lleol a'r LCCiaid. Fodd bynnag, i adlewyrchu safbwyntiau ehangach, cyfwelwyd deg sefydliad rhanddeiliaid, megis Crisis, Shelter, Tai Pawb, HBF, a TPAS. Mae hyn yn golygu, er na wnaethom ymgysylltu'n uniongyrchol â thenantiaid tai cymdeithasol na phobl ar restrau aros tai cymdeithasol (a ddylai gael ei gydnabod fel cyfyngiad ar yr ymchwil hwn), fe wnaethom ymgysylltu â chynrychiolwyr a allai roi rhywfaint o fewnwelediad i'r profiadau hyn.

2.9 Cafodd data a gafwyd drwy'r cyfweiliadau lled-strwythuredig eu rhoi mewn cynllun codio a'u hasesu wedyn drwy ddadansoddiad thematig. Mae'r dull hwn yn caniatáu canfod themâu cyffredin a thueddiadau trosfwaol ar draws cyfweleion, tra'i fod hefyd yn ystyried y systemau dyrannu gwahanol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol unigol.

3. **Bodloni'r galw am dai cymdeithasol drwy'r stoc sydd ar gael**


3.1 Mae'r adrannau a ganlyn yn manylu ar y mewnwelediadau a gafwyd o ddadansoddi data a gasglwyd gan awdurdodau lleol ar statws eu cofrestrau tai, yn ogystal â chyfweliadau ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, 17 landlord cymdeithasol cofrestredig (LCC), a 10 sefydliad rhanddeiliaid. Am fanylion ynghylch pa sefydliadau a gyfwelwyd, gweler Atodiad A. Cynhaliwyd cyfweliadau rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2024 ac fe'u cynhaliwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Defnyddiwyd canllawiau trafod ar wahân i bob math o randdeiliad, sydd i'w gweld yn Atodiadau B-D. Roedd y pynciau allweddol a drafodwyd yn cynnwys i ba raddau y gellid diwallu anghenion grwpiau sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol, sut oedd systemau dyrannu lleol yn gweithio'n ymarferol, yn ogystal â llwyddiannau, heriau ac arferion gorau ehangach.

Trosolwg o'r gofrestr tai

3.2 Gofynnwyd i awdurdodau lleol faint o aelwydydd sydd ar eu gofrestr tai ar hyn o bryd (rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2024, yn dibynnu ar gwblhau), ac i gymharu â nifer yr aelwydydd ar y gofrestr dai flwyddyn ynghynt. Dim ond ciplun o statws presennol ymgeiswyr y gall cronfeydd data cofrestrau tai ei ddarparu, felly nid oedd llawer o awdurdodau lleol yn gallu rhoi data hanesyddol oni bai eu bod wedi digwydd lawrlwytho data yn flaenorol. Er enghraifft, dim ond data hanesyddol o 2022 y gallai un awdurdod lleol ei ddarparu, a dyna pam mae Ffigur 1 wedi'i labelu "1 flwyddyn yn ôl neu fwy". O'r 16 awdurdod lleol a gyflwynodd dempledidi data, roedd 10 yn gallu darparu data hanesyddol, felly dyna'r sampl a ddangosir yn Ffigur 1. O'r sampl o 10 awdurdod lleol yn Ffigur 1, mae taflywbr ar i fyny amlwg yn nifer yr aelwydydd ar gofrestrau tai o 2022/2023 i 2024, gan ddangos cynnydd o 16% dros amser. Mae'n bwysig nodi bod problemau ansawdd data yn debygol o godi. Nid yw'n hysbys i ba raddau y mae'r cynnydd hwn o ganlyniad i newidiadau gwirioneddol neu wahaniaethau mewn ansawdd data yn hysbys, heb wneud asesiad pellach o bob system ddata. Priodolir hyn i fân wahaniaethau ymhlith y gweinyddiaethau lle casglwyd y data. Fodd bynnag, o ystyried ein canfyddiadau ansoddol, mae'r duedd hon yn debygol o adlewyrchu tueddiadau gwirioneddol, hyd yn oed os nad yw'r rhifau'n gwbl gywir.

Ffigur 1. Cyfanswm yr aelwydydd ar gofrestrau tai dros amser

Data cofrestr tai o 10 awdurdod lleol rhwng 2022-2024



Ffynhonnell: Dadansoddiad gan Alma Economics o ddata tai cymdeithasol sylfaenol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol Cymru.

3.3 Fel y gwelir yn Ffigur 2, mae cyfran uwch o aelwydydd y mae dyletswydd iddynt mewn awdurdodau lleol sy'n dal stoc (18.4%) o'i gymharu ag awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc. Mae aelwydydd y mae dyletswydd iddynt yn cyfrif am 8.1% o'r gofrestr dai. Mae hyn yn nodedig o ran dyletswyddau Adran 66, sy'n cyfrif am 7.5% o'r gofrestr tai i awdurdodau lleol sy'n dal stoc ond dim ond 1.6% i awdurdodau lleol heb stoc tai cymdeithasol.

3.4 Gofynnwyd hefyd i awdurdodau lleol ddarparu dadansoddiadau o aelwydydd ar y gofrestr dai yn ôl math o ddyletswydd yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014, gan gynnwys dim dyletswydd, Adran 66, Adran 73 neu Adran 75.²⁴ O'r sampl o 16, ni allai 2 awdurdod lleol ddarparu dadansoddiad llawn o aelwydydd fesul dyletswydd ar y gofrestr dai. Maent yn nodi naill ai bod angen cyfuno dwy ddyletswydd (Adran 66 ac Adran 73), neu roi bob aelwyd sydd â dyletswydd iddynt ("aelwydydd digartref") o dan Adran 75 ar gyfer adrodd. Yn yr achos cyntaf, cafodd yr holl achosion eu cronni o dan Adran 73. Er bod rhai anghysondebau oherwydd y


²⁴ Eglurir y dyletswyddau hyn fel rhan o'r Rhestr Termau ar ddechrau'r adroddiad.

YN SWYDDOGOL SENSITIF

gwahaniaeth yn y dull adrodd, mae cyfanswm yr aelwydydd yr effeithir arnynt yn cyfrif am tua 0.2% o gyfanswm y sampl, felly mae'r cyfrannau'n dal yn gywir ar y cyfan. Felly, cynhwyswyd yr awdurdodau lleol hyn yn y sampl a gynrychiolir yn Ffigurau 2 a 3.

Ffigur 2. Cyfran yr aelwydydd ar y gofrestr tai yn ôl math o ddyletswydd (awdurdodau lleol sy'n dal stoc o'i gymharu ag awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc)

3.5 Data cofrestr tai gan 16 awdurdod lleol (8 sy'n dal stoc, 8 ddim yn dal stoc), wedi'i ddadansoddi yn ôl math o ddyletswydd ddigartrefedd.



Ffynhonnell: Dadansoddiad gan Alma Economics o ddata tai cymdeithasol sylfaenol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol Cymru.


3.6 Mae cyfran yr aelwydydd y mae dyletswydd iddynt ar y gofrestr dai hefyd yn amrywio'n ddaearyddol ledled Cymru, fel y dangosir yn Ffigur 3. Mae hyn yn dangos bod gan awdurdodau lleol yn y Cymoedd gyfran is (5.4%) o aelwydydd â dyletswydd iddynt ar eu cofrestrau tai, o'i gymharu ag ardaloedd daearyddol eraill sy'n cyfateb i tua 12%. Mae gan ardaloedd gwledig, trefol ac ardaloedd eraill gyfrannau tebyg o aelwydydd y mae dyletswydd iddynt ar eu cofrestrau tai. Fel y crybwyllwyd yn

YN SWYDDOGOL SENSITIF

flaenorol, sylwer ei bod yn debygol y bydd amrywiaeth rhwng systemau data gweinyddol ar draws awdurdodau lleol.

Ffigur 3. Cyfran yr aelwydydd ar y gofrestr tai yn ôl math o ddyletswydd (dosbarthiad gwledig-trefol awdurdodau lleol²⁵)

Data cofrestr tai gan 16 awdurdod lleol (4 wedi'u dosbarthu fel Arall, 6 wedi'u dosbarthu yn Wledig, 3 wedi'u dosbarthu yn Drefol, 3 wedi'u dosbarthu yn Gyfoedd)



Ffynhonnell: Dadansoddiad gan Alma Economics o ddata tai cymdeithasol sylfaenol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol Cymru.

²⁵ StatsCymru (2008), 'Cymru wledig – diffiniadau a sut i ddewis rhyngddynt'. Ar gael yn: [Cymru wledig: diffiniadau a sut i ddewis rhwyg hwy | LLYW.CYMRU](http://LLYW.CYMRU).

Galw am dai cymdeithasol ar gyfer grwpiau â dewisiadau rhesymol

- 3.7 Bu cyfweleion o awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a sefydliadau rhanddeiliaid yn trafod effaith y ffordd y mae tai cymdeithasol yn cael eu dyrannu i wahanol grwpiau ar hyn o bryd. Mae'n bwysig cydnabod ei bod yn bosibl i unigolion a chartrefi fod â hunaniaethau croestoriadol lluosog ar yr un pryd, a gall y rhain ddylanwadu neu ddwysáu heriau. Mae'r adran hon yn canolbwyntio'n gyntaf ar bobl sy'n profi digartrefedd ac yna ar bobl sydd mewn perygl o brofi digartrefedd cyn troi at bobl sengl, teuluoedd mwy a phobl mewn cartrefi gorllawn. Yna, mae ffocws yr adran yn troi at bobl anabl, pobl ag anghenion cymorth lluosog, a grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.


Pobl sy'n profi digartrefedd

- 3.8 Roedd cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid i gyd yn cytuno bod nifer y bobl sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref i awdurdodau lleol wedi cynyddu'n aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf.
- 3.9 Yn ein hymarfer casglu data sylfaenol, gofynnwyd hefyd i awdurdodau lleol ddarparu nifer yr aelwydydd ar y gofrestr tai ar hyn o bryd ac yn hanesyddol yn ôl math o ddyletswydd; dangosir hyn yn Ffigur 4. Mae'r data hwn yn wynebu'r un materion ansawdd a nodwyd yn flaenorol, lle mai dim ond rhai awdurdodau lleol sy'n gallu darparu data hanesyddol, gydag un awdurdod lleol yn unig yn gallu darparu data o 2022.²⁶ Mae'r sampl yn Ffigur 4 yn cael ei leihau ymhellach gan mai dim ond data cofrestr tai fel cyfanswm y gallai un awdurdod lleol ei ddarparu, heb ei ddadansoddi yn ôl y math o ddyletswydd. Felly, y sampl ar gyfer Ffigur 4 yw 9 awdurdod lleol, o'i gymharu â 10 yn Ffigur 1.
- 3.10 Fel y gwelir yn Ffigur 4, gyrrir y cynnydd cyfrannol hwn yn y galw am dai cymdeithasol i aelwydydd sy'n ddeiliaid dyletswydd gan aelwydydd sydd â dyletswydd iddynt dan Adran 75 a 66, lle bu cynnydd ar y cyd o 1.1 pwynt canran. Yn gyffredinol, mae nifer yr aelwydydd y mae dyletswydd iddynt ar y gofrestr tai wedi cynyddu 29% o'i gymharu â data hanesyddol y gofrestr tai, pan fo'r data hwn ar gael.

²⁶ Dyma pam mae Ffigur 4 yn nodi "1 flwyddyn neu fwy yn ôl", i gyfrif am ddata hanesyddol sy'n fwy nag 1 oed.

Ffigur 4. Cyfran yr aelwydydd ar y gofrestr tai yn ôl math o ddyletswydd dros amser

Data cofrestr tai gan 9 awdurdod lleol (sampl llai oherwydd data hanesyddol ar goll ar gyfer 7 awdurdod lleol)



Ffynhonnell: Dadansoddiad gan Alma Economics o ddata tai cymdeithasol sylfaenol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol Cymru.

3.11 Esboniodd y cyfweleion fod pobl sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref bellach yn fwy tebygol o fod ag anghenion cymorth lluosog – megis heriau iechyd meddwl neu ddefnyddio sylweddau – sy'n gofyn am fwy o ddefnydd o wasanaethau cymorth na chyn pandemig COVID-19. Yng ngeiriau un cyfwelai awdurdod lleol, "mae'n debyg bod mwy o bobl [sy'n ceisio cael tai cymdeithasol] â lefelau uwch o angen nawr nag a welsom erioed o'r blaen, ac mae eu hanghenion yn fwy cymhleth hefyd."

Oherwydd y cynnydd mewn cyflwyniadau digartref, mae pobl sy'n profi digartrefedd yn cael eu lleoli ac yn aros mewn llety dros dro am gyfnodau hirach o amser.

Dywedodd rhai awdurdodau lleol fod pobl sy'n profi digartrefedd yn aros "ychydig wythnosau" am ddyraniad cyn y pandemig ond eu bod bellach yn aml yn treulio rhwng 10 a 24 mis mewn llety dros dro cyn cael dyraniad tai cymdeithasol.

3.12 Pwysleisiodd cynrychiolwyr elusennau digartrefedd ganlyniadau negyddol treulio cyfnodau hir o amser mewn llety dros dro, gan ddadlau bod llety dros dro o

ansawdd gwael yn achosi straen difrifol ac iechyd meddwl gwael i bobl sydd eisoes yn wynebu trawma oherwydd digartrefedd. Yng ngeiriau un elusen, “pan mae pobl yn aros mewn llety dros dro am dai cymdeithasol, maen nhw’n teimlo bod eu bywydau yn cael eu gohirio. Wyddoch chi, mae yna ansicrwydd am eu dyfodol ac ansicrwydd ynghylch eu bywydau presennol. Ni allant gynllunio ar gyfer y dyfodol.” Yn ogystal, cododd ystod o gyfweleion y pwynt y gall y llety dros dro fod ymhell o rwydweithiau cymorth, gweithleoedd neu gyfleoedd addysgol sy’n effeithio ar fywydau'r rhai sy'n byw yno. Nid yw’n glir i'r bobl hyn pryd y bydd tai cymdeithasol yn cael eu dyrannu iddynt, ac felly’n cânt eu gadael mewn llety dros dro sy’n cyfrannu at straen. Cyfeiriodd un sefydliad at fam gyda phlant bach mewn llety dros dro, a ddisgrifiodd y profiad fel “dedfryd o garchar – ac nid ydych chi’n gwybod pryd fydd diwedd y ddedfryd.” Disgrifiodd y cyfweleion gylch o heriau cynyddol, lle mae'r galw uchel oherwydd canlyniadau'r pandemig COVID-19 a'r argyfwng costau byw wedi arwain at restrau aros hirach, mwy o amser yn cael ei dreulio mewn llety dros dro, ac anghenion cymorth uwch ar draws awdurdodau lleol.

- 3.13 Rhoddwyd amrywiaeth eang o atebion pan ofynnwyd i'r cyfweleion ddisgrifio'r rhwystrau sy'n wynebu ymgeiswyr sy'n profi digartrefedd. Dywedodd lleiafrif o'r cyfweleion sy'n cynrychioli awdurdodau lleol a LCCiaid mai ychydig iawn o rwystrau sy'n wynebu pobl â phrofiad o ddigartrefedd wrth wneud cais am dai cymdeithasol, gan dynnu sylw at fandio ffafraethol i ymgeiswyr â dyletswyddau Adran 73 a 75²⁷ a'r cymorth a ddarperir i gwblhau ceisiadau am dai cymdeithasol. Fodd bynnag, dywedodd mwyafrif y cyfweleion a oedd yn cynrychioli awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid ehangach fod pobl sy'n profi digartrefedd yn parhau i wynebu rhwystrau difrifol. Mae'r rhain yn cynnwys: (i) heriau o ran deall systemau dyrannu deddfol a chwblhau ffurflenni maith, yn enwedig wrth wynebu straen a thrawma digartrefedd; (ii) heriau o ran cael mynediad at wasanaethau digidol, yn enwedig mewn llety dros dro gyda mynediad digidol cyfyngedig; a (iii) diffyg cymorth i gynnal tenantiaeth gymdeithasol yn dilyn wythnosau cyntaf tenant yn mynd i mewn i eiddo, yn enwedig i denantiaid tro cyntaf. Dywedodd llawer o'r cyfweleion, er bod hanes o ôl-ddyledion rhent neu ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) yn aml yn atal dyraniadau cyn y pandemig, roedd agweddau'n newid i sicrhau nad yw'r heriau hyn yn atal dyraniadau ond yn hytrach yn arwain at fwy o gefnogaeth. Nododd rhai cyfweleion y gall ôl-ddyledion rhent ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ddal i atal

²⁷ Eglurir y dyletswyddau hyn fel rhan o'r Rhestr Termau ar ddechrau'r adroddiad. Gweler hefyd 'System Bandio Blaenoriaeth' yn y Rhestr Termau am esboniad o systemau bandio.

dyraniadau er gwaethaf newidiadau polisi ar lefel leol a chenedlaethol, ond mynegwyd optimistiaeth y bydd arferion gwaith newydd a hyfforddiant staff yn sicrhau nad yw ôl-ddyledion rhent ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhwystrau i ddyraniadau llwyddiannus.

Pobl sydd mewn perygl o brofi digartrefedd

- 3.14 Esboniodd cyfweleion yn y mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol fod pobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref yn cael blaenoriaeth is ar gyfer dyraniadau na'r rhai sydd eisoes yn ddigartref. Ceir eithriad ym Mholisi Dyraniadau Brys Sir Gaerfyrddin²⁸, sy'n gosod pobl mewn perygl o ddigartrefedd o fewn y band uchaf ochr yn ochr â phobl sy'n profi digartrefedd ar hyn o bryd. Yr uchelgais yw atal digartrefedd er mwyn osgoi'r profiadau trawmatig cysylltiedig, gan gynnwys profiadau trawmatig yn ymwneud â llety dros dro.
- 3.15 Yn aml, mae awdurdodau lleol yn ystyried mai defnyddio mecanweithiau y tu allan i'r system dyrannu tai cymdeithasol sydd fwyaf addas i'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Felly, yn lle rhoi blaenoriaeth gref i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn systemau dyrannu tai cymdeithasol (e.e. bandio blaenoriaeth), mae awdurdodau lleol yn aml yn cynnig "cymorth fel y bo'r angen" i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae hyn yn cyfeirio at gymorth tymor byr gan weithiwr proffesiynol i gefnogi pobl i gynnal eu tenantiaeth, gan gynnwys sicrhau bod ganddynt y sgiliau i gynnal tenantiaeth a chael y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.²⁹ Dywedodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol hefyd fod y Grant Atal Digartrefedd a'r Grant Cymorth Tai yn cael eu defnyddio i glirio ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan denantiaid yn y sector rhentu preifat, a allai gael eu troi allan fel arall. Disgrifiodd awdurdodau lleol sut y maent yn brocera ac yn gwarantu cynlluniau ad-dalu rhwng tenantiaid a landlordiaid yn y sector preifat i atal troi allan. Roedd cyfweleion awdurdodau lleol a amlinellodd eu gwaith ataliol yn ei weld yn hanfodol bwysig, ac yn aml, nodwyd mai atal digartrefedd oedd y dull mwyaf effeithiol o roi diwedd ar ddigartrefedd o'i gymharu â chyfraddau dyrannu cynyddol sylweddol i aelwydydd digartref. Fodd bynnag, roedd rhai cyfweleion awdurdodau lleol yn pryderu bod landlordiaid sector preifat yn gadael y farchnad oherwydd cyfraddau morgais uwch a chanlyniadau anfwriadol canfyddedig Deddf Rhentu

²⁸ Cyngor Sir Gaerfyrddin, 'Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys. Ar gael yn: [Polisi Dyann Tai Cymdeithasol Brys](#).

²⁹ Mae llawer o awdurdodau lleol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn darparu'r gwasanaeth hwn. Er enghraifft, gweler manylion gwasanaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili: [Caerphilly - Caerphilly County Borough](#).

Cartrefi (Cymru). Gan y gall partneriaethau gyda'r sector rhentu preifat fod yn rhan allweddol o'r mecanweithiau atal digartrefedd a ddefnyddir gan awdurdodau lleol, gall hyn danseilio ymdrechion atal a chynyddu dibyniaeth ar systemau dyrannu tai cymdeithasol i atal a lliniaru digartrefedd.

- 3.16 Roedd y cyfweleion yn croesawu'n benodol gynnig y Papur Gwyn³⁰ i gynyddu'r cyfnod 'dyletswydd atal' o 56 diwrnod i 6 mis, er bod rhai awdurdodau lleol wedi nodi eu bod eisoes yn gweithio i atal achosion o droi allan i ddigartrefedd yn y cyfnod cynharach hwn. Nododd y cyfweleion bryderon y byddai toriadau i'r Grant Atal Digartrefedd yn tanseilio'r ymdrechion hyn.

Ymgeiswyr sengl

- 3.17 Dywedodd y cyfweleion fod nifer yr ymgeiswyr sengl ar gofrestrau tai wedi cynyddu'n aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf. Nododd y cyfweleion o awdurdodau lleol a LCCiaid fod pobl sengl â dewis rhesymol am lety yn aml yn cael profiadau o ddigartrefedd neu lety â chymorth. Yn rhannol oherwydd y trawma o brofi digartrefedd, dywedodd y cyfweleion fod ymgeiswyr sengl angen cymorth ychwanegol amlach, o'u cymharu ag aelwydydd eraill. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig ystyried dau beth – sef y rhwystrau sy'n wynebu pobl â phrofiad o ddigartrefedd a'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ag anghenion cymorth lluosog - wrth ystyried sut mae systemau dyrannu tai cymdeithasol yn diwallu anghenion ymgeiswyr sengl.
- 3.18 Roedd cyfweleion yn cytuno'n gryf mai'r prif reswm dros gyfraddau dyrannu is i bobl sengl yw diffyg difrifol o eiddo tai cymdeithasol gydag un ystafell wely. Rhybuddiodd LCCiaid hefyd yn erbyn dyrannu llawer o ymgeiswyr digartref sengl i un gymuned leol fach – er enghraifft, bloc o fflatiau un ystafell wely neu yn yr un stad o dai – gan fod hyn i'w weld yn cynyddu'r tebygolrwydd o broblemau rheoli tenantiaeth a chanlyniadau cymunedol lleol anghynaliadwy gydag effeithiau andwyol ar gymdogion, gan gynnwys tenantiaid tai cymdeithasol eraill.
- 3.19 Dadleuodd sawl cyfwelai fod y tâl tanfeddiannu³¹ yn atal dyrannu eiddo dwy ystafell wely i bobl sydd ond yn gymwys ar gyfer un ystafell wely, oherwydd byddai'r tenant posibl yn methu'r profion fforddiadwyedd. Dywedodd rhai cyfweleion awdurdod lleol eu bod yn lliniaru cost y tâl er mwyn caniatáu dyraniadau pobl sengl i eiddo dwy ystafell wely. Dywedodd grŵp arall o gyfweleion awdurdodau lleol eu bod yn

³⁰ Llywodraeth Cymru (2023), Papur Gwyn Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd. Ar gael yn: [Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#).

³¹ Gelwir hefyd yn 'dreth ystafell wely'. Gweler mwy o wybodaeth yn y Rhestr Termau.

ystyried lliniaru'r tâl am y tro cyntaf er mwyn dyrannu eu heiddo'n fwy hyblyg. Yn y cyfamser, nid oedd grŵp arall o gyfweleion awdurdodau lleol yn ystyried y dull hwn yn opsiwn addas, gyda rhai yn nodi bod hyn oherwydd bod eu polisïau dyrannu lleol yn gwahardd dyrannu eiddo dwy ystafell wely i bobl ag angen un ystafell wely.

- 3.20 Mewn rhai achosion, cynhelir gwiriadau fforddiadwyedd, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r tâl tanfeddiannu, ar gamau cymharol hwyr yn y broses ddyrannu. Nododd rhai cyfweleion o sefydliadau rhanddeiliaid effaith emosiynol hyn, gan y gall arwain at siom ar gamau hwyr yn y broses ddyrannu a chynigion ofer o dan gynlluniau gosod sy'n seiliedig ar ddewis.

Teuluoedd mawr

- 3.21 Dywedodd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a LCCiaid fod dyraniadau ar gyfer aelwydydd llai sydd angen eiddo dwy neu dair ystafell wely yn aml yn effeithiol. Yn yr achos hwn, gwelwyd bod polisïau dyrannu a dewisiadau rhesymol yn pennu'r amser y mae'r aelwydydd hyn yn ei dreulio ar restrau aros.
- 3.22 Fodd bynnag, roedd mwyafrif helaeth y cyfweleion awdurdodau lleol a LCCiaid yn bryderus ynghylch diffyg eiddo pedair ystafell wely a mwy yn eu hardal leol. Roedd hon yn thema arbennig o gryf mewn ardaloedd gyda stoc teras hŷn, yn enwedig yng nghymoedd de Cymru. Awgrymodd cyfweleion mai canlyniad diffyg eiddo pedair ystafell wely neu fwy yw bod teuluoedd mawr sy'n profi digartrefedd yn treulio cyfnodau hir mewn llety dros dro, a theuluoedd eraill yn wynebu gorlenwi difrifol.
- 3.23 Nodwyd bod cynyddu'r cyflenwad o eiddo pedair ystafell wely a mwy o faint yn hanfodol i leihau amseroedd aros am dai cymdeithasol ymhlith aelwydydd mwy.

Pobl mewn eiddo gorlawn

- 3.24 Dywedodd rhai cyfweleion a oedd yn cynrychioli LCCiaid – yn enwedig y rhai oedd yn gweithredu mewn rhannau trefol o dde Cymru – fod gorlenwi yn “fater cudd” ac yn “argyfwng” yng Nghymru mewn tai cymdeithasol a'r sector rhentu preifat. Nododd rhai LCCiaid fod gorlenwi'n cael ei anwybyddu'n aml gan nad yw'n arwain at gostau ariannol uniongyrchol i awdurdodau lleol (yn wahanol i ddigartrefedd, gyda chostau llety dros dro) ac efallai y byddai ei ganlyniadau'n cael eu hystyried yn llai brys. Fel llwybr ymlaen, awgrymodd nifer o LCCiaid y dylai awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru gefnogi ac ariannu datblygiad rhagor o eiddo pedair ystafell wely neu fwy i unioni'r “argyfwng gorlenwi”.

3.25 Nododd y cyfweleion fod y tâl tanfeddiannu ac agweddau ar rai polisiau dyrannu lleol yn sbarduno gorlenwi mewn tai cymdeithasol. Gwelwyd bod y ffactorau hyn yn atal teuluoedd rhag cael eiddo sydd ychydig yn fwy na'r hyn sydd ei angen arnynt yn y tymor byr, hyd yn oed os mai hwn yw'r dyraniad mwyaf addas dros y tymor canolig a'r tymor hwy. Gall tai cymdeithasol fod yn orlawn gan fod angen mwy o ystafelloedd gwely ar aelwydydd oherwydd plant newydd neu blant sy'n tyfu. Mae hyn yn cynyddu'r straen ar y system ddyrannu drwy annog teuluoedd i ailymgeisio am ddyraniadau tai cymdeithasol drwy gofrestrau tai neu drwy ofyn am drosglwyddiadau rheolaeth fewnol i eiddo mwy. Gall polisiau dyrannu mwy hyblyg – a chyllid i liniaru'r tâl tanfeddiannu – ganiatáu dyraniadau mwy cynaliadwy, sy'n golygu y gall plant aros mewn un cartref a lleihau ail-geisiadau diangen am dai cymdeithasol.

3.26 Roedd elusennau sy'n gweithio i atal digartrefedd a mynd i'r afael â'r broblem hefyd yn nodi pryderon ynghylch y modd y mae anghenion pobl mewn tai gorlawn yn cael eu diwallu. Dadleuodd un elusen – gan gyfeirio at dystiolaeth o Gyfrifiad 2021³² - bod gorlenwi yn cael effaith anghymesur ar gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Nodwyd bod gorlenwi hefyd yn her mewn dinasoedd ledled Cymru, yn enwedig i deuluoedd mawr sy'n cyrraedd Cymru o dan wahanol gynlluniau adsefydlu dyngarol. Dadleuodd cynrychiolydd yr elusen fod trosi lloffydd - a ariennir yn aml trwy Raglen Ariannu Cyfalaf Llety Trosiannol (TACP) Llywodraeth Cymru - yn enghraifft o arfer gorau wrth liniaru gorlenwi ac atal digartrefedd.

Pobl anabl

3.27 Disgrifiodd cyfweleion o bron bob awdurdod lleol amseroedd aros hir i bobl anabl sydd angen eiddo wedi'i addasu. Nodwyd mai achos sylfaenol yr oedi oedd yr her o addasu eiddo presennol i ddiwallu anghenion tenantiaid anabl. LCCiaid sy'n gweithredu yn ne Cymru a nododd y broblem hon gan amlaf, gan gofio eu bod yn gweithredu mewn ardaloedd â stoc tai teras hŷn.

3.28 Dywedodd y cyfweleion mai ateb posibl yw datblygiad cyflym o dai newydd sydd wedi'u dylunio a'u lleoli i fod yn fwy hygyrch. Fodd bynnag, nododd LCCiaid y gall

³² Ar draws Cymru, yn ôl Cyfrifiad 2021, gwelwyd bod 21.1% o bobl o fewn y grŵp ethnig lefel uchel "Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Affricanaidd neu Garibiaidd" yn profi gorlenwi. Mae 24.6% o bobl yn y grŵp ethnig "Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig" yn profi gorlenwi. Mae 15% o bobl o fewn y grŵp ethnig "Asiaidd, Asiaidd Cymreig, neu Asiaidd Prydeinig" a 4% o bobl o fewn y grŵp ethnig "Gwyn" yng Nghymru yn profi gorlenwi. Ceir rhagor o wybodaeth yn: [Gwahaniaethau grŵp ethnig mewn ieuchyd, tai, addysg a statws economaidd yng Nghymru \(Cyfrifiad 2021\) \[HTML\] | LLYW.CYMRU.](#)

cyfyngiadau cynllunio ac argaeledd tir cyfyngedig atal ac arafu'r datblygiadau hyn. Yn ogystal, cododd LCCiaid yr anhawster o ailddyrranu eiddo a addaswyd unwaith y daw contract i ben, gan y gall fod yn heriol gwneud y defnydd gorau o eiddo ag addasiadau penodol. Dywedwyd y byddai'r eiddo naill ai'n aros yn wag neu byddai'r LCCiaid yn gorfod cael gwared ar addasiadau a osodwyd yn flaenorol, ar gost ychwanegol.

- 3.29 Yn ogystal â chydabod y diffyg stoc ac amseroedd aros hir i ymgeiswyr anabl, dywedodd sefydliadau rhanddeiliaid ei bod yn aml yn ofynnol i bobl anabl ddisgrifio eu hanghenion dro ar ôl tro wrth swyddogion drwy gydol y broses ddyrranu. Ystyriwyd bod hyn yn gwrth-ddweud arfer gorau o ran dull sy'n ystyriol o drawma. Mae rhai partneriaethau'n ariannu Therapyddion Galwedigaethol (OTs) penodedig o fewn timau tai awdurdodau lleol i gynnal asesiadau sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i sicrhau bod anghenion pobl anabl yn cael eu diwallu, a bod eiddo wedi'i addasu yn cael ei ddyrranu yn y modd mwyaf effeithiol. Dywedodd awdurdodau lleol eraill eu bod yn defnyddio cofrestrau pwrpasol o eiddo a addaswyd i sicrhau y gellid defnyddio mwy o ddata ar addasiadau a hygyrchedd wrth benderfynu ar ddyraniadau. Gwelwyd bod y ddwy enghraifft yn lleihau'r angen i bobl anabl egluro eu hanghenion dro ar ôl tro wrth swyddogion, a thrafodir y ddwy enghraifft ymhellach yn adran 5.29.

Pobl ag anghenion cymorth lluosog

- 3.30 Disgrifiodd cyfweleion awdurdodau lleol a LCCiaid gynnydd yn nifer y bobl ag anghenion cymorth lluosog a gofrestrodd ar gyfer tai cymdeithasol dros y blynyddoedd diwethaf. Esboniodd y cyfweleion fod llawer o bobl ag anghenion cymorth lluosog wedi profi digartrefedd, eu bod angen tai wedi'u haddasu, ac yn aml roeddent yn ymgeiswyr sengl. Yn rhannol oherwydd diffyg eiddo addas, awgrymodd y cyfweleion fod pobl ag anghenion cymorth lluosog yn tueddu i fod ymhlith yr ymgeiswyr sydd eisoes wedi bod hiraf ar restrau aros am dai cymdeithasol. Rhybuddiodd sefydliadau rhanddeiliaid ynghylch y difrod emosiynol a ddaw yn sgil amseroedd aros hir, a all waethygu'r anghenion cymorth. Yn ôl rhai LCCiaid, gall rhestrau aros hir hefyd roi pwysau ar bobl i dderbyn dyraniadau sydd ymhell oddi wrth eu rhwydweithiau cymorth, a all yn ei dro waethygu'r galw am wasanaethau cymorth ar ôl gwneud y dyraniad.
- 3.31 Er eu bod yn cydnabod bod rhai pobl ag anghenion cymorth yn elwa ar ddyraniadau yn agos at eu rhwydweithiau cymorth, dadleuodd rhai sefydliadau rhanddeiliaid y gall rheolau cysylltiad lleol hefyd atal pobl ag anghenion cymorth lluosog rhag

symud i eiddo cymdeithasol mewn cymuned newydd, lle y gallent gael dechrau o'r newydd. Mewn rhai achosion, dadleuodd y cyfweleion mai'r cyfle am ddechreuad newydd gyda gwasanaethau cymorth digonol yn eu lle yw'r opsiwn gorau i sicrhau canlyniadau tenantiaeth cynaliadwy.

- 3.32 Amlinellodd llawer o gyfweleion LCCiaid ddiffyg gwasanaethau cymorth a gomisiynir gan awdurdodau lleol wrth gartrefu pobl ag anghenion cymorth lluosog. Yn aml, dim ond am ddyddiau ac wythnosau cyntaf y denantiaeth y mae cymorth o'r fath ar gael, os caiff ei gynnig o gwbl. Ar ôl hyn, yng ngeiriau elusen ddigartrefedd, "mae'n rhaid iddi gyrraedd pwynt argyfwng llwyr – ar fin cael eu troi allan – cyn y gall pobl gael cyfle i gael mynediad at wasanaethau cymorth iechyd meddwl."
- 3.33 Disgrifiodd rhai cyfweleion a oedd yn cynrychioli LCCiaid fod rolau swyddogion tai o fewn cymdeithasau tai wedi dod yn "waith cymdeithasol answyddogol". Ystyrid bod hyn yn tansilio morâl ac yn creu problemau cadw'r gweithlu. Teimlwyd ei fod yn arbennig o heriol i bobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty neu'r carchar. Yng ngeiriau un awdurdod lleol, "rydym yn disgwyl i LCCiaid allu rheoli achosion y mae iechyd yn dweud nad oes ganddynt unrhyw ddarpariaeth ar eu cyfer, ac eto rydym yn eu rhoi yn ein cymuned ac yn disgwyl i bobl heb unrhyw brofiad [gymryd cyfrifoldeb amdanynt] - weithiau ceir gwasanaethau cymorth arbenigol, ond, mae'r disgwyliadau ar LCCiaid yn enfawr, ac rwy'n meddwl bod angen i ni gydnabod hynny."
- 3.34 Yn amodol ar amgylchiadau personol, efallai na fydd ymgeiswyr ag anghenion cymorth lluosog yn gallu byw mewn ardaloedd penodol neu fathau penodol o eiddo oherwydd polisïau gosod eiddo lleol. Nododd y cyfweleion achosion eithafol lle na ellir dyrannu tai cymdeithasol i'r rhai sy'n gadael carchar gyda threfniadau MAPPA³³ o fewn yr awdurdod lleol, ond hefyd nad oes ganddynt y gofynion cysylltiad lleol i gael tai yn rhywle arall. Gall hyn arwain at gyfnodau hir o aros mewn llety dros dro. Grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig
- 3.35 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig nad ydynt wedi'u trafod yn fanwl o'r blaen. Mae'n hanfodol ystyried y gallai fod gan ymgeiswyr am dai cymdeithasol nodweddion gwarchodedig lluosog sy'n croestorri a'u bod yn wynebu heriau unigryw. Mae'r adran hon yn cyflwyno barn y cyfweleion ar y profiad o ddyraniadau ymhlith pobl hŷn, pobl ifanc, cymunedau LHDTTC+,

³³ Trefniadau diogelu'r cyhoedd aml-asiantaeth. Mwy o wybodaeth ar gael yn: [Multi-agency public protection arrangements \(MAPPA\): Guidance - GOV.UK](#).

goroeswyr VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol), a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Byddwn hefyd yn ystyried siaradwyr Cymraeg yn yr adran hon.

3.36 Dywedodd llawer o gynrychiolwyr awdurdodau lleol fod ganddynt gyfran gymharol uchel o dai cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn yn unig. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r llety hwn yn anaddas i bobl hŷn anabl oherwydd heriau hygrychedd (e.e., byngalos wedi'u hadeiladu mewn ardaloedd bryniog neu gyda grisiau mynediad). Nododd cyfweleion awdurdodau lleol hefyd fod fflatiau un ystafell yn llai poblogaidd ymhlith ymgeiswyr a dywedwyd eu bod yn aml yn cael eu newid am fathau eraill o lety ymddeoliad. Her arall a nodwyd gan LCCiaid yw bod nifer cynyddol o bobl sy'n cael llety a adeiladwyd i bobl sydd wedi ymddeol yn bobl hŷn sy'n dal mewn gwaith neu'n derbyn Credyd Cynhwysol. O'r blaen, fel yr eglurodd LCCiaid, byddai mwyafrif y tenantiaid yn y tai hyn yn derbyn pensiynau sefydlog ac fe ellid dibynnu arnynt i dalu'r rhent. Fodd bynnag, mynegodd LCCiaid bryderon efallai na fydd tenantiaid hŷn presennol, sydd mewn gwaith neu'n derbyn Credyd Cynhwysol, yn gallu fforddio costau rhentu llety gwarchod mwyach pe baent yn wynebu sancsiynau budd-daliadau, neu ddiweithdra. Yn ogystal, nododd rhai LCCiaid her hirdymor poblogaeth sy'n heneiddio, a fyddai'n cynyddu'r galw am lety i bobl hŷn yn y dyfodol.

3.37 Gwelwyd bod pobl ifanc yn wynebu heriau mawr o ran cael mynediad at dai cymdeithasol. Nododd un o sefydliadau rhanddeiliaid a gyfwelwyd fod y Lwfans Tai Lleol (LTLI) wedi'i gapio ar y 'gyfradd llety a rennir' is i'r rhai dan 35 oed³⁴ – a bod hyn yn cael effaith fawr ar y tai cymdeithasol sy'n fforddiadwy i bobl ifanc, yn enwedig y rhai nad oes ganddynt fynediad at gymorth teuluol, megis rhai sy'n gadael gofal neu bobl ifanc LHDTTC+ sydd wedi ymddieithrio. Gall y gwahaniaeth rhwng y gyfradd llety a rennir a'r gyfradd un ystafell wely amrywio'n fawr rhwng ardaloedd. Er enghraifft, yn ne-ddwyrain Cymru, mae'r gwahaniaeth hwn yn cyfateb i £65.34 yr wythnos yng Nghaerdydd, £46.00 yr wythnos yn Nhorfaen, a £2.90 yr wythnos yng Nghaerffili, ar y cyfraddau LTLI rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.³⁵ Awgryma hyn bod y cap dan-35 yn cael effaith amrywiol mewn gwahanol ardaloedd. Yn fwy cyffredinol, nododd un elusen ddigartrefedd – gan gyfeirio at

³⁴ Mae rhagor o wybodaeth am y 'gyfradd llety a rennir' ar gael yma: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Budd-dal Tai: Cyfradd Llety a Rennir (2022). Ar gael yn: [Housing Benefit: Shared Accommodation Rate - House of Commons Library](#).

³⁵ Canllawiau ar Gyfraddau Lwfans Tai Lleol. Am fanylion, gweler [Cyfraddau'r Lwfans Tai Lleol | LLYW.CYMRU](#).

ymchwil gan Crisis³⁶ - mai'r oedran cyfartalog y mae person sengl yn profi digartrefedd gyntaf yw 22 oed. O ganlyniad, pwysleisiodd y cyfwelai bod cyfle i dorri cylch a thrawma digartrefedd trwy flaenoriaethu ymyrraeth gynnar a dyrannu pobl iau i denantiaethau tai cymdeithasol cynaliadwy.

- 3.38 Yn ôl rhai sefydliadau rhanddeiliaid, gall pobl LHDTTC+ deimlo eu bod yn cael eu gorfodi i ddod allan fel LHDTTC+ dro ar ôl tro drwy gydol y broses ddyrannu er mwyn cael cynnig addas. Er enghraifft, dywedodd cyfwelai o sefydliad rhanddeiliaid fod elfennau o'r system ddyrannu â "diffyg dealltwriaeth o'r achosion penodol pam y gallai pobl ifanc sy'n LHDTTC+ fod yn dod i gysylltiad â'r system [tai cymdeithasol] – sy'n golygu eu bod o bosibl yn cael eu gorfodi i ddweud wrth swyddogion tai a gweithwyr cymorth eu bod allan er mwyn cael mynediad at wasanaethau" neu wynebu "pobl yn gofyn cwestiynau mewn ffyrdd amhriodol, heb ormod o bwrpas." Yn ogystal, awgrymodd y cyfweleion y gall dyraniadau a llety dros dro mewn eiddo gyda chyfleusterau a rennir fod yn amhriodol i rai pobl LHDTTC+ – yn enwedig pobl drawsryweddol sydd yn y broses o drawsnewid. Nododd y cyfweleion fod llety â chymorth ar gyfer pobl LHDTTC+, megis Tŷ Pride yn Sir Ddinbych, yn gynllun arloesol a llwyddiannus y dylid ei ehangu. Yn ogystal, nododd cyfweleion o sefydliadau rhanddeiliaid ofynion cysylltiad lleol mewn polisïau dyrannu fel rhwystr i bobl LHDTTC+ sy'n dymuno symud i ffwrdd o ardaloedd sy'n sbarduno trawma. Roedd cyfweleion o'r sefydliadau hyn yn croesawu'r gydnabyddiaeth i deuluoedd a ganfuwyd yn y Papur Gwyn Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd³⁷ fel cam cadarnhaol.
- 3.39 Mae goroeswyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn aml yn cael blaenoriaeth gref mewn systemau dyrannu. Fodd bynnag, maent hefyd yn wynebu rhwystrau. Dywedodd cyfweleion o sefydliadau rhanddeiliaid fod gofynion cysylltiad lleol yn cael eu gweld fel rhwystr gan rai goroeswyr. Yn ôl y gyfraith, ni ddylai rheolau cysylltiad lleol ganiatáu i ymgeiswyr gael eu hatgyfeirio yn ôl i ardal lle byddan nhw, neu aelod o'u haelwyd, mewn perygl o gael eu cam-drin. Fodd bynnag, mae gweithredu hyn yn effeithiol yn dibynnu ar bartneriaethau cryf rhwng ardaloedd awdurdodau lleol. Awgrymodd cyfweleion hefyd nad yw goroeswyr yn aml yn deall y prosesau dyrannu tai cymdeithasol a'u bod yn gweld y broses yn gymhleth ac yn llethol. Oherwydd hyn, weithiau defnyddir trosglwyddiadau rheolaeth brys ac enwebiadau uniongyrchol i

³⁶ Crisis, 'Nations apart? Experiences of single people across Great Britain' (2014). Ar gael yn: [Experiences of single people across Great Britain | Crisis UK](#).

³⁷ Llywodraeth Cymru (2021), 'Rhoi diwedd ar ddigartrefedd: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026. Ar gael yn: [Rhoi diwedd ar ddigartrefedd: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026 | LLYW.CYMRU](#).

ddyranu goroeswyr yn gyflym. Nodwyd hefyd y gall trawma gyfyngu ar yr ardaloedd lle mae pobl yn fodlon derbyn dyraniad o dai cymdeithasol. Felly mae dull sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn hollbwysig wrth ddyranu tai i oroeswyr VAWDASV.

3.40 Fel y trafodwyd yn adran 3.26, nododd y cyfweleion fod pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fwy tebygol o fyw mewn tai gorlawn. Yn ogystal â hyn, bu'r cyfweleion yn trafod pwysigrwydd sicrhau bod cyfleusterau coginio ac ymolchi sy'n ddiwylliannol briodol ar gael i denantiaid tai cymdeithasol. Nododd cyfwelwraig o'r sector tai ehangach adroddiad Tai Pawb (2024)³⁸, sy'n awgrymu y gall rhwystrau cyfathrebu ac iaith, gan gynnwys cyfieithiadau anghywir, danseilio mynediad at dai cymdeithasol a gwasanaethau digartrefedd i gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru.

3.41 Awgrymodd cyfweleion o sefydliadau rhanddeiliaid ei bod yn ymddangos fod gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg wedi gwella yn y blynyddoedd diwethaf. Eglurodd cyfweleion fod mwy o siaradwyr Cymraeg bellach yn gallu cael mynediad at wasanaethau tai cymdeithasol a digartrefedd yn eu dewis iaith. Dywedodd llawer o LCCiaid fod eu gwefannau a'u hysbysebion eiddo bob amser yn ddwyieithog a bod rhai LCCiaid mewn cymunedau Cymraeg yn gweithredu yn Gymraeg yn bennaf. Er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth i siaradwyr Cymraeg, awgrymodd rhai sefydliadau rhanddeiliaid a LCCiaid y dylai ymgeiswyr am dai cymdeithasol allu mynegi eu dewis o gael eiddo mewn cymuned Gymraeg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos i deuluoedd â phlant.

Diffyg cyfatebiaeth rhwng stoc ac angen

3.42 Honnodd cyfweleion o awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid fod diffyg stoc tai cymdeithasol yng Nghymru, gan nodi prinder difrifol o rai mathau o stoc dai. Disgrifiwyd y prinder hwn fel un oedd yn amrywio ar draws maint tai, posibiliadau ar gyfer addasiadau, a lleoliad. Roedd rhai cyfweleion yn dadlau mai argaeledd stoc, nid dewisiadau rhesymol na pholisïau dyrannu lleol, oedd y prif yrrwr sy'n pennu pryd ac a yw eiddo'n cael ei ddyranu i bobl oddi ar restrau aros tai cymdeithasol. Esboniodd un cyfwelwraig awdurdod lleol fod "llawer o ffocws yn mynd ar fandio a sut mae hierarchaeth y bandio yn edrych, ond yr hyn sy'n gyrru'r dewis o lety yw pa mor hir y mae'n ei gymryd i ailgartrefu rhywun, ac mae hynny'n

³⁸ Tai Pawb, 2024. Profiad pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig o dai yng Nghymru. Gweler: [Report: the housing experiences in Wales of people from ethnic minority communities - Tai Pawb](#)

cael ei yrru gan argaeledd eiddo.” Hefyd, dywedodd swyddog tai lleol a gyfwelwyd: “Mae’r holl waith a wnaethom i ddechrau o ran nodi categorïau dewisiadau rhesymol o lety a’n hangen lleol wedi mynd allan o’r ffenestr. Roeddem yn cymryd yn ganiataol pe byddem yn eu rhoi i mewn yno, y byddai pobl yn symud drwy’r system. [...] Dyna oedd yr holl ethos o gael y band uchaf, gan wybod y byddent yn mynd trwy’r system yn weddol gyflym. Ond nid yw hynny’n digwydd mwyach.” Cytunodd cyfwelai awdurdod lleol arall, ond dywedodd hefyd fod y diffyg stoc yn golygu mai dim ond ar yr ymylon y gall newidiadau i bolisiau dyrannu wneud gwahaniaeth: “Yn amlwg, y brif broblem yw nad oes digon o dai. Gallwch wneud yr hyn yr ydych eisiau gyda’r cynllun dyrannu, ond nid oes digon o dai ar gael i bawb.”

- 3.43 Bydd yr adran ‘Diffyg cyfatebiaeth rhwng stoc ac angen’ hon yn ffocysu ar safbwyntiau awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid o’r sector tai ehangach ar argaeledd stoc tai cymdeithasol o’i gymharu ag angen. Yn gyntaf, trafodir darpariaeth stoc tai cymdeithasol yn ôl maint, math o lety, a lleoliad. O ganlyniad, crynhoir yr ymdrechion i asesu’r angen am dai cymdeithasol, gan gynnwys trwy ddefnyddio data.


Maint y llety

- 3.44 Roedd pawb a gyfwelwyd yn cydnabod bod y diffyg cyfatebiaeth rhwng y stoc tai cymdeithasol a’r angen yn amrywio yn ôl maint y llety – neu nifer yr ystafelloedd gwely. Fodd bynnag, y prinder mwyaf amlwg a nodwyd gan gyfweleion oedd eiddo un ystafell wely. Caiff hyn ei ddilysu ymhellach yn y data a ddarparwyd gan awdurdodau lleol, lle mai eiddo un ystafell wely yw’r eiddo gyda’r galw mwyaf amdano ar gofrestrau tai, waeth beth fo’u lleoliad daearyddol. Dangosir y berthynas hon yn Ffigur 5, lle mae eiddo un ystafell wely yn cyfrif am dros 50% o nifer yr ystafelloedd gwely gyda galw amdanynt ar y gofrestr dai, gyda’r uchaf yn 59% o’r gofrestr tai mewn awdurdodau lleol gwledig.
- 3.45 Nododd 21 o’r 22 awdurdod lleol a mwyafrif o’r LCCiaid a gyfwelwyd fod y diffyg difrifol o eiddo un ystafell wely yn her fawr. Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol gwledig a lled-drefol y prinder difrifol o eiddo un ystafell wely yn yr iaith gryfaf bosibl. Nododd un awdurdod lleol yng nghymoedd de Cymru bod diffyg llety un ystafell wely yn “argyfwng”. Yn nodedig, disgrifiodd sawl awdurdod lleol gwledig gyflenwad cymharol fawr o eiddo un ystafell wely na ellir ond eu gosod i bobl hŷn (a ddiffinnir fel arfer yn bobl dros 55 oed) o dan bolisiau lleol presennol. Mewn rhai achosion, adroddodd awdurdodau lleol heriau wrth geisio llenwi hyd yn oed y rhain. Disgrifiodd rhai awdurdodau lleol felly ymdrechion lleol i ailddynodi rhai tai sydd

wedi'u cyfyngu i denantiaid hŷn, er mwyn sicrhau eu bod ar gael i ymgeiswyr anghenion cyffredinol – yn amodol ar benderfyniadau cynllunio lleol a phenderfyniadau gwleidyddol.

Ffigur 5. Nifer yr ystafelloedd gwely y mae galw amdanynt ar y gofrestr dai yn ôl dosbarthiad awdurdod lleol³⁹

Data cofrestrau tai ar draws 15 awdurdod lleol yn ôl dosbarthiad gwledig-trefol (3 Arall, 6 Gwledig, 3 Trefol a 3 Cymoedd).



Ffynhonnell: Dadansoddiad gan Alma Economics o ddata tai cymdeithasol sylfaenol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol Cymru.

3.46 Amlygodd cyfweleion awdurdodau lleol a LCCiaid rwystrau i gynyddu'r cyflenwad o eiddo un ystafell wely. Roedd y rhain yn cynnwys diffyg tir ar gyfer datblygiadau newydd mewn ardaloedd trefol, anhawster i gael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr o eiddo un ystafell wely, a chost ariannol uwch i LCCiaid ddatblygu eiddo un ystafell wely o'i gymharu ag eiddo dwy neu dair ystafell wely. Yn ogystal, mynegodd rhai LCCiaid ac awdurdodau lleol ffocws ar sicrhau bod datblygiadau clystyrog o eiddo un ystafell wely - boed mewn fflatiau neu ystadau - yn cael eu gosod i amrywiaeth o denantiaid. Eglurodd LCCiaid eu bod yn meddwl ei bod yn hollbwysig hyrwyddo tenantiaethau cynaliadwy a chymunedau lle mae pobl ag anghenion cymorth gwahanol yn byw fel cymdogion. Ar adegau, roedd hyn yn

³⁹ StatsCymru (2008), 'Cymru wledig – diffiniadau a sut i ddewis rhyngddynt'. Ar gael yn: [Cymru wledig: diffiniadau a sut i ddewis rhwyg hwy | LLYW.CYMRU](http://www.llyw.cymru)

ysgogi'r defnydd o "bolisiau gosod eiddo lleol" i gyflawni'r nod hwn. Roedd LCCiaid o'r farn bod hyn yn atal crynodiad o anghenion cymorth mewn un ardal, a allai greu problemau rheoli tenantiaeth. Trafodir heriau mwy cyffredinol gyda datblygu yn adran 3.57.

- 3.47 Cyflwynodd y cyfweleion ddarlun cymysg o eiddo dwy ystafell wely a thair ystafell wely. Mewn rhai achosion, disgrifiwyd "digonedd" o eiddo dwy ystafell wely a thair ystafell wely. Fodd bynnag, dywedodd rhai awdurdodau lleol sy'n cynrychioli dinasoedd mai nhw sy'n wynebu'r galw mwyaf a'r rhestrau aros hiraf am eiddo dwy ystafell wely, gyda galw arbennig o uchel am eiddo dwy ystafell wely. Roedd cyflenwad cymharol fawr o eiddo dwy a thair ystafell wely o'i gymharu â'r galw i'w weld amlaf mewn awdurdodau lleol gwledig ac yng nghymoedd de Cymru. Dywedodd LCCiaid oedd â stoc hŷn fod eu portffolios yn cynnwys llawer o fflatiau dwy ystafell wely a thair ystafell wely a allai fod yn fwy anodd eu gosod oherwydd diffyg galw o'i gymharu â'r cyflenwad.
- 3.48 Nododd rhai LCCiaid gyda llawer o eiddo dwy ystafell wely bod y tâl tanfeddiannu yn cael effaith fawr ar eu heiddo dwy ystafell wely, gan nodi bod llawer o'r tai hyn wedi'u datblygu pan ellid dyrannu eiddo dwy ystafell wely i gyplau a phobl sengl os oedd angen. Dadleuodd y cyfweleion fod y tâl tanfeddiannu wedi cyfrannu at greu gostyngiad artiffisial yn y galw am eiddo dwy ystafell wely a chynnydd cyfatebol yn y galw am eiddo un ystafell wely. Dywedodd rhai cyfweleion fod y tâl tanfeddiannu wedi arwain at ddyrannu eiddo i deuluoedd oedd yn tyfu, sy'n golygu y bydd yr eiddo yn mynd yn rhy fach yn fuan o ystyried anghenion teuluoedd. Yn lle hynny, anogwyd dyrannu ystafelloedd gwely ychwanegol i rai teuluoedd sy'n chwilio am eiddo mwy er mwyn osgoi gorlenwi. Yn gryno, dywedodd rhai cyfweleion y dylid ystyried y tâl tanfeddiannu yn ffactor pwysig wrth egluro'r galw uwch am eiddo un ystafell wely o'i gymharu ag eiddo dwy ystafell wely mewn sawl rhan o Gymru.
- 3.49 Pwysleisiodd y cyfweleion hefyd brinder eiddo gyda phedair ystafell wely neu fwy ledled Cymru. Disgrifiwyd yr her hon fel un arbennig o ddifrifol ymhlith LCCiaid ac awdurdodau lleol â stoc hŷn, yn enwedig y rhai yng nghymoedd de Cymru sydd â thir cyfyngedig ar gael i ddatblygu eiddo mwy. Mae'r galw am eiddo pedair ystafell wely hefyd yn ymddangos yn gyfrannol uwch mewn awdurdodau lleol trefol, fel y dangosir yn Ffigur 5. Nodwyd diffyg eiddo mwy fel sbardun allweddol i'r heriau sy'n wynebu teuluoedd mawr a'r rhai sy'n dioddef o orlenwi mewn tai cymdeithasol a llety dros dro, a drafodir yn adrannau 3.21-26. Dywedwyd bod datblygiad eiddo mwy ar y gweill mewn sawl awdurdod lleol. Fodd bynnag, nododd y cyfweleion

ddau rwystr allweddol. Y cyntaf oedd diffyg tir addas ar gael i ddatblygu a phroblem cael caniatâd cynllunio. Yr ail her oedd bod eiddo mawr yn aneconomaidd i LCCiaid oherwydd cyfraddau Lwfans Tai Lleol isel a'r potensial am unedau gwag am amser hir rhwng tenantiaethau mewn eiddo arbennig o fawr (fel y rhai gyda 6 neu fwy o ystafelloedd gwely). Trafodir heriau ehangach gyda datblygiadau eiddo yn adran 3.57.

Math o eiddo

- 3.50 Nododd y cyfweleion hefyd lefelau gwahanol o alw yn ôl y math o eiddo. Mae'r adran hon yn trafod y galw am dai, fflatiau a byngalos cyn troi at y cyflenwad cyfyngedig o eiddo wedi'i addasu a'r gorgyflenwad cymharol o lety sydd wedi'i gyfyngu i bobl hŷn.
- 3.51 Roedd cyfweleion o awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid yn cytuno bod y galw am dai yn fwy na'r galw am fflatiau. Adroddwyd bod galw arbennig o gryf am dai gyda mynediad i ardd, a oedd yn aml wedi'i neilltuo i deuluoedd â phlant. Ymhlith fflatiau, dywedodd llawer o'r cyfweleion mai fflatiau llawr gwaelod a fflatiau hygyrch sydd â'r galw mwyaf amdanynt, a fflatiau islawr sydd â'r galw lleiaf amdanynt. Gwelwyd bod y galw am fyngalos yn amrywio fesul ardal. Sylwodd rhai awdurdodau lleol fod pobl sydd â diddordeb mewn symud o fflatiau neu dai mawr yn aml yn dweud eu bod yn ffafrio'n gryf cael byngalo. Mewn rhai achosion, mae'r potensial hwn i symud i gartref llai er mwyn rhyddhau eiddo mwy yn annog awdurdodau lleol i ddatblygu byngalos newydd. Mewn ardaloedd eraill, fodd bynnag, nid yw byngalos bellach yn cael eu hystyried yn flaenoriaeth datblygu oherwydd diffyg tir, a phryderon bod byngalos yn ddefnydd llai effeithiol o dir o'i gymharu ag opsiynau tai dwysedd uwch megis fflatiau a thai.
- 3.52 Fel y trafodwyd yn adrannau 3.27-29, mae prinder eiddo wedi'i addasu i bobl anabl ar draws y rhan fwyaf o Gymru. Yn ogystal, nodwyd bod y timau awdurdod lleol sy'n addasu eiddo yn fach, heb ddigon o adnoddau na staff. Dywedodd cyfweleion hefyd fod diffyg data o ansawdd uchel yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ar yr addasiadau presennol i eiddo, a pha mor ymarferol yw hi i addasu eiddo.
- 3.53 Yn olaf, mynegodd y cyfweleion safbwyntiau gwahanol ar y cyflenwad o lety â chymorth. Dywedodd awdurdodau lleol yn gyffredinol fod ganddynt brinder llety â chymorth gyda rhai awdurdodau lleol yn nodi bod ganddynt brinder difrifol. Disgrifiodd rhai awdurdodau lleol a LCCiaid brosiectau datblygu parhaus i ateb y galw am lety â chymorth. Yn ogystal, disgrifiodd rhai cyfweleion yr ansefydlogrwydd

yng nghyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer llety â chymorth – sy'n aml yn cael ei "gyhoeddi ar y funud olaf" – fel ffactor allweddol o ran cyfyngu ar eu gallu i wneud buddsoddiadau ariannol hirdymor a diwrthdro, megis cyflogi mwy o staff neu gynyddu cyflog.

Lleoliad

3.54 Nododd y cyfweleion fod y galw am eiddo hefyd yn amrywio yn ôl lleoliad.

Dywedodd llawer o awdurdodau lleol a chyfweleion LCCiaid fod llai o alw am eiddo mewn ardaloedd gwledig nag eiddo mewn ardaloedd trefol. Y ffactor esboniadol a nodwyd gan gyfweleion oedd bod eiddo gwledig yn tueddu i fod yn bellach oddi wrth wasanaethau cymdeithasol, rhwydweithiau cymorth, cyfleusterau siopa, lleoliadau addysgol, a chyfleoedd cyflogaeth. Gwaethygir hyn pan fo eiddo gwledig wedi'i gysylltu'n wael â llwybrau trafniadaeth gyhoeddus. Yn ogystal, dywedodd y cyfweleion y gall gofynion cysylltiad lleol orfodi gostyngiad yn y galw am eiddo gwledig. Gwelwyd bod hyn yn arbennig o berthnasol mewn awdurdodau lleol â pholisiau sy'n gofyn am gysylltiad hirsefydlog â chymuned, weithiau mor gul â ward, yn hytrach nag ardal yr awdurdod lleol llawn.

3.55 Dywedodd y cyfweleion fod y cyfuniad o fynediad cyfyngedig i wasanaethau a gofynion cysylltiad lleol yn golygu bod eiddo gwledig yn fwy tebygol nag eiddo trefol o gael ei ddyrannu i unigolion mewn bandiau is neu lefel is o flaenoriaeth ar y cofrestrau. Mae tai gwledig hefyd yn fwy tebygol o gael eu gadael yn wag am gyfnodau hir o amser. Dywedodd rhai LCCiaid fod eiddo gwledig gyda galw cyfyngedig yn cael eu defnyddio weithiau fel llety dros dro.

3.56 Nodwyd her ychwanegol mewn awdurdodau lleol gyda galw daearyddol anwastad. Er enghraifft, ar draws gogledd Cymru, nodwyd droeon bod mwy o alw am dai cymdeithasol mewn ardaloedd trefol ar hyd arfordir y gogledd nag am dai gwledig yn hanner deheuol y siroedd. Dywedodd llawer o awdurdodau lleol fod mwy o alw am eiddo mewn rhai trefi neu ardaloedd. Nododd cyfweleion awdurdodau lleol fod mynediad at wasanaethau – yn enwedig trafniadaeth gyhoeddus a chyfleoedd gwaith – a chanfyddiadau o ddymunoldeb yr ardal yn ffactorau allweddol wrth bennu eu galw cymharol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, dywedodd awdurdodau lleol a LCCiaid sy'n gweithredu mewn ardaloedd trefol neu led-drefol nad oes ganddynt bron unrhyw eiddo "anodd ei osod" ers y cynnydd dramatig yn y galw yn dilyn y pandemig COVID-19.

Cynyddu stoc

3.57 Mae ymchwiliad parhaus gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wedi cyhoeddi tystiolaeth ar yr heriau a wynebir wrth ddatblygu eiddo tai cymdeithasol newydd ledled Cymru.⁴⁰ Yn ogystal, bu cyfweleion o awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid yn trafod eu canfyddiadau o'r heriau difrifol sy'n atal lefelau digonol o dai cymdeithasol newydd. Mae canfyddiadau allweddol y rhanddeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer yr ymchwil hwn wedi'u crynhoi isod:

- Argaeledd tir. Nodwyd argaeledd tir cyfyngedig mewn ardaloedd trefol a lled-drefol fel her. Dywedwyd fod y potensial i ryddhau tir a ddelir gan gyrff sector cyhoeddus yn ffordd o gynyddu defnydd tir ar gyfer tai cymdeithasol mewn rhai ardaloedd.
- Caniatâd cynllunio. Nodwyd anawsterau o ran cael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau, yn enwedig i ddatblygiadau mawr newydd a datblygiadau o eiddo un ystafell wely i bobl ddigartref.
- Risg o unedau gwag. Er bod yr her hon wedi lleihau'n sylweddol oherwydd y galw uchel am dai cymdeithasol, mae'r risg o unedau gwag yn parhau yn achos eiddo ag addasiadau penodol, neu eiddo mawr iawn gyda llawer o ystafelloedd gwely, mewn ardaloedd lleol penodol. I liniaru'r pryder hwn, awgrymodd rhai LCCiaid ac awdurdodau lleol ddylunio eiddo newydd mewn ffordd lle y gellid cyfuno dau eiddo cyfagos yn un eiddo mwy, neu ble gellid tynnu waliau neu eu hychwanegu i newid nifer yr ystafelloedd gwely.
- Heriau ariannol. Dywedodd rhai LCCiaid y gall rhai datblygiadau fod yn gost-effeithiol, yn enwedig datblygiadau o fflatiau un ystafell wely neu eiddo mawr iawn. Dywedasant y gallai cynyddu a diwygio'r Grant Tai Cymdeithasol liniaru'r heriau hyn.

⁴⁰ Senedd Cymru, 'Cyflenwad tai cymdeithasol – ymatebion i'r ymgynghoriad'. Ar gael yn: [Ymgynghoriad](#).

4. Dyraniadau tai cymdeithasol a phartneriaethau lleol

Trosolwg o ddyraniadau tai cymdeithasol

- 4.1 Fel rhan o'r ymarfer casglu data, gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu nifer yr unedau tai cymdeithasol a ddyrannwyd i aelwydydd yn ystod blwyddyn galendr 2023.⁴¹ Mae'n ymddangos bod darparu data ar ddyraniadau yn anoddach i rai awdurdodau lleol o'i gymharu â darparu data ar y gofrestr dai, gyda 3 o'r 16 awdurdod lleol a ddychwelodd dempledi data yn methu â darparu unrhyw ddata ar ddyraniadau oherwydd nad oedd ganddynt y wybodaeth eu hunain (e.e. "y gymdeithas dai sy'n cadw'r data hwn"), neu ei fod yn golygu gormod o waith i'w ddarparu.
- 4.2 Mae'n werth ailadrodd, fel gyda phob math o ddata gweinyddol, y bydd amrywiadau rhwng y ffordd y caiff data ei brosesu, ei reoli a'i ddiweddarau o fewn pob awdurdod lleol. Ni allai tri awdurdod lleol ddarparu unrhyw ddata yn ymwneud â dyraniadau tai cymdeithasol, ac ni allai tri awdurdod lleol arall ddarparu dadansoddiadau cywir o'r holl ddyletswyddau digartrefedd. Er enghraifft, dim ond adrodd y niferoedd cyfanredol ar ddyraniadau Adran 66 a 73, neu adrodd yr holl ddyraniadau y mae dyletswydd ddigartrefedd arnynt fel Adran 75. Er efallai y ceir anghysondebau bach o ran sut y caiff dyletswyddau digartrefedd eu hadrodd, mae'r data'n dal i ddangos tueddiadau cyffredinol yn y modd y dyrennir tai cymdeithasol ar gyfraddau uwch i aelwydydd sydd â dyletswydd.
- 4.3 Gan ddefnyddio nifer y dyraniadau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol ac ystadegau swyddogol ar ddata stoc tai cymdeithasol gan StatsCymru⁴², mae'r cyfraddau dyrannu fesul 1000 o unedau o'r stoc tai cymdeithasol wedi'u cyfrifo fel y dangosir yn Nhabl 3 a Thabl 4. Sylwch y gall rhai o'r dyraniadau hyn gyfeirio at yr un eiddo sydd wedi ei ddyrannu sawl gwaith. Yn ôl dosbarthiad ardal ddaearyddol, mae Tabl 3 yn dangos mai awdurdodau lleol gwledig sydd â'r gyfradd ddyrannu uchaf o 80.6, sy'n dangos bod 80.6 o aelwydydd yn cael dyraniad o dai cymdeithasol am bob 1000 o unedau. Fel cymhariaeth, awdurdodau lleol yn y Cymoedd sydd â'r cyfraddau dyrannu isaf, gyda thua 54 o aelwydydd yn cael eu dyrannu am bob 1000 o unedau.

⁴¹ Sylwch mai dim ond data dyraniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/2024 y gallai dau awdurdod lleol eu darparu.

⁴² Llywodraeth Cymru (d.d), 'Stoc tai cymdeithasol a rhenti'. Ar gael yn: [Stoc tai cymdeithasol a rhenti](#).

Tabl 3. Cyfraddau dyraniadau fesul 1,000 o unedau o stoc tai cymdeithasol – Dosbarthiad gwledig-trefol⁴³

Math o Awdurdod Lleol	Cyfradd Dyrannu fesul 1,000 o unedau o stoc tai cymdeithasol
Gwledig	80.6
Arall	63.7
Trefol	63.0
Cymoedd	54.1

Ffynhonnell: Dadansoddiad gan Alma Economics o ddata tai cymdeithasol sylfaenol a gasglwyd o 13 Awdurdod Lleol yng Nghymru

4.4 Mae cyfraddau dyrannu awdurdodau lleol sy'n dal stoc yn sylweddol uwch nag awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc ac sy'n dibynnu'n llwyr ar LCCiaid am ddyraniadau, fel y dangosir yn Nhabl 4. Mae'n werth nodi nad yw hyn oherwydd bod awdurdodau lleol sy'n dal stoc â chyflenwad uwch o stoc tai cymdeithasol (oherwydd bod ganddynt stoc awdurdod lleol a stoc LCC ar gael), gan fod y cyfraddau dyrannu yn cyfeirio at ddyraniadau o'u stoc eu hunain ac nid at gyfanswm y cyflenwad tai cymdeithasol. O'r herwydd, mae gan awdurdodau lleol sy'n dal stoc gyfradd dyrannu o 80.7 o aelwydydd am bob 1000 o unedau stoc, tra bod gan awdurdodau lleol heb stoc gyfradd dyrannu is o 56.8 o aelwydydd am bob 1000 o unedau.

Tabl 4. Cyfraddau dyraniadau i bob aelwyd fesul 1,000 o unedau o stoc tai cymdeithasol – awdurdodau lleol sy'n dal stoc o'i gymharu ag awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc.

Math o Awdurdod Lleol	Cyfradd Dyrannu fesul 1,000 o unedau o dai cymdeithasol
Yn dal stoc	80.7
Ddim yn dal stoc	56.8

Ffynhonnell: Dadansoddiad gan Alma Economics o ddata tai cymdeithasol sylfaenol a gasglwyd o 13 Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Dyraniadau yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely

4.5 Er bod awdurdodau lleol sy'n dal stoc yn tueddu i fod â chyfraddau dyrannu uwch, fel y dangosir yn Nhabl 4, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod awdurdodau lleol sydd â'u stoc eu hunain yn fwy abl i fynd i'r afael â phwyntiau pwysau yn y galw am dai. Mae galw sylweddol am eiddo un ystafell wely a chaiff cyfran uwch o'r tai hyn eu dyrannu mewn awdurdodau lleol heb stoc tai cymdeithasol (39.8% o gyfanswm y dyraniadau) o'i gymharu ag awdurdodau lleol sy'n dal stoc (35.1% o gyfanswm y


⁴³ StatsCymru (2008), 'Cymru wledig – diffiniadau a sut i ddewis rhyngddynt'. Ar gael yn: [Cymru wledig: diffiniadau a sut i ddewis rhwyg hwy | LLYW.CYMRU](#)

YN SWYDDOGOL SENSITIF

dyraniadau), fel y dangosir isod yn Ffigur 6. Sylwch fod y sampl a gynrychiolir yn Ffigur 6 wedi'i leihau ymhellach o 13 i 12 (ni ddarparodd 3 ohonynt ddata dyraniadau), gan na allai un awdurdod lleol ddadansoddi data dyraniadau yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely.

Ffigur 6. Cyfran cyfanswm y dyraniadau yn ôl nifer yr ystafelloedd gwely (rhai sy'n dal stoc o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn dal stoc)

Dyraniadau tai cymdeithasol ar draws 12 awdurdod lleol o'u cymharu yn ôl statws daliad stoc (6 yn dal stoc, 6 ddim yn dal stoc)



Ffynhonnell: Dadansoddiad gan Alma Economics o ddata tai cymdeithasol sylfaenol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol Cymru.


Dyraniadau ar gyfer aelwydydd sy'n profi digartrefedd neu mewn perygl o fod yn ddigartref

- 4.6 Mae cyfraddau dyrannu i aelwydydd y mae dyletswyddau statudol iddynt yn amrywio rhwng awdurdodau lleol sy'n dal stoc a rhai nad ydynt yn dal stoc, a elwir yn awdurdodau lleol sy'n dibynnu'n llwyr ar LCCiaid am ddyraniadau. Fel y gwelir yn Ffigur 7, mae awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc yn dyrannu cyfran uwch o dai

cymdeithasol i aelwydydd nad oes dyletswydd statudol iddynt (65.2%), o'i gymharu ag awdurdodau lleol sydd â'u stoc tai eu hunain (51.1%).

Ffigur 7. Cyfraddau dyraniadau yn ôl math o ddyletswydd ar gyfer awdurdodau lleol sy'n dal stoc ac awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc

Dyraniadau tai cymdeithasol ar draws 13 awdurdod lleol o'u cymharu yn ôl statws daliad stoc (6 yn dal stoc, 7 ddim yn dal stoc)




Ffynhonnell: Dadansoddiad gan Alma Economics o ddata tai cymdeithasol sylfaenol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol Cymru.

- 4.7 Mae awdurdodau lleol sy'n dal stoc yn dyrannu cyfran uwch o dai cymdeithasol i aelwydydd y mae dyletswydd Adran 66 neu Adran 75 iddynt (12.6% a 31.9%, yn y drefn honno) o'i gymharu ag awdurdodau lleol heb stoc tai. Dangosir y gyfran uwch hon ymhellach yn Ffigur 8, lle mae gan awdurdodau lleol sy'n dal stoc gyfradd ddyrannu ganolrifol uwch i aelwydydd y mae dyletswydd iddynt ac aelwydydd lle nad oes dyletswydd iddynt, o'i gymharu ag awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc ac sydd felly'n dibynnu ar LCCiaid.
- 4.8 Mae'n bwysig nodi, er bod awdurdodau lleol sy'n dal stoc yn dueddol o fod â chyfraddau dyrannu uwch yn gyffredinol, mae amrywiad mawr rhwng cyfraddau dyrannu awdurdodau lleol sy'n dal stoc. Dangosir hyn yn Ffigur 8 lle mae cyfraddau dyrannu'r rhai sy'n dal stoc ag amrediad rhyngchwartel ehangach (a gynrychiolir gan y blwch) o'i gymharu ag awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc, lle mae'r amrywioldeb yn llawer llai (fel y dangosir gan amrediad rhyngchwartel culach, a

gynrychiolir gan y blwch). Mae'r gorgyffwrdd rhwng yr ystodau rhyngchwartel hyn yn awgrymu na ddylid dadansoddi cyfraddau dyrannu awdurdodau lleol sy'n dal stoc ac awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc ar eu pennau eu hunain. Mae'r amrywiad o fewn cyfraddau dyrannu'r rhai sy'n dal stoc a'r rhai nad ydynt yn dal stoc – a chanfyddiadau ansoddol y prosiect hwn – yn awgrymu bod llawer o ffactorau sy'n creu system ddyrannu lwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol (gan gynnwys LCCiaid), a phrosesau dyrannu unigol. Archwilir hyn ymhellach yn yr adran nesaf.

Ffigur 8. Cyfraddau dyraniadau yn ôl math o ddyletswydd ar gyfer awdurdodau lleol sy'n dal stoc ac awdurdodau lleol nad ydynt yn dal stoc⁴⁴

Dosbarthiad (gweler y troednodyn) dyraniadau tai cymdeithasol ar draws 13 awdurdod lleol (6 yn dal stoc, 7 ddim yn dal stoc)



Ffynhonnell: Dadansoddiad gan Alma Economics o ddata tai cymdeithasol sylfaenol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol Cymru.


4.9 Mae dyraniadau ar gyfer aelwydydd y mae dyletswyddau statudol iddynt hefyd yn amrywio yn ôl dosbarthiad gwledig a threfol, fel y dangosir yn Ffigur 9. Mae cyfran uwch o ddyraniadau tai cymdeithasol i aelwydydd y mae dyletswydd iddynt mewn awdurdodau lleol trefol a gwledig o'i gymharu ag awdurdodau lleol a gafodd eu

⁴⁴ **Sut ydych chi'n dehongli plot blwch?** Mae plot blwch yn crynhoi dosbarthiad set ddata yn weledol. Yn achos Ffigur 8, mae'n gynrychiolaeth o ddosbarthiad y dyraniadau tai cymdeithasol yn ôl (i) awdurdodau lleol sy'n dal stoc yn erbyn rhai nad ydynt yn dal stoc, a (ii) dyraniadau i aelwydydd sydd â dyletswyddau statudol a hebddynt. Mae'r rhan "blwch" yn cynrychioli'r Amrediad Rhyngchwartel (IQR), sy'n cynrychioli'r 25ain canradd (gwaelod y blwch), 50fed canradd neu ganolrif (llinell yng nghanol y blwch), a 75fed canradd (brig y blwch) o'r set ddata. Mae'r blwch yn cynrychioli lle mae mwyafrif y data. Mae'r llinellau ar y naill ben a'r llall i'r blwch (a elwir yn "wisgers") yn dangos ystod y data (gwerthoedd uchaf neu isaf absoliwt), ac unrhyw ddotiau (fel y gwelir ar gyfer dyraniadau i aelwydydd heb ddyletswydd iddynt mewn ardaloedd lle nad ydynt yn dal stoc), yn allanolion sy'n cynrychioli pwyntiau data anarferol o uchel neu isel.

categoriadau fel awdurdodau lleol y Cymoedd neu awdurdodau lleol eraill⁴⁵. Mae hyn yn arbennig o nodedig mewn awdurdodau lleol trefol sydd â chyfradd ddyrannu is fesul 1000 o unedau o'i gymharu ag ardaloedd gwledig, fel y dangosir yn Nhabl 3.

Ffigur 9. Cyfraddau dyraniadau yn ôl math o ddyletswydd yn ôl dosbarthiad gwledig-trefol awdurdodau lleol

Dyraniadau tai cymdeithasol ar draws 13 o awdurdodau lleol, wedi ei gymharu yn ôl dosbarthiad gwledig-trefol (2 Arall, 5 Gwledig, 3 Trefol a 3 Cymoedd)



Ffynhonnell: Dadansoddiad gan Alma Economics o ddata tai cymdeithasol sylfaenol a gasglwyd gan Awdurdodau Lleol Cymru.

Systemau a pholisïau dyrannu lleol

Y berthynas rhwng partneriaid lleol

- 4.10 Mewn cyfweiliadau, mynegodd awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid gytundeb cryf ar bwysigrwydd cynnal perthnasoedd agos a chydweithredol. Dywedodd un sefydliad rhanddeiliaid fod partneriaethau cryf a rhai

⁴⁵ StatsCymru (2008), 'Cymru wledig – diffiniadau a sut i ddewis rhyngddynt'. Ar gael yn: [Cymru wledig: diffiniadau a sut i ddewis rhwyg hwy | LLYW.CYMRU](http://www.llyw.cymru)

sy'n gwella fel "un o'r ffactorau pwysicaf, os nad y pwysicaf, sy'n mynd i olygu bod pawb yn cyd-dynnu a gweithredu gyda phwrpas cyffredin." Ar hyn o bryd, ystyrid bod y perthnasoedd hyn yn gadarnhaol ar draws y mwyafrif o ardaloedd awdurdodau lleol. Nodwyd bod cyfathrebu a chyfarfodydd rheolaidd ar wahanol lefelau o hynafedd, o uwch swyddogion gweithredol i staff rheng flaen, yn hwyluswyr pwysig o ran perthnasoedd adeiladol. Mewn achosion cryf, cynhelir cyfarfodydd strategol a gweithredol, ynghyd â chyfarfodydd panel rheolaidd i drafod achosion unigol. Mewn rhai achosion, esboniodd cyfweleion fod staff awdurdodau lleol neu LCCiaid yn gweithio'n rheolaidd yn swyddfeydd ei gilydd i wella cyfathrebu. Ceir enghreifftiau o arferion gorau - fel y cyfathrebu cryf a'r "adolygiadau bach" ymhlith partneriaid yn Sir Fynwy, yn ogystal â chyfarfodydd agored sydd wedi'u strwythuro'n eithriadol o dda yn Nhorfaen.

- 4.11 Soniwyd bod LCCiaid yn ei chael hi'n haws llywio'r perthnasoedd hyn lle mae pwynt cyswllt clir o fewn yr awdurdodau lleol priodol, er enghraifft trwy swyddi cyswllt penodedig sy'n bodoli eisoes mewn sawl awdurdod lleol. Amlinellodd rhai cyfweleion eu canfyddiad bod perthnasoedd lleol weithiau'n agosach lle'r oedd nifer lai o LCCiaid yn gysylltiedig, neu ble'r oedd llai o LCCiaid yn dal cyfran fawr o'r stoc leol. Defnyddir sianeli cyfathrebu uniongyrchol, megis rhannu plattform Microsoft Teams, mewn rhai ardaloedd i hwyluso cyfnewid cyflym.
- 4.12 Er gwaethaf y rhagolygon cadarnhaol ar y cyfan, nodwyd heriau oherwydd amcanion a modelau busnes gwahanol gan awdurdodau lleol, yn ogystal â'r LCCiaid. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i atal neu leddfu digartrefedd a thalu costau llety dros dro, ond nid yw LCCiaid yn gorfod gwneud hynny. Gwelwyd bod hyn yn arwain at anghytundebau achlysurol a diffyg brys wrth weithredu rhai prosiectau i leddfu costau llety dros dro. Yng ngeiriau un cyfwelai awdurdod lleol, "Rwy'n meddwl ei fod yn dibynnu ar [y ffaith] mai awdurdodau lleol yw'r rhai sydd â dyletswyddau a chyfrifoldebau digartrefedd. Bydd LCCiaid yn ceisio helpu gyda'r rheini, ond yn y pen draw nid nhw yw'r rhai sy'n ysgwyddo'r gost enfawr o lety dros dro." Gwelwyd bod rheoli blaenoriaethau amrywiol a phwysau ariannol o'r fath yn arbennig o heriol mewn ardaloedd lle nad yw awdurdodau lleol yn berchen ar eiddo ac felly'n brin o reolaeth neu hyblygrwydd. Dywedir y gall anghytundebau godi ynghylch defnydd LCCiaid o osodiadau lleol a pholisïau gosod sensitif. Yn benodol, galwodd rhai awdurdodau lleol am fwy o atebolrwydd gan LCCiaid yn eu rôl o gynorthwyo awdurdodau i gyflawni eu dyletswyddau Adrannau 73 a 75. Fodd bynnag, rhybuddiwyd yn erbyn gorfodi LCCiaid i gartrefu rhai aelwydydd oherwydd

y risg o orfodi dyraniadau annoeth ar LCCiaid, ac effaith negyddol bosibl dyraniadau gorfodol ar y berthynas rhwng awdurdodau lleol a LCCiaid. Materion eraill a nodwyd gan gyfweleion LCCiaid unigol oedd achosion prin o oedi hir o hyd at ddwy flynedd gyda chofrestru ymgeiswyr newydd, a rhwystredigaeth pan gaiff systemau eu hadolygu neu eu newid heb ymgysylltu â LCCiaid.

- 4.13 Ymhlith yr arferion da a nodwyd gan nifer fawr o gyfweleion awdurdodau lleol a LCCiaid oedd cynnal deialog agored a gwneud penderfyniadau ar y cyd ar ddyraniadau addas, yn ogystal â chynnal sgysiau cyn-denantiaeth agored. Ystyrid bod y rhain yn lleihau dewis a dethol, ac yn gwella llwyddiant tenantiaeth. Canfuwyd hefyd fod prosesau'n llyfnach lle mae gan awdurdodau lleol dimau neu bersonél penodedig i weinyddu'r gofrestr tai neu reoli perthnasoedd uniongyrchol â LCCiaid. Awgrymodd sefydliad rhanddeiliaid y byddai croeso i fforwm cenedlaethol lle gall awdurdodau lleol rannu arferion gorau ar sut i gryfhau partneriaethau gyda LCCiaid.
- 4.14 Wrth drafod gwneud penderfyniadau strategol neu newidiadau i lunio polisiau lleol (e.e., gan gyfeirio at y polisi dyrannu cyffredin), roedd LCCiaid yn gwerthfawrogi cael eu cynnwys, ac ymgynghorwyd â nhw fel partneriaid cyfartal. Teimlai rhai LCCiaid eu bod yn cael eu cynnwys mewn Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMAs). Mewn rhai achosion, datblygodd y LCCiaid bolisiau dyrannu cyffredin gyda phŵer mewnbwn a fetu gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r gwrthwyneb. Nodwyd enghreifftiau o arfer da yn y system Llwybr Mynediad Sengl i Dai (SARTH)⁴⁶ a phartneriaeth yng ngogledd Cymru, lle mae LCCiaid a chynghorau yn llunio cynlluniau datblygu ar y cyd.
- 4.15 Pwysleisiodd sefydliadau rhanddeiliaid y gallent gyfrannu cyngor gwerthfawr, yn enwedig ar bolisiau dyrannu cyffredin, pe byddent yn ymwneud yn agosach â gwneud penderfyniadau strategol lleol. Nododd sefydliadau rhanddeiliaid a gyfwelwyd hefyd fod systemau lleol yn aml yn dibynnu gormod ar bersonoliaethau a pherthnasoedd personol. Nodwyd arwyddion cadarnhaol gan sawl sefydliad yn llwyddiant SARTH ac ymrwymiad parhaus yr holl bartneriaid ar draws awdurdodau lleol i Gofrestrau Tai Cyffredin. Fodd bynnag, nododd cyfweleion y potensial i wella wrth greu fforymau i rannu arferion gorau rhwng awdurdodau lleol a LCCiaid. Er enghraifft, awgrymwyd y dylai model rheolwr perthynas Llywodraeth Cymru annog

⁴⁶ Mae'r Llwybr Mynediad Sengl i Dai (SARTH) yn bartneriaeth rhwng 6 LCC a 3 awdurdod lleol yng ngogledd Cymru, sy'n ceisio dyrannu tai cymdeithasol mewn ffordd gyson, dryloyw a rennir. Ei aelodau yw Cyngor Sir Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cartrefi Conwy, Adra, Grŵp Cynefin, Cymdeithas Tai Gogledd Cymru, Cymdeithas Tai Wales and West, a Chymdeithas Tai Clwyd Alyn.

trafodaethau agored ar heriau rhwng yr holl randdeiliaid, a chynnwys y LCCiaid a rhanddeiliaid eraill mewn modd gweithredol.

Awdurdodau lleol gyda Chofrestrau Tai Cyffredin

- 4.16 Dywedodd 19 o 22 ardal awdurdod lleol eu bod yn gweithredu eu system ddyraniadau drwy'r Gofrestr Tai Cyffredin (CHR). Roedd awdurdodau lleol a LCCiaid yn gweld y CHRs yn arf effeithiol. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol, gallai LCCiaid gael mynediad uniongyrchol at y CHR a systemau TG cysylltiedig, gan eu galluogi i sefydlu eu rhestrau byr eu hunain o ymgeiswyr cymwys trwy glicio botwm. Ystyriwyd bod y mynediad uniongyrchol hwn yn gadarnhaol ac yn amser-effeithlon. Roedd y rhan fwyaf o systemau yn cofnodi cynigion cyn gynted ag y cawsant eu gwneud er mwyn osgoi dyblygu. Mewn systemau seiliedig ar ddewis, roedd y LCCiaid yn creu rhestr fer yn seiliedig ar gynigion a dderbyniwyd, gan gadw at y drefn ymgeiswyr ar y cofrestrau priodol.
- 4.17 Esboniodd y cyfweleion fod glanhau'r gofrestr yn arfer cyffredin ymhlith y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a'i fod yn cael ei gynnal fel arfer ar gyfnodau yn amrywio o 6 i 18 mis. Roedd hyn yn cynnwys cysylltu â phobl i wirio a oeddent yn dal i chwilio am dŷ neu i wirio a oedd eu bandio neu faint eu haelwyd wedi newid. Roedd hyn yn sicrhau fod y rhestrau byr yn gywir, a oedd yn cael ei ystyried yn hanfodol er mwyn iddynt weithio'n effeithiol. Roedd LCCiaid fel arfer yn talu i awdurdodau lleol er mwyn cael mynediad i'r gofrestr a'i defnyddio.
- 4.18 Roedd yr enghreifftiau o arfer da a amlygwyd gan gyfweleion yn cynnwys SARTH, a oedd yn gweithio'n dda. Yr oedd LCCiaid yn ei hoffi oherwydd ei brosesau clir a chysondeb. Roedd Rhondda Cynon Taf hefyd yn nodedig am ei dryloywder a phrosesau llyfn, a oedd yn cael eu gwerthfawrogi gan LCCiaid. Roedd Homesearch Sir Fynwy⁴⁷ yn defnyddio awtomeiddio a glanhau data ar gyfer ei system ddigidol, sy'n enghraifft arall o arfer da ar gyfer rhedeg CHR effeithiol.
- 4.19 Fodd bynnag, amlygwyd sawl enghraifft lle nad oedd cofrestrau tai ar gael i bob partner ond yn hytrach eu bod yn cael eu cadw gan yr awdurdod lleol, neu, mewn rhai achosion, sawl partner ar wahân. Mewn systemau o'r fath, roedd awdurdodau lleol gan amlaf yn anfon enwebiadau unigol yn uniongyrchol at LCCiaid drwy e-bost. Er gwaethaf bodolaeth cofrestr tai, roedd LCCiaid yn mynegi pryder am nad oeddent yn cael mynediad iddi, a dadleuwyd nad yw hyn yn meithrin ymdeimlad o bartneriaeth wirioneddol. Mewn rhai achosion, eglurodd LCCiaid mai dim ond

⁴⁷ Porth ar-lein Homesearch Sir Fynwy. [Homesearch Sir Fynwy - Hafan](#).

enwau a manylion cyswllt ymgeiswyr yr oeddent yn eu derbyn, a bod rhaid iddynt ofyn am wybodaeth ychwanegol, gan achosi oedi ac arwain at ddyrannu llety a allai fod yn anaddas i'r ymgeisydd. Mewn o leiaf un achos, arweiniodd hyn at i un LCC hysbysebu eiddo tai cymdeithasol ar blatfform chwilio tai masnachol ar-lein. Mewn sawl achos arall, dewisodd LCCiaid beidio ag ymuno â'r gofrestr am resymau cost.

Awdurdodau lleol heb Gofrestrau Tai Cyffredin

- 4.20 Yn y tair ardal awdurdod lleol heb CHRs, esboniodd y cyfweleion fod ganddynt wahanol fodelau a strwythurau lleol amrywiol. Mewn un achos o ardal trosglwyddo stoc, roedd un LCC a gyfwelwyd yn cadw ei gofrestr ei hun. Gwelwyd bod y system hon yn gweithredu'n debyg i gofrestrau tai mewn awdurdodau lleol eraill - roedd pobl yn gwneud cais, yn cael gwiriadau cymhwysedd, ac yn cael asesiad o anghenion tai. Er i ni gael ar ddeall nad oes gan yr awdurdod lleol fynediad uniongyrchol i system ar-lein yr LCC, mae data'n cael ei rannu'n rheolaidd, gyda chynlluniau i sefydliadu hyn ymhellach.
- 4.21 Roedd system leol arall yn cynnwys sawl LCC yn cynnal eu rhestrau eu hunain ochr yn ochr â rhestr ar wahân yr awdurdod lleol. Roedd LCCiaid eraill heb restrau a oedd yn gweithredu yn ardal yr awdurdod lleol yn cael enwebiadau uniongyrchol gan yr awdurdod lleol. Yn y system hon, roedd gan yr awdurdod lleol hawl enwebu 50 y cant gyda rhai LCCiaid - ar ben hynny, mewn ystadau newydd roedd yr awdurdod lleol ar adegau yn enwebu 100 y cant o'r tenantiaid a oedd yn dod i mewn. Pe bai angen, byddai'r LCCiaid yn dychwelyd i'r awdurdod lleol i ofyn am enwau newydd pe bai'r ymgeisydd a ddewiswyd yn wreiddiol yn gwrthod yr eiddo, yn cael ei wrthod gan yr LCC, neu wedi cael tŷ eisoes. Roedd y model hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr wneud cais i wahanol restrau ar wahân. Gwelwyd bod y system hon yn achosi dyblygu, ac roedd rhai LCCiaid yn ei beirniadu, gan ddweud ei bod yn rhy yn feichus i ymgeiswyr. Wrth hysbysebu eiddo, pwysleisiodd yr LCCiaid nad oeddent yn defnyddio CHRs eu bod wedi gweld galw eithriadol o uchel, a mynegwyd y byddai'n well ganddynt system cofrestr tai unffurf Cymru gyfan.
- 4.22 Esboniodd un awdurdod lleol a ddewisodd beidio â gweithredu CHR bod yn well ganddynt gadw eu rhestr ei hun. Eglurwyd bod y dull hwn yn galluogi'r awdurdod lleol i fonitro enwebiadau yn haws ac olrhain y dyraniadau a wneir gan LCCiaid yn fanwl. Mynegwyd pryderon hefyd am y gost a'r amser sydd eu hangen i drosglwyddo i CHR. Esboniodd LCCiaid y gallai diffyg Cofrestr Tai Cyffredin olygu bod angen i bobl gofrestru sawl gwaith gyda darparwyr gwahanol (gan gynnwys yr

awdurdod lleol a LCCiaid lleol), a oedd yn cymhlethu'r broses ymgeisio i bobl mewn angen, tra hefyd yn ystumio data a maint yr angen am dai.

Nodweddion ychwanegol systemau dyrannu lleol

- 4.23 Mae awdurdodau lleol wedi rhoi ystod o bolisiau neu arferion ychwanegol ar waith, naill ai fel rhan o'u polisi dyrannu cyffredin neu drwy strwythurau lleol eraill, nad ydynt yn rhan uniongyrchol o'r weinyddiaeth CHR a drafodwyd uchod.
- 4.24 Gofynion cysylltiad lleol: Mae gofynion cysylltiad lleol yn amrywio'n fawr rhwng awdurdodau lleol. Maent yn aml yn cynnwys meini prawf fel preswyliaid presennol neu flaenorol, cymorth teulu, a chyflogaeth. Gall y gofynion hyn gwmpasu ardal gyfan yr awdurdod lleol neu gael eu cyfyngu i nifer fach o ranbarthau neu hyd yn oed wardiau o fewn yr awdurdod lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Yn ôl y cyfweleion, mae gofynion cysylltiad lleol yn aml yn cael eu croesawu neu eu mynnu gan wleidyddion lleol, fel cynghorwyr. Fodd bynnag, rhybuddiodd elusennau digartrefedd y gallai gofynion cysylltiad lleol llym atal dyraniadau i bobl sy'n profi digartrefedd neu gyfyngu ar ddewis y rhai sy'n ceisio symud i ffwrdd o ardaloedd sydd wedi bod yn gysylltiedig â thrawma yn y gorffennol.
- 4.25 Systemau seiliedig ar bwyntiau: Mae nifer o awdurdodau lleol yn defnyddio systemau seiliedig ar bwyntiau sy'n galluogi rhestru ymgeiswyr ar sail gronol ac yn nhrefn eu hanghenion. Dyrennir lefelau amrywiol o bwyntiau i ffactorau megis angen meddygol, gorlenwi, cysylltiad lleol, ac amseroedd aros, gyda rhai eithriadau ar gyfer ffoaduriaid a goroeswyr cam-drin domestig. Nod y systemau hyn yw blaenoriaethu ymgeiswyr ar sail eu hamgylchiadau penodol a'u hanghenion tai. Rhybuddiodd rhai LCCiaid fod systemau seiliedig ar bwyntiau yn cario'r risg o "chwilio am bwyntiau" lle mae ymgeiswyr yn ceisio casglu pwyntiau i wella eu siawns o gael cartref yn gyflym trwy waethygu eu cyflwr tai yn fwriadol. Mewn achosion eraill, nododd rhai LCCiaid y gall systemau sy'n seiliedig ar bwyntiau roi pobl nad ydynt yn deall y systemau yn dda dan anfantais – oherwydd efallai nad ydynt yn deall y system ac felly maent yn colli 'pwyntiau' drwy beidio â mewnbynnu gwybodaeth berthnasol neu ddefnyddio'r derminoleg ofynnol.
- 4.26 Cwotâu: Mae cwotâu ymhlith y polisiau ychwanegol mwyaf cyffredin. Yn aml, maent yn gosod targedau meddal neu galed ar y gyfran o ddyraniadau i ymgeiswyr mewn bandiau penodol ar y gofrestr. Er bod hyn yn ffocysu mewn rhai awdurdodau lleol ar sicrhau bod cyfran benodol o hyd at 100 y cant yn cael ei dyrannu i ymgeiswyr digartref, mewn awdurdodau lleol eraill caiff ei ddefnyddio i ddarparu cyfleoedd

realistig i'r rhai sy'n is ar y rhestr (e.e., drwy ddyrannu 10-20 y cant i fandiau is ar y gofrestr). Nid yw cwotâu bob amser yn sefydlog a gallant newid dros amser neu ymateb i anghenion yr awdurdod lleol. Er enghraifft, cafwyd newidiadau mewn cwotâu yn ystod y pandemig COVID-19, neu i ymdrin â blocio gwelyau mewn ysbytai. Mae awdurdodau lleol eraill nad ydynt yn defnyddio cwotâu yn dilyn y drefn ar y gofrestr yn llym o'r brig i'r llawr.

4.27 Dyraniadau brys ac enwebiadau uniongyrchol ar gyfer digartrefedd: Yn ôl LCCiaid ac awdurdodau lleol, mae dyraniadau brys ac enwebiadau uniongyrchol yn arfau defnyddiol i gyflawni paru personol i bobl mewn angen dybryd. Mae'r defnydd o'r termau "dyraniadau brys" ac "enwebiadau uniongyrchol" yn amrywio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol gyda phrosesau a chymhellion yn gorgyffwrdd. Mae'r broses yn disgrifio lleoli unigolion neu aelwydydd mewn angen mewn eiddo gwag heb aros i'r ymgeisydd gyrraedd brig y gofrestr neu'r rhestr aros, neu, mewn rhai achosion, heb hyd yn oed gael ei ychwanegu at y gofrestr tai. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle caiff ymgeiswyr o fewn bandiau eu didoli yn ôl trefn dyddiad, sy'n golygu y bydd hyd yn oed yr achosion mwyaf brys sydd newydd eu hychwanegu yn cael eu rhestru yn is na'r aelwydydd yn yr un band sydd wedi bod yn aros am fwy o amser i gael eiddo. Gwelwyd bod y dull hwn hefyd yn atal unigolion mewn angen dybryd rhag gorfod gwneud cais am eiddo lluosog mewn systemau seiliedig ar ddewis, neu rhag gorfod cofrestru ar nifer o restrau aros mewn awdurdodau lleol sydd heb Gofrestr Tai Cyffredin.⁴⁸ Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r system hon, defnyddir enwebiadau uniongyrchol i sicrhau y gellir ailgartrefu pobl ddigartref yn gyflym. Mae hyn yn lleihau amseroedd aros ac yn lleihau'r galw ar gofrestrau tai. Mewn rhai awdurdodau lleol, esboniodd cyfweleion fod enwebiadau uniongyrchol yn caniatáu i achosion rhai ymgeiswyr gael eu blaenoriaethu dros ymgeiswyr digartref. Mae achosion â blaenoriaeth yn cynnwys dioddefwyr trosedd, llinellau cyffuriau, cogio, a goroeswyr cam-drin domestig. Mae'r eithriadau hyn yn sicrhau bod yr unigolion mwyaf agored i niwed yn cael cymorth tai amserol a phriodol.

4.28 Trosglwyddiadau rheolaeth: Mae trosglwyddiadau rheolaeth yn dynodi aelwyd sy'n cael cynnig symud i eiddo gwahanol a ddelir gan bartner lleol heb ailgofrestru ar y gofrestr neu'r rhestr aros. Ystyrir bod y trosglwyddiadau hyn yn arfau defnyddiol i atal digartrefedd a chânt eu hysgogi gan faterion fel diffygion mewn eiddo,

⁴⁸ Sylwch nad yw hyn yn effeithio ar ddata'r gofrestr tai a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, gan mai dim ond y gofrestr tai awdurdod lleol a ddarperir os nad oes Cofrestr Tai Cyffredin.

ymddygiad gwrthgymdeithasol, gorlenwi, trais domestig, llifogydd, neu waith peirianyddol. Weithiau, mae trosglwyddiadau rheolaeth yn dilyn cwotâu (e.e. hyd at 10 y cant o osodiadau eiddo LCCiaid), ac yn aml mae angen adrodd yn fanwl wrth yr awdurdod lleol. Roedd gan awdurdodau lleol a LCCiaid farn gymysg ar drosglwyddiadau rheolaeth, gan bwysleisio mai arf defnyddiol oeddent mewn achosion lle mae angen ymateb cyflym, ac y byddai ailgofrestru tenantiaid ar y gofrestr yn rhy araf (e.e., mewn achosion o ddiffygion eiddo difrifol). Fodd bynnag, mynegodd awdurdodau lleol bryderon cyson ynghylch y risgiau canfyddedig o ddefnyddio trosglwyddiadau rheolaeth i roi triniaeth ffafraethol i rai tenantiaid presennol, tra gallai ymgeiswyr sy'n dal i aros ar y gofrestr fod dan anfantaes.

- 4.29 Polisïau gosod eiddo lleol a gosod eiddo sensitif: Mae polisïau gosod eiddo lleol yn bolisïau sy'n ymwneud â stadau neu strydoedd penodol y mae grwpiau o denantiaid yn gymwys i gael eiddo ynddynt mewn ardal. Defnyddir polisïau gosod eiddo lleol gan amlaf mewn achosion o ddatblygiadau newydd, gydag awdurdodau lleol a LCCiaid gan amlygu pwysigrwydd creu cymunedau cynaliadwy ac annog cymysgedd o oedrannau, meintiau aelwydydd, ac anghenion. Er enghraifft, mae polisïau gosod eiddo lleol yn aml yn rhoi triniaeth ffafraethol i aelwydydd sydd eisiau symud i gartref llai er mwyn rhyddhau eiddo teuluol mwy mewn mannau eraill. Byddai'r polisi hefyd yn ystyried argaeledd gwasanaethau lleol megis meddygon teulu, ysgolion, ac archfarchnadoedd yn ogystal â gwasanaethau cymorth a gomisiynir (e.e. cymorth iechyd meddwl, triniaeth defnyddio sylweddau).
- 4.30 Mae gosod eiddo sensitif fel arfer yn berthnasol i eiddo penodol yn unig (tŷ, fflat, ac ati), yn wahanol i bolisïau gosod eiddo lleol sy'n cwmpasu sawl uned neu ardal leol fach. Unwaith y daw eiddo yn wag a'i fod wedi'i nodi fel gosodiad sensitif, bydd hyn yn cyfyngu ar bwy all gael yr eiddo fel tenant newydd. Mae'r rhesymau pam fod gosod eiddo sensitif yn cael ei weithredu yn cynnwys beichiau blaenorol ar gymdogion drwy ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu i sicrhau amgylchedd diogel i denantiaid sy'n dod i mewn a allai fod wedi dioddef trais domestig neu sydd ag anghenion cymorth lluosog. Yn ôl cyfweleion, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gytuno ar bob gosodiad sensitif ac, yn amodol ar bwy yw landlord yr eiddo, yr LCC perthnasol.
- 4.31 Gwahaniaethau polisi pellach: Nodwyd gwahaniaethau pellach rhwng systemau lleol sy'n haeddu sylw. Mae hyn yn cynnwys gwahaniaethau yn y ffordd y caiff ystafelloedd gwely ychwanegol eu dyrannu gan wahanol LCCiaid, ac a all ymgeiswyr hyd yn oed wneud cais am ystafelloedd gwely ychwanegol. Mae rhai

LCCiaid yn cynnig mwy o hyblygrwydd wrth ddarparu ystafelloedd gwely ychwanegol, yn seiliedig ar anghenion ac amgylchiadau penodol sydd hefyd yn amlygu ei hun mewn gwahaniaethau mewn asesiadau fforddiadwyedd i ddarpar denantiaid.

- 4.32 Mewn nifer fach o awdurdodau lleol, trafodwyd polisïau'n ymwneud ag anifeiliaid anwes a ganiateir mewn eiddo tai cymdeithasol. Yn y mwyafrif o awdurdodau lleol, ni chaniateir anifeiliaid anwes fel arfer mewn eiddo tai cymdeithasol (ac eithrio, e.e., cŵn i'r deillion/byddar, ac ati). Fodd bynnag, mewn ardaloedd eraill, esboniodd cyfweleion fod ymlyniad emosiynol tenantiaid i'w hanifeiliaid anwes yn cael ei ystyried yn y system leol. Serch hynny, dywedir bod p'un a yw anifeiliaid anwes yn cael eu derbyn ai peidio yn amrywio rhwng gwahanol ddarparwyr tai lleol hyd yn oed o fewn yr un ardal leol, gan achosi ansicrwydd i denantiaid. Er efallai na fydd rhai LCCiaid yn caniatáu anifeiliaid anwes o gwbl, gall LCCiaid eraill sy'n gweithredu yn yr un ardal ganiatáu anifeiliaid anwes cyn belled â bod gan eiddo fynedfeydd ar wahân.

Dewis o ran dyraniadau

- 4.33 Mae'r lefelau dewis i ymgeiswyr am dai cymdeithasol yn amrywio rhwng systemau gosod sy'n gwbl seiliedig ar ddewis a dulliau eraill o gynnig dewis i denantiaid.
- 4.34 Dewis i denantiaid: Mewn sawl awdurdod lleol, mae tenantiaid yn cael rhywfaint o ddewis o ran nifer yr ystafelloedd gwely (hyd at un yn fwy na maint eu haelwyd, yn amodol ar fforddiadwyedd) a'r math o eiddo (tŷ, fflat deulawr, fflat, byngalos fel arfer dim ond ar gyfer pobl sy'n 55+ oed). Mae elfennau eraill o ddewis ar adegau yn cynnwys gerddi a dewisiadau parcio. Gall lefelau dewis lleoliad amrywio ar draws ardal awdurdod lleol, gyda rhai yn caniatáu i denantiaid ddewis wardiau neu ardaloedd penodol o fewn yr awdurdod lleol. Yn nodweddiadol, gofynnir i ymgeiswyr sy'n profi digartrefedd ddewis ardaloedd lluosog i gynyddu eu siawns o gael cartref.
- 4.35 Gosodiadau ar sail dewis: Mae gosodiadau ar sail dewis yn dynodi systemau i ddyrannu tai cymdeithasol sy'n caniatáu i ymgeiswyr ddewis a chynnig am eiddo gwag, a hysbysebwr drwy lwyfannau amrywiol gan yr awdurdod lleol neu'r LCC. Yna mae ymgeiswyr yn cael eu rhoi ar restr fer yn seiliedig ar angen, ac fel arfer cynnig eiddo i'r ymgeiswyr sydd â'r flaenoriaeth uchaf. Mae'n bosibl y bydd rhai cyfyngiadau'n berthnasol yn lleol ar faint o dai y gellir cynnig amdanynt bob wythnos yn ogystal â meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwneud cais. Mae opsiynau cynnig awtomatig yn aml yn cael eu defnyddio yn ardaloedd dethol yr ymgeiswyr, ac i

ymgeiswyr sy'n profi digartrefedd. Mae rhai awdurdodau lleol o'r farn bod gosodiadau ar sail dewis yn gweithio'n dda, tra bod eraill yn sôn am brofiadau negyddol ac anfanteision.

- 4.36 Roedd y trafodaethau am fanteision gosodiadau seiliedig ar ddewis yn cynnwys:
- Gall tenantiaid weld pa safle y gwnaethant ei gyrraedd yn y diwedd ar y rhestr fer am yr eiddo y gwnaethant gynnig amdano, gan roi gwell syniad o'r stoc sydd ar gael a chynigion realistig.
 - Dywedodd rhai LCCiaid ei bod yn fwy effeithiol cysylltu â phobl sydd wedi cynnig yn ddiweddar, gan fod y broses yn cadw eu gwybodaeth yn gyfredol ac yn lleihau'r diffyg ymateb i gynigion.
 - Mae'n effeithiol i eiddo galw isel, gan arwain at lai o wrthodiadau gan fod pobl wedi gwneud cais gweithredol am yr eiddo dan sylw.
- 4.37 Nododd sefydliadau rhanddeiliaid, er y gall gwneud ceisiadau fod yn brofiad digalon i bobl sy'n disgwyl am dŷ a'u gwneud yn llai awyddus i ailadrodd y broses, mae'n caniatáu dull sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn, ac yn cynnig mwy o reolaeth i bobl dros eu hopsiynau tai.
- 4.38 Roedd adroddiadau o anfanteision gosodiadau seiliedig ar ddewis yn cynnwys:
- Dywedodd rhai LCCiaid bod cyfraddau gwrthod uwch oherwydd bod gan ymgeiswyr well syniad beth oedd ansawdd y stoc a'r dewisiadau amgen.
 - Ystyrir bod systemau gosod ar sail dewis yn ddrutach i'w gweinyddu.
 - Nododd LCCiaid ac awdurdodau lleol bryderon hefyd am lythrennedd digidol a mynediad i'r rhyngwyd i ymgeiswyr mewn llety dros dro.
 - Roedd risgiau pellach a grybwyllwyd yn cynnwys y crynodiad o denantiaid cymhleth mewn rhai ardaloedd oherwydd proses o hunan-ddewis, a oedd yn cael ei weld o bosibl yn gwaethygu rhaniadau cymdeithasol.
- 4.39 Nododd sefydliadau rhanddeiliaid a gymerodd ran yn yr ymchwil y paradocs "dewis" mewn systemau sy'n seiliedig ar ddewis. Deallwyd bod aelwydydd digartref dan bwysau i dderbyn unrhyw eiddo a gynigir iddynt ar ôl cael cynigion awtomatig am unrhyw eiddo o faint a lleoliad addas. Yn lle hynny, mae rhai LCCiaid yn dadlau bod enwebiadau uniongyrchol wedi'u targedu yn gweithio'n well i achosion sensitif, yn hytrach na defnyddio dull seiliedig ar ddewis gyda chynigion awtomatig. Mae'r gwersi eraill a ddysgwyd gan LCCiaid yn cynnwys yr angen am wybodaeth fanylach

ar hygyrchedd mewn systemau sy'n seiliedig ar ddewis, gan y gall hyd yn oed gwahaniaethau bach, fel nifer y grisiau i ddrws ffrynt, effeithio'n sylweddol ar addasrwydd i denantiaid â phroblemau symudedd.

Tenantiaid a landlordiaid yn gwrthod dyraniadau tai cymdeithasol

Rhesymau pam fod tenantiaid yn gwrthod dyraniadau

- 4.40 Dywedodd rhai cyfweleion awdurdodau lleol a LCCiaid eu bod wedi gweld cynnydd mewn gwrthodiadau gan ymgeiswyr y cynigiwyd eiddo iddynt ac amlinellwyd nifer o resymau am hyn. Deallwyd bod ymgeiswyr yn aml yn gwrthod cynigion os ydynt eisiau byw mewn strydoedd neu ystadau tai penodol yn eu hardal ddewisol, er enghraifft oherwydd bod teulu a ffrindiau yn byw gerllaw. Mae rhesymau eraill yn cynnwys ymgeiswyr yn gwrthod cynnig eiddo hŷn a gynigir iddynt yn lle stoc newydd naill ai gan yr awdurdod lleol neu LCCiaid.
- 4.41 Dywedodd cyfweleion fod rheolau gwahanol yn cael eu cymhwyso i wahanol grwpiau o ymgeiswyr a chan awdurdod lleol ynghylch eu safle ar y gofrestr o ganlyniad i'r penderfyniad i wrthod eiddo. Yn dibynnu ar ardal yr awdurdod lleol, gellir gwrthod gwahanol nifer o gynigion rhesymol, fel arfer un gwrthodiad i ymgeiswyr sy'n profi digartrefedd a dau wrthodiad i ymgeiswyr eraill sydd ag angen tai. Os eir y tu hwnt i'r nifer hwn o wrthodiadau, gall ymgeiswyr wedyn gael eu hisraddio i fand is ar y gofrestr tai, a gellir cofnodi'r gwrthodiad fel bod yr awdurdod wedi cwrdd â'i ddyletswydd ddigartrefedd.
- 4.42 Wrth drafod y dulliau o ymdrin â'r her hon yn y dyfodol, nododd rhai cyfweleion eu dull presennol o gysylltu ag ymgeiswyr llwyddiannus cyn gwneud unrhyw ddyraniad ffurfiol i sicrhau bod ymgeiswyr yn dal i fod â diddordeb yn yr eiddo cyn gwneud cynnig neu ddyraniad ffurfiol.

Rhesymau dros wrthod ymgeiswyr

- 4.43 Nododd pob awdurdod lleol a LCC p'un a oedd ymgeiswyr yn cael eu hepgor ac o dan ba amgylchiadau, ar ôl iddynt gyrraedd brig y rhestr fer ar gyfer eiddo gwag neu, yn dibynnu ar bolisi'r awdurdod lleol, ar ôl iddynt gael eu henwebu ar gyfer eiddo. Soniodd y mwyafrif o'r cyfweleion am y pryderon ynghylch "dewis a dethol", a ddisgrifiwyd fel ymgeiswyr blaenoriaeth cymwys yn cael eu disodli gan ymgeiswyr eraill sydd ymhellach i lawr ar y gofrestr neu'r rhestr fer - er enghraifft, oherwydd anghenion cymorth yr ymgeisydd ar y safle uchaf, neu gofnod o ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu ôl-ddyledion rhent.

- 4.44 Soniodd awdurdodau lleol yn aml am hepgor ymgeiswyr cymwys, gan ddweud ei fod yn bwnc trafod perthnasol rhwng partneriaid lleol. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o gyfweleion awdurdodau lleol a ddisgrifiodd hon fel problem neu her. Mewn rhai achosion, dywedodd awdurdodau lleol yn benodol nad oedd unrhyw achosion o “ddewis a dethol” yn hysbys iddynt. Lle nodwyd problemau gydag ymgeiswyr a hepgorwyd, cyfeiriodd cyfweleion awdurdodau lleol at sylwadau bod LCCiaid yn fwy tebygol o hepgor ymgeiswyr digartref, fel arfer pobl sengl ag anghenion cymorth lluosog neu gofnod o ymddygiad gwrthgymdeithasol blaenorol neu ôl-ddyledion rhent. Nododd awdurdodau lleol enghreifftiau o “osgoi” cytunedig, yn enwedig pan fo eiddo wedi'i addasu yn dod ar gael, a fyddai'n ddelfrydol i aelwyd neu berson yn is i lawr ar y rhestr ymgeiswyr. Yn yr achos hwn, roedd partneriaid lleol yn tueddu i drafod y dyraniad hwn ar y cyd, a'i ddyrannu i'r person oedd angen tŷ wedi'i addasu.
- 4.45 Pwysleisiodd pob LCC a gymerodd ran yn yr ymchwil na fyddai unrhyw ymgeisydd cymwys yn cael ei hepgor heb reswm clir a sylweddol, gan gyfeirio'n aml at benderfyniadau a wnaed er budd yr ymgeisydd ei hun, neu geisio creu cymunedau lleol cynaliadwy o amgylch yr eiddo gwag. Pwysleisiodd LCCiaid eu bod yn ymroddedig i ymgeiswyr tai waeth beth fo'u cefndir neu hanes, gan amlygu hefyd bod angen dod o hyd i'r ffit iawn, yn enwedig i ymgeiswyr ag anghenion cymorth lluosog. Disgrifiwyd dyrannu ymgeisydd ag anghenion cymorth lluosog i stad o dai gyda nifer uchel o denantiaid eraill ag anghenion cymorth fel “eu rhoi mewn sefyllfa lle maent yn siŵr o fethu”. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn her arbennig, o ystyried bod fflatiau un ystafell wely yn aml wedi'u clystyru a bod y mwyafrif o denantiaid ag anghenion cymorth lluosog yn bobl sengl. Yn lle hynny, pwysleisiodd cyfweleion LCC bwysigrwydd ac amllder trafodaethau agored ar achosion unigol, naill ai o fewn timau LCC neu gyda'r awdurdod lleol. Pwysleisiodd LCCiaid yn unfrydol eu bod yn ceisio uchafu cyfraddau llwyddiant tenantiaethau a chymunedau cynaliadwy. Ceisiodd LCCiaid felly osgoi canolbwyntio anghenion cefnogaeth mewn un ardal neu gymuned oni bai bod digon o wasanaethau cymorth ar gael i bob tenant newydd a'r rhai presennol. O ystyried y mynychder uwch o anghenion cymorth ymhlith pobl sy'n profi digartrefedd (gweler adran 4.26), nododd cyfweleion fod hyn wedi arwain at ostyngiad yn y gyfradd dyrannu i aelwydydd digartref.
- 4.46 Wrth drafod rhesymau dros hepgor ymgeiswyr, eglurodd LCCiaid fod hepgoriad yn digwydd gan amlaf pan fo'r llety arfaethedig yn anaddas i'r ymgeisydd, efallai oherwydd nad oedd ynddo'r addasiadau angenrheidiol, neu nad oedd modd ei addasu. Disgrifiodd LCCiaid achosion lle'r oedd ymgeiswyr eisoes wedi'u cartrefu,

ond eu bod yn dal i fod ar y gofrestr ac felly'n cael eu gwrthod gan LCCiaid. Mewn achosion eraill, dywedodd LCCiaid y gallai maint aelwydydd fod wedi cynyddu neu leihau ers cofrestru, gan arwain at i'r LCCiaid wrthod eu cais ac yn lle hynny chwilio am eiddo addas gwahanol ar gyfer yr aelwyd dan sylw. Gan ddyfynnu rhesymau eraill oedd yn benodol i hanes ymgeiswyr, pwysleisiodd LCCiaid hefyd y byddent yn gwrthod dyrannu eiddo yn yr un ardal i ddioddefwr a chyflawnwr gweithredoedd trais domestig yn y gorffennol, gan geisio yn hytrach cartrefu unigolion ymhellach oddi wrth ei gilydd. Mae hyn yn awgrymu bod Cofrestrau Tai Cyffredin sydd wedi dyddio yn ffynhonnell rhai o wrthodiadau gan LCCiaid.

- 4.47 Nododd mwyafrif helaeth o'r LCCiaid a'r awdurdodau lleol fod rhaid i resymau dros hepgor ymgeiswyr gael eu cofnodi heb eithriadau, naill ai drwy system ar-lein neu drwy e-bost. Nodwyd amrywiadau lleol yn y graddau yr oedd y data hwn yn cael ei ddadansoddi neu ei archwilio, gydag arfer da yn cael ei nodi yn y system SARTH, gyda'i swyddog cydymffurfio penodedig. Yn ogystal, nodwyd bod lefel y manylder sydd ei angen i egluro'r rhesymeg dros hepgor ymgeisydd yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol. Ystyriwyd bod adolygiad annibynnol o ymgeiswyr a hepgorwyd yn hollbwysig i sicrhau dyraniad teg ac atebol o dai cymdeithasol, ond hefyd i ddiogelu'r berthynas bartneriaethol rhwng awdurdodau lleol a LCCiaid drwy gynnal yr archwiliad yn allanol. Dylid nodi hefyd bod nifer fach o awdurdodau lleol wedi adrodd nad oeddent yn cofnodi ymgeiswyr a hepgorwyd, neu nad oedd capasiti mewnol i fonitro'r rhain, hyd yn oed pan gofnodwyd y rhesymau.
- 4.48 Wrth drafod rhesymau a chanfyddiadau o ymgeiswyr cymwys a hepgorwyd, nododd LCCiaid ac awdurdodau lleol fel ei gilydd sawl her, yn amodol ar bolisïau a strwythurau lleol. Mewn nifer fach o achosion, esboniodd awdurdodau lleol, unwaith y byddai eiddo LCCiaid yn dod yn wag, dim ond at LCCiaid y byddent yn anfon enw a manylion cyswllt yr aelwyd neu'r person cyntaf ar y rhestr fer. Pe bai'r ymgeisydd yn gwrthod yr enwebiad cyntaf hwnnw neu'n cael ei wrthod gan yr LCC, byddai'r LCC wedyn yn mynd yn ôl at yr awdurdod lleol a gofyn am ail enwebiad. Roedd LCCiaid o'r farn bod y dull hwn yn arafu'r broses ac yn ei gwneud yn fwy anodd iddynt gael gwybodaeth am yr ymgeisydd, gan ei gwneud yn anos asesu a fyddai'r dyraniad yn addas. Bu sawl LCC hefyd yn trafod eu barn bod diffyg hyblygrwydd mewn systemau lleol – roedd enghreifftiau yn cynnwys achosion lle byddai eiddo gwag yn ddelfrydol i ymgeisydd a oedd un safle, neu sawl safle, yn is i lawr y rhestr aros. Mewn cyferbyniad, trwy ddilyn y polisi presennol, byddai'r ddau ymgeisydd yn debygol o gael eiddo llai addas. Nodwyd heriau pellach mewn ardaloedd

awdurdodau lleol gyda dim ond nifer fach o LCCiaid, lle nodwyd unwaith yr oedd ymgeisydd eisoes wedi profi problemau yn y gorffennol gyda phob LCC oedd â stoc leol, y gallai pob darparwr tai lleol wrthwynebu cartrefu'r unigolyn neu'r aelwyd eto, gan arwain at dreulio llawer o amser mewn llety dros dro. Nodwyd heriau tebyg mewn cymunedau bach, lle nodwyd y risg o swyddogion tai sydd â chysylltiadau personol neu wybodaeth am ymgeiswyr yn gwneud penderfyniadau rhagfarnllyd.

- 4.49 Ar draws y cyfweiliadau, nodwyd nifer o bwyntiau dysgu i'r holl bartneriaid lleol cysylltiedig. Anogodd sawl awdurdod lleol y LCCiaid i siarad â swyddogion cymorth tai cyn gwrthod unrhyw ymgeisydd ar y rhestr fer. Roedd gwersi pellach yn ymwneud â'r angen am nodiadau manwl ar bob eiddo – e.e. nifer y grisiau i fynedfa.
- 4.50 Galwodd LCCiaid hefyd ar awdurdodau lleol i ystyried a rhannu manylion eraill yn fwy rhagweithiol, megis mynedfeydd a rennir, coridorau, a mannau cyffredin, wrth ddyrannu ymgeiswyr â chofnodion blaenorol o ymddygiad gwrthgymdeithasol, euogfarnau troseddol blaenorol, neu hanes o droseddau trais domestig. O ganlyniad, eglurodd LCCiaid eu bod yn blaenoriaethu dyrannu ymgeiswyr o'r fath i eiddo nad oedd yn rhannu unrhyw fannau cyffredin gyda thenantiaid bregus eraill.
- Hyrwyddo cynaliadwyedd tenantiaeth
- 4.51 Rhoddodd awdurdodau lleol a LCCiaid fesurau amrywiol ar waith i hyrwyddo cynaliadwyedd tenantiaeth a chefnogi tenantiaid agored i niwed, a oedd yn amrywio yn ôl polisi a strwythurau lleol. Roedd mesurau cyffredinol yn cynnwys cynnull paneli gyda phartneriaid lleol i drafod achosion unigol, comisiynu gweithwyr cymorth, cynnig "cymorth fel y bo'r angen", a sefydlu cynlluniau talu i denantiaid ag ôl-ddyledion. Nod y strategaethau rhagweithiol hyn yw atal digartrefedd trwy nodi a rheoli problemau posibl cyn iddynt waethygu. Mewn rhai achosion, caiff ôl-ddyledion eu dileu i atal tenantiaid rhag treulio amser hir mewn llety dros dro. Dywedodd nifer fach o gyfweleion awdurdodau lleol eu bod hefyd wedi sefydlu unedau ymddygiad gwrthgymdeithasol pwrpasol i fynd i'r afael ag achosion penodol. Esboniodd LCCiaid yn ystod cyfweiliadau mai eu cymhelliad craidd yw sefydlu tenantiaethau hirdymor a chymunedau cynaliadwy, gan eu harwain i fynegi pryderon am glystyru tenantiaid ag anghenion cymorth lluosog yn yr un ystadau tai, yn enwedig mewn blociau tai sy'n cynnwys llety un person. Adleisiwyd yr amcan hwn gan nifer o sefydliadau rhanddeiliaid yn ystod cyfweiliadau, a esboniodd bwysigrwydd paru pobl sydd angen tai cymdeithasol â'r eiddo cywir, yn hytrach na chreu teimladau o orfod derbyn unrhyw opsiynau a gynigir iddynt. Yn gyffredinol, er gwaethaf heriau niferus, ychydig iawn o achosion o droi allan a adroddwyd gan yr awdurdodau lleol a

LCCiaid. Mynegodd cyfweleion awdurdodau lleol a LCCiaid wrthwynebiad cryf i droi pobl allan o dai cymdeithasol, gan gydnabod bod troi allan yn brofiad trawmatig i denantiaid. Pe bai tenantiaid sy'n cael eu troi allan yn dychwelyd i restrau aros tai cymdeithasol, rhagwelir y byddai ganddynt fwy o anghenion cymorth oherwydd y trawma o gael eu troi allan, a'r posibilrwydd o ddirywiad o ganlyniad. Dyna pam y dywedodd un cyfweleion awdurdod lleol fod troi allan "y dewis olaf".

- 4.52 Nododd cyfweleion awdurdodau lleol hefyd nifer o ganlyniadau anfwriadol y dull presennol o ddirywiad eiddo sy'n effeithio ar gynaliadwyedd tenantiaethau. Eglurodd awdurdodau lleol sy'n dal stoc pe byddai LCCiaid yn osgoi nifer sylweddol o achosion heriol, bod y tenantiaid hyn yn fwy tebygol o symud i eiddo awdurdod lleol, gan waethygu'r problemau clystyru yno. Gall cydleoï unigolion â phroblemau defnyddio sylweddau, er enghraifft, arwain at fethiannau tenantiaeth lluosog, gan wrthbwysu buddion dyraniad eiddo llwyddiannus. Nododd LCCiaid hefyd y gallai peidio ag adleoli tenantiaid sy'n cronni ôl-ddyledion ond sydd angen eiddo llai olygu eu bod yn dychwelyd i'r gofrestr tai. Mae hyn yn cymhlethu eu siawns o gael eiddo gwahanol oherwydd eu hól-ddyledion, gan barhau ymhellach y cylch o ganlyniadau tai gwael y gwelwyd bod modd eu hatal trwy drosglwyddiadau rheolaeth neu ddiryaniadau uniongyrchol.
- 4.53 Lle'r oedd heriau presennol yn hysbys am ardaloedd lleol penodol (e.e., problemau aml ag ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ddefnyddio sylweddau), dywedodd rhai cyfweleion awdurdodau lleol eu bod yn credu y dylid parhau i gynnig eiddo yn yr ardaloedd hynny i ymgeiswyr. Byddai sgysiau o'r fath yn cael eu cynnal gydag ymgeiswyr tra'n sicrhau y gallent wrthod eiddo o'r fath heb i hyn gael ei gyfrif fel gwrthodiad a thrwy hynny effeithio ar eu safle ar restrau aros. Esboniodd rhai awdurdodau lleol fod cynnig dewis gwybodus i ymgeiswyr yn well na gwrthod ymgeiswyr ar unwaith oherwydd risgiau lleol megis ymddygiad gwrthgymdeithasol neu faterion defnyddio sylweddau, yn amodol ar eu hanes blaenorol neu gyflyrau iechyd eu hunain.
- 4.54 Yn lle hynny, dadleuodd mwyafrif cryf o'r LCCiaid fod angen adolygu ac ymestyn cymorth tenantiaeth er mwyn cyflawni tenantiaethau cynaliadwy, yn enwedig wrth i fwy o bobl ag anghenion cymorth lluosog neu heb brofiad blaenorol o fyw'n annibynnol gael eu dyrannu i dai cymdeithasol. Wrth edrych ymlaen, nododd rhai cyfweleion hefyd y potensial ar gyfer cyflwyno cwtâu yn ehangach fel modd o greu cymunedau mwy cymysg a chynaliadwy.

5. Llwyddiannau, heriau ac arfer gorau yn y systemau lleol presennol

Pileri llwyddiant ar draws y systemau dyrannu lleol presennol

- 5.1 Trafododd cyfweleion ar draws awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid nifer o lwyddiannau a manteision polisiâu cyfredol, perthnasoedd â rhanddeiliaid, a ffyrdd effeithiol o ddiwallu anghenion pobl agored i niwed.
- 5.2 Blaenoriaethu darpariaeth gwasanaeth yn effeithiol: Pwysleisiodd awdurdodau lleol a LCCiaid fod darparu gwasanaeth i bobl mewn angen yn ganolog i'w gwaith. Roedd cyfweleion awdurdodau lleol yn tueddu i amlinellu – o fewn cyfyngiadau'r diffyg difrifol mewn stoc – fod y system yn gweithio'n dda i gleientiaid digartref mewn llety dros dro oherwydd eu bod yn cael eu blaenoriaethu drwy reolau bandio. Amlygodd cyfweleion hefyd lwyddiannau lle'r oedd unigolion yn cael dewis gwirioneddol o ble i fyw. Arweiniodd y dull hwn at ganlyniadau gwell a dull cymorth wedi'i seilio ar anghenion ac yn ystyriol o drawma. Mae cydweithio ag asiantaethau allanol i asesu hygyrchedd, megis gwasanaethau iechyd meddwl neu therapyddion galwedigaethol, wedi gwella ymhellach ganlyniadau tenantiaeth i grwpiau agored i niwed. Nodwyd bod tryloywder mewn polisiâu a statws rhestrau aros o fudd i ymgeiswyr. Wrth drafod enghreifftiau o arfer da, nododd cyfweleion fod y defnydd effeithiol a thryloyw o Gofrestrau Tai Cyffredin, lle mae gan bob partner fynediad cyfartal i wybodaeth (fel yn Rhondda Cynon Taf a phartneriaeth SARTH), wedi arwain at weithrediadau llyfn a phartneriaethau ymddiriedus. Yn ogystal, dywedodd awdurdodau lleol sydd â pholisi dyrannu uniongyrchol a brys i ymgeiswyr sy'n profi digartrefedd ei fod yn gweithio'n dda.
- 5.3 Gweithio mewn partneriaeth: Disgrifiwyd y berthynas rhwng awdurdodau lleol a LCCiaid fel piler allweddol llwyddiant lleol mewn rhai awdurdodau lleol. Roedd y perthnasoedd yn aml yn cael eu nodweddu gan gyfathrebu effeithiol a rhannu adnoddau, gan gynnwys TG a chyngor cyfreithiol. Canmolodd y cyfweleion sgysiau adeiladol am ddod o hyd i'r ffit iawn i bobl, yn enwedig trwy Baneli Tai Arbenigol. Nododd LCCiaid hefyd fod peidio â gorfod aros i awdurdodau lleol rannu enwau a manylion cyswllt yn unigol wedi cyflymu'r broses ddyrannu. Roedd yn ymddangos bod ymrwymadau clir i fuddsoddi mewn partneriaethau yn effeithiol hefyd, megis cyfarfodydd rheolaidd, a swyddogion awdurdodau lleol yn gweithio o swyddfeydd LCCiaid yn achlysurol.
- 5.4 Systemau TG arloesol: Gwelwyd bod systemau TG modern a gweithredol gyda diweddariadau rheolaidd yn lleihau camgymeriadau ac yn cyflymu'r prosesau

dyrannu. Nodwyd bod y system SARTH yn enghraifft o arfer da, gan alluogi rhannu gwybodaeth data yn helaeth ymhlith partneriaid a oedd yn fodd i gynyddu effeithlonrwydd. Y nodweddion a amlygwyd gan rai awdurdodau lleol a mwyafrif yr LCCiaid oedd cynhyrchu rhestrau byr yn awtomatig ac argaeledd data ar ymgeiswyr ar-lein. Ystyriwyd bod hyn yn gwella effeithlonrwydd ac ansawdd y dyraniadau. Pwysleisiodd LCCiaid hefyd y dylai fod gan bob partner fynediad i system TG a rennir, gan gynnwys sawl aelod o bob tîm LCC, a LCCiaid llai.

- 5.5 Nodweddion Cofrestrau Tai Cyffredin a Pholisïau Dyrannu Cyffredin: Tynnodd cyfweleion awdurdodau lleol a LCCiaid sylw at lwyddiannau lle'r oedd systemau seiliedig ar ddewis sy'n darparu mwy o dryloywder am eiddo yn arbed amser wrth gysylltu â phobl. Mynegodd y cyfweleion eu barn fod hyn wedi helpu i reoli disgwyliadau ymgeiswyr o'r stoc dai ac amseroedd aros. Nodwyd llwyddiannau pellach mewn mannau gyda system cwotâu, gan ddyrannu cyfrannau penodol o'r tai sydd ar gael i wahanol grwpiau mewn angen. Gwelwyd bod hyn yn cynyddu hyblygrwydd ac yn sicrhau cymunedau cynaliadwy, cymysg o denantiaid. Nodwyd Torfaen a Sir Fynwy fel enghreifftiau o arfer da oherwydd eu systemau lleol sy'n gweithio'n dda.
- 5.6 Lefelau stoc ar gyfer rhai mathau o eiddo: Er y nodwyd bod y stoc tai cymdeithasol yn llawer llai na'r galw ledled Cymru, roedd mathau penodol o eiddo lle'r oedd lefelau stoc yn cyfateb yn agosach i'r galw. Nododd sawl LCC ac awdurdod lleol bod argaeledd digonol o gartrefi dwy neu dair ystafell wely i deuluoedd yn y rhan fwyaf o ardaloedd. Yn ogystal, nodwyd bod cyflenwad da o lety i bobl hŷn a thai gwarchod ar draws sawl ardal awdurdod lleol. Gwelwyd bod datblygiadau eiddo yn symud ymlaen yn dda mewn sawl maes, yn cael eu hwyluso gan gydweithio rheolaidd gyda thimau datblygu LCCiaid. Tynnodd awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid sylw hefyd at dimau cartrefi gwag effeithiol sy'n darparu cymorth i ganfod cartrefi gwag a'u gwella, er mwyn eu troi'n dai cymdeithasol.
- 5.7 Pwysleisiodd sefydliadau rhanddeiliaid fod LCCiaid yn chwarae rhan hanfodol wrth reoli cynladwyedd cymunedol, sy'n allweddol i ddatblygu a gwerthu eiddo cyfagos, gan feithrin hyder yn y mentrau hyn. Mae cydweithredu arloesol gyda datblygwyr y sector preifat wedi dangos arfer da pellach yn y sector, fel y gwelir yng Nghaerdydd ac Abertawe, lle mae datblygu tai yn cael ei drin fel blaenoriaeth strategol o fewn yr awdurdod.

Elfennau o systemau dyrannu lleol sy'n cyflwyno heriau cyfredol

- 5.8 Diwallu anghenion: Wrth drafod heriau, cyfeiriodd awdurdodau lleol a LCCiaid gan amlaf at eu gallu cyfyngedig i gefnogi pobl sydd angen tai cymdeithasol. Nododd pob un o'r cyfweleion yn unfrydol y diffyg cyfatebiaeth ddifrifol rhwng cyflenwad a galw, gyda diffyg arbennig o fflatiau un ystafell wely ac eiddo mawr â phedair ystafell wely a mwy. Nododd rhai cyfweleion bod y tâl tanfeddiannu yn gwaethygu'r materion hyn, oherwydd dywedwyd nad oedd gan lawer o awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i gynnig eiddo mwy i aelwydydd mewn angen brys. Adleisiodd sefydliadau rhanddeiliaid y pryderon hyn a thynnu sylw at y trawma posibl a ddiroddedir gan y rhai a wrthodwyd am dai cymdeithasol, o ystyried eu cefndiroedd trawmatig mynych a'u hamser hir ar restrau aros. Roedd hyn yn aml yn arwain at asesiadau anghenion oedd wedi dyddio. Nododd sefydliadau bryderon pellach ynghylch buddsoddiad annigonol mewn gwasanaethau cymorth, gan nodi bod gwasanaethau cymorth effeithiol yn hanfodol i sicrhau tenantiaethau cynaliadwy.
- 5.9 Bodloni disgwyliadau: Roedd bodloni disgwyliadau ymgeiswyr a thenantiaid yn her sylweddol arall. Teimlai cyfweleion o'r ddau awdurdod lleol a'r LCCiaid fod disgwyliadau ymgeiswyr wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda thenantiaid yn aml yn mynegi dewisiadau pendant, neu'n gwrthod tai nad ydynt yn adeiladau newydd neu mewn lleoliadau penodol. Esboniodd cyfweleion fod hyn yn arwain at i ymgeiswyr weithiau aros am gyfnodau hir am eu heiddo delfrydol, gan flocio llety dros dro. Er bod y system seiliedig ar ddewis wedi'i chynllunio i ddarparu tryloywder a dewis, roedd yn cael ei hystyried yn aml fel un oedd yn arwain at ddisgwyliadau afrealistig, ac nid oedd yn cael ei hystyried yn addas o gofio'r argyfwng tai a'r diffyg dewis effeithiol.
- 5.10 Heriau gweinyddol: Nododd yr holl randdeiliaid a gymerodd ran fod heriau gweinyddol yn bodoli. Amlygodd LCCiaid y gost uchel o gysylltu â phobl os nad oeddent yn ymateb. Roedd hon yn her arbennig lle'r oedd y Gofrestr Tai Cyffredin wedi dyddio a lle'r oedd awdurdodau lleol yn brin o staff.⁴⁹ Nododd LCCiaid hefyd gostau ychwanegol lle nad oedd awdurdodau lleol yn cynnig digon o gymorth i ymgeiswyr drwy gydol y broses gofrestru. Mewn rhai achosion, esboniodd LCCiaid fod ymgeiswyr yn mynd at LCCiaid lleol o bryd i'w gilydd am gymorth er nad oeddent yn byw yn eu heiddo. Dadleuodd LCCiaid y dylai cymorth o'r fath gael ei

⁴⁹ Fel y crybwyllwyd eisoes, un cafeaf gyda'n hymchwil yw'r ffaith bod yr holl ddata a gesglir yn defnyddio data gweinyddol gan awdurdodau lleol. Bydd amrywiadau rhwng sut mae awdurdodau lleol yn rheoli, prosesu a diweddarau eu data.

ddarparu gan yr awdurdod lleol yn hytrach. Nodwyd heriau gweinyddol pellach mewn ardaloedd lle'r oedd rhestrau eiddo a addaswyd yn cael eu cadw ar wahân, neu ble nad oeddent yn ddigon gweladwy i LCCiaid. Yn ôl cyfweleion, yn aml roedd rhaid cael gwared ar addasiadau ar gost uchel os nad oeddent yn gallu paru'r eiddo ag ymgeisydd addas, gan gymhlethu'r broses ymhellach. Rhagwelwyd heriau gweinyddol yn y dyfodol oherwydd costau uchel i awdurdodau lleol a LCCiaid o osod systemau TG modern. Yn lle hynny, esboniodd cyfweleion fod dychwelyd yn ôl i systemau blaenorol, llai swyddogaethol yn gam gweithredu tebygol a fyddai'n arbed costau.

- 5.11 Heriau a wynebir gan awdurdodau lleol: Bu awdurdodau lleol yn trafod sawl her, gan amlaf diffyg ymatebolrwydd gan ymgeiswyr i gynigion tai, gan arwain at oedi yn y broses ddyrannu. Roedd awdurdodau lleol o'r farn bod y broblem hon yn gysylltiedig â diffyg tryloywder ynghylch safle pobl ar restrau aros dros amser. Er nad oedd y mwyafrif o awdurdodau lleol yn awgrymu bod "dewis a dethol" yn broblem yn eu hardal, i'r lleiafrif o awdurdodau lleol a fynegodd bryderon, ystyriwyd bod hyn yn gwaethygu'r pwysau ar eu stoc bresennol. Wrth drafod canlyniadau anfwriadol y strwythurau presennol, nododd awdurdodau lleol hefyd bryderon y gallai digartrefedd gael ei weld fel llwybr cyflymach at ddyraniad, gan felly gynyddu'r pwysau ar y systemau dyrannu. Nodwyd canlyniadau anfwriadol eraill o ddiffyg hyblygrwydd yn dilyn trosglwyddiadau stoc cyflawn (h.y., awdurdodau nad ydynt yn dal stoc) ac effeithiau canfyddedig Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru).
- 5.12 Heriau a wynebir gan LCCiaid: Er eu bod yn cytuno'n aml ag awdurdodau lleol, soniodd LCCiaid hefyd am gyfres o heriau penodol eu hunain. Nododd lleiafrif sylweddol o LCCiaid bryderon nad yw awdurdodau lleol yn rhoi digon o wybodaeth am risg ymgeiswyr neu fod y wybodaeth yn cael ei darparu'n rhy hwyr yn y broses. Gwelwyd bod hyn yn atal neu'n arafu dyrannu'r eiddo mwyaf addas a hirdymor. Roedd y pryderon hyn gryn dipyn yn llai cyffredin mewn ardaloedd gyda chyfarfodydd rheolaidd ac effeithiol rhwng awdurdodau lleol a LCCiaid. Nodwyd mai ateb posibl fyddai rhannu 'cofrestrau risg' awdurdodau lleol a chael strwythurau cyfarfod mwy rheolaidd neu safonol rhwng awdurdodau lleol a LCCiaid, gan roi strwythur systematig yn ei le ar draws gwahanol awdurdodau lleol. Byddai hyn yn cwmpasu cyfarfodydd strategol a gweithredol. Yn ogystal, wrth geisio lleoli nifer fwy o unigolion digartref yn yr un ardaloedd lleol, mynegodd LCCiaid bryderon nad oes digon o gymorth ar gael i ddatblygu sgiliau rheoli tenantiaeth i'r tenantiaid yn ystod eu cyfnod mewn llety dros dro, a allai atal problemau rheoli tenantiaeth yn dilyn

dyraniad a lleihau straen ar bartneriaethau tai cymdeithasol yn y tymor hir. Nododd y rhan fwyaf o LCCiaid hefyd ddiffyg gwasanaethau cymorth ar ôl i denantiaid symud i mewn i eiddo, er y gallai cynnig Papur Gwyn ar gyfer dyletswydd i gefnogi cadw llety wella cymorth ar draws partneriaethau. Gyda chymhelliad tebyg i greu cymunedau lleol cynaliadwy, dywedodd LCCiaid fod cwotâu (lle'r oeddent yn bodoli) ar gyfer trosglwyddiadau rheolaeth yn rhy isel. Nodwyd pryderon pellach gan rai LCCiaid ynghylch gweithdrefnau mewnol nifer fach o awdurdodau lleol, gan gynnwys oedi biwrocraidaidd neu amser hir i wneud penderfyniadau, yn ogystal â gwrthdaro mewnol, e.e., rhwng timau cynllunio a thai'r awdurdod lleol.

5.13 Roedd heriau ychwanegol a grybwyllwyd gan sefydliadau rhanddeiliaid yn cynnwys y canlynol:

- Dywedodd elusennau digartrefedd fod gweithwyr achos yn cael trafferth gyda systemau awdurdod lleol gwahanol, a bod ôl-ddyledion yn cael eu defnyddio ar adegau fel rheswm i beidio â rhoi cartref i bobl. Galwodd yr elusennau am newid hyn trwy newidiadau polisi lleol a hyfforddi staff.
- Pwysleisiodd sefydliadau bwysigrwydd gwell esboniad o hawliau ymgeiswyr a thenantiaid, gan gynnwys eu gallu i ofyn am adolygiadau o ddyraniadau amhriodol.

5.14 Canfuwyd bod ardaloedd gwledig yn wynebu prinder ychwanegol oherwydd bod cymaint o ail gartrefi a gosod eiddo tymor byr mewn rhai ardaloedd yn rhoi enillion uwch i landlordiaid, ac felly'n lleihau ymhellach y cyflenwad o lety rhentu preifat hirdymor.

Newidiadau yn y dyfodol a heriau sydd ar y gweill

5.15 Gofynnwyd hefyd i'r cyfweleion drafod eu barn ar unrhyw heriau sydd ar y gweill mewn systemau dyrannu lleol, newidiadau yn y galw am dai cymdeithasol, anghenion ymgeiswyr a thenantiaid, yn ogystal â ffactorau ehangach. Nododd y cyfweleion sawl her tymor canolig a hirdymor, gan gynnwys:

- Dadleuodd llawer o awdurdodau lleol a LCCiaid mai diffyg cyflenwad o dai cymdeithasol oedd yr her hirdymor allweddol – gyda buddsoddiadau ariannol a gwleidyddol sylweddol yn ofynnol ar lefelau lleol a chenedlaethol.
- Dywedodd rhai awdurdodau lleol fod pwysau gwleidyddol ar gynlluniau datblygu tai weithiau'n gwaethygu'r diffyg cyfatebiaeth rhwng cyflenwad a galw i rai grwpiau neu fathau o eiddo. Nododd y cyfweleion enghreifftiau lle'r oedd llety

gwarchod i bobl hŷn yn cael ei ffafrio ar draul datblygu tai anghenion cyffredinol, lle nodwyd prinder mwy sylweddol.

- Nododd rhai awdurdodau lleol bryderon ynghylch poblogaeth sy'n heneiddio a allai gynyddu'r galw am lety gwarchod a gwasanaethau cymorth yn y tymor canolig a'r tymor hwy.
- Dywedodd nifer o LCCiaid a rhai awdurdodau lleol bod landlordiaid sector preifat yn gadael y farchnad yn creu pryder. Gwelwyd bod hyn yn debygol o gynyddu rhenti'r sector rhentu preifat a chyfraddau troi allan yn y tymor byr, gan gynyddu'r pwysau ymhellach ar y sector tai cymdeithasol a llety dros dro. Nodwyd ffactor arall lle na fyddai pobl yn gallu fforddio rhenti'r sector preifat neu symud ymlaen o dai cymdeithasol i lety preifat. Nodwyd achosion y newidiadau canfyddedig hyn yn y sector rhentu preifat fel cyfraddau llog uwch, costau ynni uwch, a'r canfyddiad bod landlordiaid sector preifat yn gadael y farchnad yn dilyn gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru).
- Nododd rhai cyfweleion bryderon ynghylch oedi wrth ddatblygu tai newydd oherwydd anawsterau sicrhau caniatâd cynllunio. Lleisiwyd pryderon cysylltiedig lle cafodd datblygiad tai ei atal oherwydd pryderon ynghylch datblygiadau tai yn cynyddu lefelau ffosffad mewn systemau dŵr lleol.⁵⁰ Nodwyd bod oedi o'r fath mewn datblygiadau wedi lleihau'r cyflenwad tai mewn rhai awdurdodau lleol; er enghraifft Sir Fynwy, Ceredigion, a rhannau o Bowys, lle bu oedi wrth ddatblygu ar nifer o safleoedd oherwydd pryderon ynghylch ffosffadau. Nodwyd hefyd bod siociau allanol megis costau deunyddiau uwch a phrinder gweithlu wedi effeithio ar ddatblygiad yr holl dai.
- Ar ben hynny, dewisodd sawl cyfwelai drafod yr heriau a nodwyd yn y cynigion o'r Papur Gwyn Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd Llywodraeth Cymru. Roedd y pwyntiau trafod yn aml yn canolbwyntio ar atgyfnerthu'r elfen ffafraethol ychwanegol o fewn systemau dyrannu i bobl sy'n ddigartref ar hyn o bryd:
- Roedd llawer o awdurdodau lleol a rhai cyfweleion LCC yn ofni y byddai cynyddu'n sylweddol gyfran y dyraniadau i bobl sy'n profi digartrefedd yn cymell pobl i ddweud wrth awdurdodau lleol eu bod yn ddigartref, er bod hynny'n gelwydd. At hynny, nododd rhai cyfweleion bryderon y byddai lleihau dyraniadau i bobl nad ydynt yn ddigartref ond sydd ag angen tai difrifol (e.e.

⁵⁰ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws.](#)

gorlenwi) yn y pen draw yn arwain at i fwy o bobl ddod yn ddigartref wrth i'w sefyllfa dai waethygu.

- Roedd rhai cyfweleion o awdurdodau lleol a LCCiaid yn pryderu y gallai creu elfen ffafraethol ychwanegol i bobl sy'n profi digartrefedd arwain at ganlyniadau anfwriadol i grwpiau eraill - gan gynnwys pobl anabl a phobl sy'n byw mewn tai gorlawn, llaith, neu fel arall yn anaddas. Yn benodol, lleisiodd cyfweleion awdurdodau lleol bryderon y gallai effeithiolrwydd trefniadau partneriaeth cryf presennol gael ei leihau pe bai stoc yn cael ei gyfeirio i rywle arall, ac na ellid gwneud dyraniadau cyflym i grwpiau penodol. Yng ngeiriau un swyddog awdurdod lleol mewn ardal sy'n honni bod ganddi bartneriaethau lleol effeithiol a chyfraddau dyrannu, "mae mor bwysig bod gennym bolisi a darpariaeth leol yn eu lle o hyd [...] yn hytrach na cheisio defnyddio dull 'un ateb yn addas i bawb', oherwydd mae pob un ohonom yn wynebu heriau gwahanol iawn yn seiliedig ar y bobl sy'n cyflwyno a'r stoc sydd gennym."
- Mynegodd rhai cyfweleion awdurdodau lleol a LCCiaid bryder y byddai'r elfen ffafraethol ychwanegol i ymgeiswyr digartref yn lleihau cyfraddau dyrannu i bobl sy'n symud i gartrefi llai, ac felly'n lleihau capasiti cyffredinol y stoc tai cymdeithasol.

5.16 Roedd pryderon eraill ynglŷn â chynigion y Papur Gwyn yn cynnwys:

- Nododd rhai cyfweleion awdurdodau lleol bryderon na fyddant yn gallu "ei gwneud yn ofynnol i LCCiaid ailgartrefu pobl sy'n atgyfeiriadau digartrefedd statudol" fel y cynigir yn y Papur Gwyn. Nodwyd y pryder hwn pan fo LCCiaid yn hytrach na'r awdurdod lleol yn rheoli'r CHR yn uniongyrchol, pan wneir dyraniadau o restr fer a gynhyrchir yn awtomatig, a lle nad oes gan awdurdodau lleol y gallu i ymchwilio i'r cyfiawnhad a roddwyd dros wrthod.
- Mynegodd un awdurdod lleol heb Gofrestr Tai Cyffredin bryder y byddai mabwysiadu un yn ddrud ac yn cymryd llawer o amser ac yn atal yr awdurdod lleol rhag monitro'n effeithiol sut mae LCCiaid yn derbyn dyraniadau i aelwydydd digartref.
- Roedd pryder y gall cynnig y Papur Gwyn i ymestyn hawl tenant i ofyn am adolygiad o addasrwydd llety arwain at gynnydd mewn pwysau ar dimau awdurdodau lleol a'r galw am ddyraniadau.

Rhagolygon ar newidiadau polisi a datblygiadau sector yn y dyfodol

- 5.17 Mae'r adran ganlynol yn canolbwyntio ar ddatblygiadau polisi sydd ar y gweill, diweddariadau polisi lleol, a newidiadau yn strwythur nifer fach o LCCiaid. Mae'r drafodaeth hefyd yn cynnwys myfyrdodau ar gynnydd gydag Ailgartrefu Cyflym a'i effeithiau cynnar neu ddisgwyliedig, newidiadau polisi sydd ar ddod, a'r posibilrwydd o uno LCCiaid.
- Ailgartrefu Cyflym
- 5.18 Gofynnwyd i gyfweleion awdurdodau lleol a LCCiaid ddisgrifio eu cynnydd o ran gweithredu egwyddorion Ailgartrefu Cyflym yn eu gweithrediadau lleol. Er bod rhai awdurdodau lleol wedi nodi nad yw Ailgartrefu Cyflym wedi cael unrhyw effaith uniongyrchol ar brosesau dyrannu eto, nododd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol fod symud tuag at y dull hwn wedi arwain at newidiadau ehangach. Nododd awdurdodau lleol a LCCiaid effaith anniriaethol ond hanfodol Ailgartrefu Cyflym – sef, annog amgylchedd gwleidyddol ffafraethol ar gyfer newidiadau i bolisiâu dyrannu lleol. Disgrifiodd rhai cyfweleion fod Ailgartrefu Cyflym yn ffactor cyd-destunol pwysig wrth annog cynrychiolwyr etholedig lleol a swyddogion i ddiwygio polisiâu dyrannu gyda'r nod o leihau'r amser a dreulir mewn llety dros dro.
- 5.19 Yn ogystal â hyn, disgrifiodd rhai cyfweleion awdurdodau lleol eu bod wedi recriwtio staff newydd yn benodol ar gyfer gweithredu Ailgartrefu Cyflym, gan gynnwys recriwtio swyddogion datblygu busnes a Rheolwyr Ailgartrefu Cyflym (gan ddefnyddio cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru). Yn olaf, nododd rhai awdurdodau lleol fod Ailgartrefu Cyflym wedi newid y ffordd y maent yn casglu ac yn defnyddio data. Er enghraifft, dywedodd un awdurdod lleol ei fod wedi creu “cofrestr Ailgartrefu Cyflym”, roedd un arall yn creu “dangosfwrdd data Ailgartrefu Cyflym”, ac roedd trydydd awdurdod lleol yn casglu ac yn defnyddio mwy o ddata ar anghenion a chefnidroedd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau digartrefedd i lywio strategaeth dai'r awdurdod lleol cyfan.
- 5.20 Bu'r cyfweleion hefyd yn trafod yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu Ailgartrefu Cyflym. Yn gyntaf ac yn bennaf, bu llawer o LCCiaid ac awdurdodau lleol yn trafod eu barn am yr her aruthrol o weithredu egwyddorion Ailgartrefu Cyflym oherwydd y diffyg difrifol yn y stoc tai cymdeithasol. Adleisiodd sefydliadau rhanddeiliaid her ddirifol tangyflenwad i weithredu Ailgartrefu Cyflym, gydag un yn dadlau “mae'n debyg nad oes amser anoddach na nawr i geisio gwneud Ailgartrefu Cyflym, oherwydd COVID-19, y farchnad dai, a'r niferoedd sydd gennym mewn llety dros

dro". Ailadroddwyd bod Ailgartrefu Cyflym yn gyfle hollbwysig i adeiladu ar y cydweithio rhwng LCCiaid ac awdurdodau lleol i gael "pawb i mewn"⁵¹ yn ystod y pandemig, "yn hytrach na dim ond dychwelyd i'r sefyllfa oedd gennym o'r blaen". Nododd sefydliadau rhanddeiliaid bryderon hefyd ynghylch diffyg cysondeb rhwng awdurdodau lleol gyda datblygu a gweithredu cynlluniau, a chefnogaeth wleidyddol lleol i egwyddorion Ailgartrefu Cyflym. Ategwyd hyn gan leiafrif bach o swyddogion awdurdodau lleol, a ddywedodd nad oes ganddynt gefnogaeth gan swyddogion etholedig lleol i gynyddu cyfran y dyraniadau i aelwydydd digartref i'r graddau gofynnol i weithredu egwyddorion Ailgartrefu Cyflym. Roedd y cyfweleion hyn o'r farn bod angen cynyddu'r dyraniadau i bobl sy'n profi digartrefedd er mwyn gweithredu dull Ailgartrefu Cyflym yn llawn, a chynlluniau cysylltiedig megis Tai yn Gyntaf.

- 5.21 Yn ogystal, nododd rhai cyfweleion heriau penodol pellach o ran gweithredu Ailgartrefu Cyflym. Dywedodd cyfweleion awdurdodau lleol y gall LCCiaid amrywio o ran mabwysiadu egwyddorion Ailgartrefu Cyflym. Dywedodd llawer o awdurdodau lleol fod LCCiaid yn gweithio mewn partneriaeth wirioneddol i gyflawni egwyddorion Ailgartrefu Cyflym a chydymffurfio â chyfradd uchel o ddyraniadau i aelwydydd digartref. Fodd bynnag, soniodd rhai awdurdodau lleol am fwy o heriau, gan nodi bod rhai LCCiaid yn parhau i ddisgwyl enwebiadau "parod am denantiaeth" - sef y bobl sydd â'r sefydlogrwydd ariannol a'r sgiliau i gynnal tenantiaeth gyda chymorth cyfyngedig. Dadleuodd LCCiaid a sefydliadau rhanddeiliaid y gallai mwy o wasanaethau cymorth i denantiaid sy'n dod i mewn o dan Ailgartrefu Cyflym atal yr heriau hyn rhag codi, gan y byddai hyn yn rhoi sicrwydd i LCCiaid bod gan bob tenant y gwasanaethau cymorth priodol i gynnal tenantiaeth tai cymdeithasol. Gallai cynnig y Papur Gwyn i osod dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i gefnogi tenant i gadw ei lety ar ôl i ddyraniad gael ei wneud newid hyn yn y dyfodol.

Newidiadau polisi lleol a ragwelir

- 5.22 Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn rhagweld newidiadau i'w polisiâu dyrannu lleol, dywedodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eu bod yn disgwyl am eglurder ynghylch cynigion y Papur Gwyn cyn gwneud newidiadau. Mewn rhai awdurdodau lleol, fodd bynnag, roedd newidiadau i bolisiâu dyrannu lleol wrthi'n cael eu trafod neu eu gweithredu. Er yn amrywio'n eang fesul ardal, roedd newidiadau'n cynnwys symud i

⁵¹ Llywodraeth Cymru, Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb COVID-19 – digartrefedd a'r rhai sy'n cysgu allan. Ar gael yn: [Datganiad Ysgrifenedig: Ymateb COVID-19 – digartrefedd a'r rhai sy'n cysgu allan \(20 Mawrth 2020\) | LLYW.CYMRU](#).

ffwrdd oddi wrth osodiadau ar sail dewis a thuag at ddyraniadau sy'n seiliedig yn uniongyrchol ar restrau aros, cryfhau'r gofynion am gysylltiadau lleol drwy symud o gofrestrau agored i gofrestrau caeedig, annog "troi" unedau llety dros dro yn llety parhaol, a chreu cynllun enwebu uniongyrchol ar gyfer ymgeiswyr digartref. Roedd awdurdodau lleol eraill yn canolbwyntio ar ymgorffori'n ffurfiol agweddau ar bolisiau brys a gyflwynwyd yn ystod pandemig COVID-19. Dywedodd rhai awdurdodau lleol y byddai eu polisi dyrannu yn alinio mwy ag egwyddorion Ailgartrefu Cyflym, megis cynyddu dyraniadau i aelwydydd digartref.

- 5.23 Dywedir bod rôl LCCiaid o ran hysbysu newidiadau mewn polisiau dyrannu lleol yn amrywio o ardal i ardal. Dywedodd rhai LCCiaid eu bod eisoes yn cymryd rhan fawr mewn datblygu polisiau dyrannu wedi'u diweddarau, tra bod eraill yn lleisio pryderon nad ymgynghorwyd yn ddigonol â nhw ar newidiadau. Ymhellach, dywedodd sefydliadau rhanddeiliaid – yn enwedig y rhai sy'n gweithio gyda phobl sydd â phrofiad personol o ddigartrefedd – mai anaml y gofynnir iddynt am eu mewnbwn pan wneir newidiadau i bolisiau dyrannu lleol. Roeddent yn galw ar awdurdodau lleol i ymgynghori ag ystod ehangach o randdeiliaid cyn ymrwymo i newidiadau polisi lleol. Roeddent eisiau i'r awdurdodau ystyried barn darparwyr cymorth a gomisiynwyd, oherwydd eu gwybodaeth arbennig am brofiad bywyd ymgeiswyr a thenantiaid.

Myfyrdodau ar uno LCCiaid

- 5.24 Bu LCCiaid ac awdurdodau lleol yn trafod yr uno landlordiaid cymdeithasol sydd yn mynd ymlaen, ac sydd ar y gweill, ledled Cymru. Pwysleisiodd y cyfweleion fod hwn yn faes ffocws perthnasol, o gofio'r effaith ar y gwasanaethau a ddarperir i denantiaid, perthnasoedd ag awdurdodau lleol, ac arfer da gweinyddol a nodwyd drwy gydol uno o'r fath.
- 5.25 Un broses gyfredol yw'r uno parhaus rhwng Linc a Phobl sydd, fel y nododd LCCiaid a holwyd, wedi'i ysgogi gan eu gweithrediadau mewn ardaloedd awdurdodau lleol tebyg. Er ei bod yn dal i fod yng nghampau cynnar yr uno, mae'r broses yn anelu at uno gwasanaethau cyn gynted â phosibl i atal cynnig lefelau gwahanol o gymorth oddi mewn i'r un rhanbarth gan yr un sefydliad trosfwaol. Mae cynlluniau'n cynnwys integreiddio systemau rheoli'n llawn i symleiddio gweithrediadau a gwella'r modd y darperir gwasanaethau fel budd uniongyrchol o'r uno.

- 5.26 Mae uno Cartrefi Dinas Casnewydd â Melin yn ddatblygiad perthnasol arall. Dywedir y bydd yr uno hwn, sydd i'w gwblhau erbyn mis Ebrill 2025, yn arwain at enw newydd i'r endid cyfun ac yn ehangu ei weithrediadau i gwmpasu pum awdurdod lleol. Disgrifiwyd yr uno fel proses integreiddio gyflawn, a oedd yn golygu bod angen uno polisïau a phrosesau a'u hysgogi drwy arbedion effeithlonrwydd ariannol a throsoli systemau TG cadarn un sefydliad. Ar hyn o bryd, esboniwyd dyraniadau fel rhai sy'n gweithio'n wahanol ar draws y ddau sefydliad, a thynnodd y cyfweleion sylw at y tasgau sy'n weddill gydag alinio systemau TG, cyllid, gwasanaeth cwsmeriaid, a threfniadau gwaith staff. Nododd sawl cyfwelai y dylid rhoi blaenoriaeth i gadw gwybodaeth leol o fewn unrhyw sefydliad newydd.
- 5.27 Bu LCCiaid eraill ac awdurdodau lleol hefyd yn trafod mwy o uno LCCiaid yn y gorffennol, a thynnwyd sylw at yr heriau o integreiddio systemau rheoli neu TG amrywiol a rhwystrau gweithredol. Yn ôl y cyfweleion, weithiau byddai uno yn arwain at i LCCiaid reoli portffolios eiddo amrywiol iawn, a allai gymhlethu safoni gwaith cynnal a chadw a chysondeb gwasanaeth.

Arfer gorau ac argymhellion

- 5.28 Gofynnwyd i gyfweleion ar draws LCCiaid, awdurdodau lleol, a sefydliadau rhanddeiliaid nodi enghreifftiau o arfer da neu arfer gorau, naill ai mewn systemau lleol presennol ledled Cymru neu du hwnt.
- 5.29 Cydweithio agos i gwrdd ag anghenion grwpiau agored i niwed: Nododd cyfweleion fod cydweithio agos rhwng gwahanol wasanaethau cefnogi, LCCiaid, a'r awdurdod lleol yn hanfodol. Ystyriwyd bod darparu gwasanaethau cymorth cadarn yn hanfodol ar gyfer tenantiaeth lwyddiannus, yn enwedig gyda datblygiadau newydd. Pwysleisiodd y cyfweleion yr angen i gael mecanweithiau ymyrraeth gynnar a gwasanaethau cymorth wedi'u teilwra i anghenion cymorth lluosog. Ymhlith yr enghreifftiau, roedd cynnwys gweithwyr cymorth yn weithredol cyn ac ar ôl dyrannu, cynnig cymorth iechyd meddwl parhaus, a chynnwys therapyddion galwedigaethol i sicrhau bod mesurau hygyrchedd digonol ar waith. Nodwyd sawl enghraifft o arfer da. Er enghraifft, trefnodd Caerffili gyfarfodydd rhwng gweithwyr cymorth pan oedd tenantiaid yn symud o lety dros dro i dai cymdeithasol, gan sicrhau parhad gofal. Cydweithiodd Sir Ddinbych yn llwyddiannus â thimau gofal cymdeithasol, gan fabwysiadu dull amlddisgyblaethol yn cynnwys cymorth defnyddio sylweddau a therapyddion galwedigaethol, a oedd o fudd i denantiaid a staff. Proffiliodd Blaenau Gwent bob eiddo i ddarparu cofrestr sy'n cynnwys union fanylion hygyrchedd a'r potensial addasu.

- 5.30 Dull sy'n ystyriol o drawma o ddyrannu tai cymdeithasol: Nododd awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid bwysigrwydd ymwybyddiaeth o'r achosion o drawma y mae ymgeiswyr yn eu hwynebu, boed yn ystod cyfnodau blaenorol eu bywydau neu yn ystod cyfnodau hir o ddigartrefedd. Felly, nodwyd bod dull sy'n ystyriol o drawma yn arfer gorau hanfodol. Mewn rhai achosion, mae LCCiaid yn prydlesu eiddo i awdurdodau lleol i gartrefu aelwyd sydd mewn llety dros dro ond, ar yr adeg briodol, caiff yr eiddo ei "droi" i fod yn denantiaeth gymdeithasol hirdymor heb i'r tenant(iaid) orfod gadael, gan atal yr angen i denantiaid symud eto ac ailsefydlu rhwydweithiau cymorth. Bu un LCC yng Nghaerdydd hefyd yn gweithio gydag ymgynghorydd sy'n ystyriol o drawma am 18 mis i wella ei ddulliau mewnol. Pwysleisiodd y cyfweleion hefyd y byddai cynnig dewis gwirioneddol i ymgeiswyr yn galluogi dull mwy ystyriol o drawma. Gellid cyflawni hyn trwy bolisïau gosod seiliedig ar ddewis, gyda'r cafeat y byddai angen i nifer cynyddol o eiddo fod ar gael i alluogi dewisiadau effeithiol. Roedd awgrym pellach yn cynnwys cynllunio eiddo tai cymdeithasol newydd mewn ffordd sy'n hwyluso newidiadau i'r cynllun llawr; er enghraifft, i gynyddu neu leihau nifer yr ystafelloedd heb fod angen i'r aelwyd ailgofrestru ar y gofrestr a symud.
- 5.31 Cefnogi grwpiau â nodweddion gwarchoddedig: Wrth drafod darpariaeth gwasanaeth i grwpiau â nodweddion gwarchoddedig, argymhellodd rhai sefydliadau gynlluniau dyrannu a thai ar wahân i rai grwpiau penodol, er mwyn cyflawni cyfraddau cynaliadwyedd tenantiaeth uwch. Roedd llwybrau a nodwyd gan gynrychiolwyr ar sut i deilwra darpariaeth i grwpiau unigol yn cynnwys opsiynau llety a rennir, gan awgrymu dau unigolyn fel tenantiaid, heb gytundeb rhentu ar y cyd. Nododd y cyfweleion ddiffyg data ar ddyraniad a chyfraddau cynaliadwyedd tenantiaeth ar gyfer grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig. Fel enghraifft o arfer da, mae'r LCC Wales & West yn cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar y cyfrannau dyraniad i grwpiau â nodweddion gwarchoddedig a pha mor dda y diwallwyd eu hanghenion.
- 5.32 Strwythurau rheoli a systemau TG: Tynnwyd sylw hefyd at welliannau i strwythurau rheoli a systemau TG. Nododd y cyfweleion systemau TG a rennir, sy'n gweithio'n dda, fel arfer gorau. Yn ôl LCCiaid, dylai systemau o'r fath ganiatáu mynediad i bob partner lleol a sawl aelod o staff, yn ogystal â chyflwyno sianeli negeseuon gwib fel Microsoft Teams i feithrin ymddiriedaeth mewn partneriaethau. Roedd nodweddion TG defnyddiol eraill a roddwyd ar waith mewn rhai ardaloedd awdurdodau lleol eisoes yn cynnwys casglu adroddiadau yn awtomatig am yr holl ymgeiswyr a

hepgorwyd, yn ogystal â'r rhesymau a gofnodwyd dros y penderfyniad.

Argymhellodd rhai cyfweleion fabwysiadu system debyg i SARTH; er enghraifft, ar draws de-ddwyrain Cymru i gyd. Gwelwyd bod gan hyn y potensial i gynyddu effeithlonrwydd, tryloywder, a meithrin ymddiriedaeth mewn partneriaethau lleol.

5.33 Nodwyd meysydd eraill o arfer gorau fel a ganlyn:

- Rhannu arfer gorau yn rhagweithiol ymhlith awdurdodau lleol, ymhlith LCCiaid, yn ogystal ag ar draws partneriaid a thrwy gynnwys sefydliadau rhanddeiliaid.
- Pwysleisiodd y cyfweleion fod Tai yn Gyntaf yn gweithio'n dda pan ddarparwyd dull sy'n ystyriol o drawma a gwasanaethau cofleidiol, gan gyflawni lefelau uchel o lwyddiant tenantiaeth.
- Cyfeiriodd nifer fach o gyfweleion hefyd at ddull a ddefnyddiwyd yn yr Alban sy'n golygu trosglwyddo manylion yr ymgeisydd i LCCiaid er mwyn iddynt nodi eiddo addas yn uniongyrchol.
- Pwysleisiodd un sefydliad rhanddeiliaid y dylid ymgynghori'n barhaus â thenantiaid yn achos unrhyw ymchwil neu newidiadau polisi. Byddai hyn yn galluogi cael golwg fwy cyfannol o anghenion a dewisiadau wrth symud ymlaen.
- Argymhellwyd hefyd y dylid parhau a chryfhau cynlluniau Llywodraeth Cymru (e.e. y Rhaglen Cyllido Cyfalaf Llety Trosiannol a'r Cynllun Grant Tai Gwag) sy'n cefnogi troi tai gwag yn dai cymdeithasol.
- Ystyriwyd bod potensial i'r dyfodol o annog cydweithio uniongyrchol rhwng awdurdodau lleol, LCCiaid, a landlordiaid preifat. Gallai ehangu cynllun Cynllun Prydlesu Cymru ddenu mwy o landlordiaid preifat i'r sector.

5.34 Mae cyfle pellach i ymchwilio i dai cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys dadansoddiad cymharol rhwng awdurdodau lleol sydd â chyfraddau twf uwch ac is yn y galw am dai cymdeithasol (fel y nodir yn nifer yr aelwydydd ar y gofrestr tai), i ddeall ysgogwyr posibl i'r cynnydd hwn, a sut y gallai newid yn y dyfodol. Gallai ysgogwyr posibl gynnwys (i) mudo o fewn Cymru o ardaloedd gwledig i ardaloedd trefol oherwydd ffactorau economaidd megis cyflogaeth, neu (ii) newidiadau yn nifer y ceiswyr lloches oherwydd gwrthdaro allanol, megis y rhai sydd wedi'u dadleoli o'r Wcráin. Yn ogystal, gellid gwneud dadansoddiad pellach o newidiadau i stoc a sut mae hyn yn effeithio ar gyfraddau dyrannu, gan gynnwys trosiant, cyfraddau swyddi gwag, ac adeiladu stoc newydd.

6. Heriau a chyfleoedd ansawdd data

Defnyddio data wrth wneud penderfyniadau

- 6.1 Roedd awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio data i lywio penderfyniadau ar ddyraniadau tai cymdeithasol a datblygu eiddo newydd. Yn ôl y cyfweleion, mae polisïau dyrannu yn cael eu llywio'n bennaf gan gyfuniad o ddyletswyddau cyfreithiol, y data ar amseroedd aros i wahanol grwpiau, a blaenoriaethau gwleidyddol. Y math o ddata a ddefnyddiwyd amlaf i lywio polisïau dyrannu oedd adroddiadau data yn defnyddio Cofrestrau Tai Cyffredin. Dadleuodd rhai awdurdodau lleol a LCCiaid y gellid cryfhau'r defnydd o ddata wrth benderfynu ar bolisïau dyrannu ar lefel leol a chenedlaethol.
- 6.2 Dywedodd y cyfweleion fod cynlluniau ar gyfer datblygiadau tai yn y dyfodol, gan gynnwys datblygu tai cymdeithasol, yn cael eu llywio'n bennaf gan Aseidiadau o'r Farchnad Dai Leol (LHMAs) a'u hadlewyrchu mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI). Nodwyd enghraifft o arfer da mewn rhai awdurdodau lleol, megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,⁵² sydd wedi creu 'prosbectws' wedi'i dargedu ar LCCiaid. Bwriad dogfennau o'r fath yw rhannu gwybodaeth am y galw am ddatblygiadau tai cymdeithasol yn ôl ardal, maint eiddo, a math o eiddo, wedi'i llywio gan ddata meintiol o'r gofrestr tai, data digartrefedd, ac AMTLI.
- 6.3 Galwodd y cyfweleion oedd yn cynrychioli sefydliadau rhanddeiliaid o'r sector tai ehangach am fwy o driongli o'r data meintiol ar ddigartrefedd, Cofrestrau Tai Cyffredin, a'r farchnad dai i lywio cynlluniau datblygu a pholisïau dyrannu. Yn ogystal, galwodd y cyfweleion am ddefnyddio data mwy ansoddol wrth ddatblygu polisïau dyrannu er mwyn sicrhau bod safbwynt ymgeiswyr a thenantiaid yn cael ei ymgorffori. Roedd y cyfweleion yn disgwyl y byddai hyn yn hwyluso dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth wneud dyraniadau.

Heriau wrth gasglu a rhannu data

- 6.4 Mae rhannu data yn effeithiol yn agwedd hollbwysig arall ar y berthynas rhwng awdurdodau lleol a LCCiaid. Esboniodd y cyfweleion y gellir defnyddio data i nodi meysydd galw uchel a llywio'r gymysgedd o ddatblygiadau newydd (e.e., maint yr eiddo y mae'r galw mwyaf amdano). Nododd sawl cyfwelai systemau casglu data arloesol ar gyfer data digartrefedd, cofrestrau tai, maint tai, trosglwyddiadau rheolaeth, ac anghenion cymorth mewn llety dros dro. Nododd rhai sefydliadau

⁵² Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (2023), 'Prosbectws Tai Lleol'. Ar gael yn: [Prosbectws Tai Lleol Conwy - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy](#)

digartrefedd hefyd eu bod yn casglu data ychwanegol ar unigolion a'u teithiau.

Eglurodd LCCiaid eu bod yn casglu symiau amrywiol o ddata, ac mae lefel y rhannu data gydag awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr, o ddim o gwbl i gynhwysfawr. Mae enghreifftiau o ddata a rennir yn cynnwys taflwybrau symud ymlaen, trosolygon amser aros, a rhaglennu cyfrifianellau rhestri aros i ymgeiswyr y dyfodol fel arwydd bras. Yn ogystal, cesglir data tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant a metrigau boddhad mewn rhai achosion. Pryder mwyaf y LCCiaid yw dim digon o rannu gwybodaeth risg a data am hanes ymgeiswyr cyn i ddyraniadau gael eu gwneud.

- 6.5 Trwy'r ymarfer casglu data, cafwyd cyfraddau cwblhau uchel o ddata ar y gofrestr tai a dyraniadau, gyda bron i 100% o'r sampl yn darparu ffigurau cyfanredol am nifer yr aelwydydd ar y gofrestr tai a chyfanswm nifer y dyraniadau. Prin iawn yw'r data ar gynigion ac enwebiadau - darparodd tua hanner y sampl (8 awdurdod lleol) ddata cynigion, ond dim ond un a ddarparodd wybodaeth am enwebiadau er i awdurdodau lleol eraill nodi bod ganddynt gytundebau enwebu gyda LCCiaid. Sylwch mai cafeat allweddol gyda'r ymarfer casglu data hwn yw bod yr holl ddadansoddiadau yn seiliedig ar ddata gweinyddol gan awdurdodau lleol. Mae natur gynhenid data gweinyddol yn golygu y bydd amrywiadau yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn prosesu, rheoli a diweddarau'r data hwn. Mae hyn yn debygol o newid ansawdd data a dehongliad rhwng yr awdurdodau lleol, sy'n ailadrodd ymhellach pam yr argymhellir gwella'r prosesau a'r systemau rheoli hyn.
- 6.6 Er ei bod yn ymddangos bod data tai cymdeithasol yn gymharol hygyrch i awdurdodau lleol ar y lefel gyfanredol o safbwynt y gofrestr tai a dyraniadau, mae heriau mawr yn codi wrth geisio dadansoddi data yn ôl unrhyw nodweddion aelwydydd. Dywedodd llawer o awdurdodau lleol y byddai hyn yn gofyn am adolygiad â llaw o geisiadau. Nid oedd rhai awdurdodau lleol yn gallu gwneud hynny, ond yr oedd eraill yn nodi eu bod yn anfodlon gwneud adolygiad â llaw oherwydd cyfyngiadau amser ac adnoddau. Yn ogystal, mae data'n aml yn gyfyngedig i'r prif ymgeisydd, sy'n golygu nad yw nodweddion demograffig-gymdeithasol aelodau'r cartref yn cael eu dal, sy'n arwain at ddata â gogwydd - er enghraifft, gor-gynrychiolaeth o nodweddion penodol sy'n fwy tebygol o fod y prif ymgeisydd (e.e., menywod). Mae anghysondebau hefyd rhwng yr hyn sy'n cael ei gasglu a'r hyn na chaiff ei gasglu o ran data cymdeithasol-ddemograffig ar draws awdurdodau lleol; er enghraifft, nid yw pob awdurdod lleol yn holi am rywioldeb neu gyflogaeth. Lle mae data'n cael ei gasglu ond nad yw'n orfodol, mae llawer o ymgeiswyr naill ai'n optio allan neu'n rhoi "gwell gennyf beidio â dweud", gan arwain

at fylchau pellach o fanylion demograffig-gymdeithasol ar ymgeiswyr tai cymdeithasol. Nid yw awdurdodau lleol ychwaith yn gallu darparu data hanesyddol ar y gofrestr tai neu ddyraniadau, a dim ond “ciplun” a geir o'r gronfa ddata fel y mae ar hyn o bryd. Felly, dim ond os tynnwyd ciplun o'r gronfa ddata ar gyfnod penodol y gellir darparu data hanesyddol.

Cyfleoedd i fynd i'r afael â phryderon a bylchau ansawdd data

6.7 Mae arferion casglu data safonol a dull mwy integredig o reoli data ar draws awdurdodau lleol a LCCiaid yn hanfodol i wella'r broses o wneud penderfyniadau a dealltwriaeth gyffredinol o'r galw am dai cymdeithasol. Mae cyfleoedd i wella arferion data yn cynnwys:

- Safoni casglu data: Sefydlu canllawiau unffurf ar gyfer casglu ac adrodd ar nodweddion demograffig-gymdeithasol i sicrhau nad oes anghysondebau ar draws awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai. Mae hyn yn cynnwys elfennau ymarferol yn ymwneud â data.
- Trosoledd gwell systemau rheoli cronfeydd data: Gwella defnyddioldeb y data sydd ar gael, buddsoddi mewn systemau rheoli gwell lle gellid tynnu data yn awtomatig i ddadansoddi is-grwpiau, anghenion neu gyfnodau penodol o amser.
- Gwell mecanweithiau rhannu data: Datblygu protocolau rhannu data mwy effeithiol rhwng awdurdodau lleol a LCCiaid i sicrhau bod gwybodaeth allweddol am ymgeiswyr, gan gynnwys hanes a phroffiliau risg, yn cael ei defnyddio'n effeithiol yn ystod y broses ddyrannu.
- Arferion data tryloyw: Mae tryloywder mewn arferion casglu a rheoli data yn allweddol i sicrhau ymddiriedaeth rhwng yr holl randdeiliaid, ymgeiswyr a'r cyhoedd yn ehangach ac ennyn hyder bod penderfyniadau tai yn cael eu gwneud yn ddibynadwy ac yn gynhwysfawr.

7. Casgliadau

- 7.1 Mae'r adroddiad hwn wedi archwilio sut y gwneir dyraniadau tai cymdeithasol ledled Cymru trwy ddefnyddio dull ymchwil dulliau cymysg. Roedd yn cynnwys ymarfer casglu data sylfaenol gydag awdurdodau lleol ynghylch eu cofrestrau tai, enwebiadau, dyraniadau, a chynigion i ymgeiswyr tai cymdeithasol. Roedd hefyd yn cynnwys cyfweiliadau ansoddol manwl gyda holl awdurdodau lleol Cymru, 17 LCC, a 10 sefydliad rhanddeiliaid.
- 7.2 Canfu ein casgliad data meintiol fod y galw am dai cymdeithasol wedi cynyddu 16% ers 2022/2023. Mae'r cynnydd hwn yn arbennig o amlwg mewn awdurdodau lleol sy'n dal stoc ac mewn awdurdodau lleol gwledig⁵³. Mae'r galw cynyddol wedi arwain at amseroedd aros estynedig am dai cymdeithasol a mwy o ddibyniaeth ar lety dros dro. Roedd cyfweiliadau ag awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid yn adleisio hyn – tra hefyd yn tynnu sylw at nifer cynyddol yr ymgeiswyr ag anghenion cymorth lluosog. Disgrifiodd rhai cyfweleion sut mae amseroedd aros ar gyfer dyraniad tai cymdeithasol wedi cynyddu o ychydig wythnosau a misoedd cyn y pandemig i hyd at ddwy flynedd.
- 7.3 Canfu ein gwaith casglu data sylfaenol fod cyfraddau dyrannu yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru, sy'n awgrymu y dylid bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r data hwn. Serch hynny, dangosodd awdurdodau lleol a oedd yn dal stoc gyfraddau dyrannu uwch yn gyffredinol nag awdurdodau nad oeddent yn dal stoc. Mae cyfyngiadau ar yr holl ddadansoddi data a gasglwyd, gan gynnwys bod y data yn weinyddol a bydd yn amrywio rhwng awdurdodau lleol oherwydd y ffordd y mae data yn cael ei brosesu, ei reoli a'i ddiweddarau.
- 7.4 Nododd y cyfweleion fod prinder difrifol o stoc tai cymdeithasol, yn enwedig eiddo un ystafell wely. Canfu ein canfyddiadau meintiol fod eiddo un ystafell wely yn cyfrif am dros 50% o'r galw ar gofrestrau tai ledled Cymru, gyda'r diffyg yn fwyaf difrifol mewn rhanbarthau gwledig lle maent yn cyfrif am 59% o alw'r gofrestr tai. Dywedodd y cyfweleion fod y profiad o ddigartrefedd yn cael ei orgynrychioli ymhlith ymgeiswyr sengl, sy'n golygu bod prinder eiddo un ystafell wely yn effeithio'n ddifrifol ar bobl sy'n ddigartref. Mae hyn yn cynyddu gwariant awdurdodau lleol ar lety dros dro ac, yn ôl y sefydliadau rhanddeiliaid, mae cyfnodau hir mewn llety dros dro yn achosi llawer o straen ac yn dwysáu anghenion cymorth. Yn ogystal, mae

⁵³ StatsCymru (2008), 'Cymru wledig – diffiniadau a sut i ddewis rhyngddynt'. Ar gael yn: [Cymru wledig: diffiniadau a sut i ddewis rhwyg hwy | LLYW.CYMRU](#)

diffyg eiddo tair a phedair ystafell wely, yn enwedig mewn ardaloedd trefol lle maent yn cyfrif am 20% o'r galw, hefyd wedi arwain at orlenwi. Disgrifiodd rhai cyfweleion orboblogi mewn tai cymdeithasol fel "argyfwng cudd" a nodwyd bod y tâl tanfeddiannu yn gwaethygu gorlenwi.

- 7.5 Mae cyfyngiadau rhai mathau o stoc yn cael effaith enfawr ar y dyraniadau y gellir eu gwneud. Yn ôl rhai cyfweleion, mae diffyg stoc tai cymdeithasol, gyda phrinder difrifol o eiddo un ystafell wely ac eiddo mwy o faint, wedi arwain at system ddyrannu. Mae hyn yn golygu mai argaeledd stoc benodol sy'n pennu pryd ac a fydd pobl yn cael eiddo o restrau aros tai cymdeithasol, yn hytrach na dewisiadau rhesymol neu bolisiau dyrannu lleol. I ddyfynnu un awdurdod lleol, "mae llawer o'r ffocws ar fandio a sut olwg sydd ar yr hierarchaeth fandio, ond yr hyn sy'n gyrru dewisiadau yw pa mor hir y mae'n ei gymryd i ailgartrefu rhywun, ac mae hynny'n cael ei yrru gan argaeledd eiddo."
- 7.6 Roedd pob grŵp o gyfweleion – sef awdurdodau lleol, LCCiaid, a sefydliadau rhanddeiliaid – yn cytuno'n gryf ynghylch pwysigrwydd canolog cynnal perthnasoedd agos a chydweithredol rhwng awdurdodau lleol a LCCiaid. Mewn cyfweiliadau, yr awdurdodau lleol oedd yn gallu ymhelaethu ar y ffyrdd y maent yn blaenoriaethu a buddsoddi yn eu perthynas â LCCiaid, a oedd yn tueddu i ddweud eu bod yn wynebu llai o bwysau ar eu rhestrau aros. Roeddent hefyd yn tueddu i ddweud bod ganddynt ddyraniadau mwy amserol a chyflymach ac atebion effeithiol i argyfyngau. Roedd yr adroddiad hwn felly yn cynnwys arferion gorau i gryfhau partneriaethau, gan gynnwys argymhell cynnull awdurdodau lleol i drafod eu harferion gorau o ran cryfhau partneriaethau gyda LCCiaid.
- 7.7 Roedd y cyfweleion yn cydnabod y risg y byddai LCCiaid yn gwrthod rhai ymgeiswyr yn afresymol (cyfeirir at hyn weithiau fel "dewis a dethol"). Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o gyfweleion awdurdodau lleol a ddisgrifiodd hyn fel her yn eu hawdurdod, a nododd rhai awdurdodau lleol yn benodol nad oedd unrhyw hanes o "ddewis a dethol" yn digwydd yn eu hardal. Nodwyd amrywiad lleol mawr yn y graddau o fanylion sydd eu hangen ar awdurdodau lleol i gyfiawnhau osgoi. Argymhellodd yr adroddiad felly ymdrechion i gryfhau cysondeb wrth gofnodi'r ymgeiswyr a wrthodwyd, gan gynnwys adrodd yn fwy systematig ar y rhesymau dros wrthod, a chynnal adolygiadau annibynnol o ymgeiswyr a gafodd eu hepgor. Canfu'r cyfweiliadau hefyd fod LCCiaid a rhai awdurdodau lleol yn pryderu am y diffyg gwasanaethau cymorth a gynigir gan awdurdodau lleol i gynnal tenantiaethau, yn enwedig o gofio bod swyddogion tai wedi nodi anghenion cymorth mwy dwys

gan ymgeiswyr ers y pandemig. Mae diffyg gwasanaethau cymorth yn gwneud i rai LCCiaid fod yn fwy gofalus ynghylch dyrannu pobl ag anghenion cymorth lluosog i mewn i un gymuned. Dywedwyd y gallai hyn gael ei ystyried yn "ddewis a dethol" gan awdurdodau lleol.

- 7.8 Canfu'r adolygiad hefyd fod casglu, rhannu a rheoli data anghyson rhwng awdurdodau lleol a LCCiaid yn rhwystro arfer gorau a gwneud penderfyniadau effeithiol. Mae bylchau mawr yn y data o ran y wybodaeth sydd ar gael am nodweddion cymdeithasol-ddemograffig aelwydydd, neu'r gallu i adolygu data hanesyddol. Gellir gwneud gwelliannau trwy safoni casglu data, gwell rheolaeth ar gronfeydd data, a gwell mecanweithiau rhannu data.

8. Atodiad A: Trosolwg o ymgysylltu â rhanddeiliaid

Math o randdeiliad	Rôl
Llywodraeth Cymru (Cwmpasu) ⁵⁴	Rheolwr Perthynas
Llywodraeth Cymru (Cwmpasu)	Rheolwr Perthynas
Llywodraeth Cymru (Cwmpasu)	Rheolwr Perthynas
Llywodraeth Cymru (Cwmpasu)	Rheolwr Perthynas
Sefydliad Rhanddeiliad (Cwmpasu)	Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC)
Rhanddeiliad (Cwmpasu)	Bec Woolley, ymgynghorydd annibynnol ⁵⁵
Awdurdod lleol	Ynys Môn
Awdurdod lleol	Blaenau Gwent
Awdurdod lleol	Pen-y-bont ar Ogwr
Awdurdod lleol	Caerffili
Awdurdod lleol	Caerdydd
Awdurdod lleol	Sir Gaerfyrddin
Awdurdod lleol	Ceredigion
Awdurdod lleol	Conwy
Awdurdod lleol	Sir Ddinbych
Awdurdod lleol	Sir y Fflint
Awdurdod lleol	Merthyr Tudful
Awdurdod lleol	Sir Fynwy
Awdurdod lleol	Gwynedd
Awdurdod lleol	Casnewydd
Awdurdod lleol	Sir Benfro
Awdurdod lleol	Castell-nedd Port Talbot
Awdurdod lleol	Powys
Awdurdod lleol	Abertawe
Awdurdod lleol	Rhondda Cynon Taf
Awdurdod lleol	Torfaen
Awdurdod lleol	Bro Morgannwg
Awdurdod lleol	Wrecsam

⁵⁴ Defnyddiwyd cyfweiliadau cwmpasu i nodi blaenoriaethau ymchwil a sefydlu dealltwriaeth o'r sector. Ni chafodd cyfweiliadau cwmpasu eu dadansoddi'n thematig, yn wahanol i gyfweiliadau rhanddeiliaid eraill.

⁵⁵ Bec Woolley (2023), 'Dyraniadau: Deall mwy, yng nghyd-destun digartrefedd yng Nghymru'. Ar gael yn: [Papwr Gwyn ar roi diwedd ar ddiartrefedd yng Nghymru | LLYW.CYMRU](#).

YN SWYDDOGOL SENSITIF

LCC	Barcud
LCC	Bron Afon
LCC	Cymdeithas Tai Cadwyn
LCC	Cartrefi Conwy
LCC	Coastal Housing
LCC	Grŵp Cynefin
LCC	Hafod
LCC	Linc Cymru
LCC	Cartrefi Melin
LCC	Cymdeithas Tai Sir Fynwy
LCC	Cartrefi Dinas Casnewydd
LCC	Cymdeithas Tai Newydd
LCC	Tai Gogledd Cymru
LCC	Pobl
LCC	Tai Tarian
LCC	United Welsh
LCC	Tai Wales and West
Sefydliad rhanddeiliaid	Cartrefi Cymunedol Cymru
Sefydliad rhanddeiliaid	Crisis Cymru
Sefydliad rhanddeiliaid	Cymorth Cymru
Sefydliad rhanddeiliaid	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Sefydliad rhanddeiliaid	Llamau / End Youth Homelessness Cymru
Sefydliad rhanddeiliaid	Cymdeithas Genedlaethol Landlordiaid Preswyl Cymru
Sefydliad rhanddeiliaid	Shelter Cymru
Sefydliad rhanddeiliaid	Tai Pawb
Sefydliad rhanddeiliaid	TPAS Cymru
Sefydliad rhanddeiliaid	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Atodiad B: Canllaw trafod awdurdod lleol

I ddechrau:

1. I ddechrau, a allech chi ddisgrifio mewn ychydig eiriau eich rôl a'ch gweithgareddau o ddydd i ddydd yn eich awdurdod lleol?
 - Cwestiwn trafod: Gyda pha dimau eraill o fewn yr ALI ydych chi'n gweithio'n agos â nhw ar ddyraniadau?

Systemau dyrannu mewn awdurdodau lleol

2. I ba raddau y mae eich awdurdod lleol ar hyn o bryd yn gallu diwallu anghenion grwpiau â dewisiadau rhesymol sy'n ymgeisio am dai cymdeithasol (e.e. y rhai sy'n ddigartref, neu mewn perygl o fod yn ddigartref, gweithwyr allweddol, pobl sengl, teuluoedd, ac ati)?
 - Cwestiwn trafod: A oes unrhyw rwystrau i aelwydydd digartref ac aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd gael mynediad at dai cymdeithasol?
 - Cwestiwn trafod: A ydych chi'n gwybod faint o bobl sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd, faint o'r rheini sy'n profi digartrefedd, a faint nad ydynt o bosibl angen tai o gwbl?
 - Cwestiwn trafod: Beth yw'r amser aros cyfartalog i bobl ar y Gofrestr Tai Cyffredin (neu gyfwerth)? Sut mae'r amser aros yn amrywio rhwng gwahanol grwpiau o bobl (e.e. sengl o gymharu â theuluoedd)?
 - [Os ydych yn cyfeirio at ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ôl-ddyledion rhent] Cwestiwn trafod: Sut mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â'r heriau gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac/neu ôl-ddyledion rhent?
 - Cwestiwn trafod: A ydych chi'n cydweithio â gwasanaethau digartrefedd ar ddyraniadau tai cymdeithasol yn [awdurdod lleol]?
 - Cwestiwn trafod: A oes gennych chi syniad p'un a all eich awdurdod lleol ddiwallu anghenion y rhai sydd ag anghenion ychwanegol neu gymhleth? A ydych chi'n gweithio gyda gwasanaethau eraill yn eich awdurdod lleol i sicrhau bod cymorth yn cael ei alinio â llety? (e.e. gyda gwasanaethau cymdeithasol, timau iechyd meddwl, ac ati)
3. Sut mae'r stoc tai cymdeithasol sydd ar gael yn cymharu ag anghenion tai presennol yn [awdurdod lleol]?
 - Cwestiwn trafod: A yw hyn yn amrywio yn ôl y math o lety neu eiddo?
 - Cwestiwn trafod: A yw'n dibynnu ar gyfansoddiad/maint neu nodweddion y cartref?
 - Cwestiwn trafod: A allech chi ddweud ychydig mwy wrthym am y stoc dai sydd gennych fel awdurdod lleol?
 - Cwestiwn trafod: Sut mae nifer a math y stoc dai sydd gennych yn dylanwadu ar eich gallu i wneud dyraniadau?

4. Pa grwpiau neu amodau sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd fel blaenoriaeth ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol yn [awdurdod lleol]? (e.e. cysylltiad lleol)
 - Cwestiwn trafod: A allech chi ddweud wrthym ba ddata sy'n llywio eich penderfyniadau ar ddyraniadau ar hyn o bryd?
 - Cwestiwn trafod: [Os nad oes Cofrestr Tai Cyffredin] Sut mae blaenoriaethu a dyrannu yn gweithio, o gofio eich bod yn gweithio mewn ffordd wahanol i awdurdodau lleol sydd â Chofrestr Tai Cyffredin?
 - [Os yw'n berthnasol] Cwestiwn trafod: Sut mae rhestr y Gofrestr Tai Cyffredin yn cael ei rheoli'n ymarferol? A yw'n gyfredol, sut mae'n cael ei glanhau, pwy ddylai gael eu cynnwys / tynnu oddi arni?
 - Cwestiwn trafod: Faint o ddewis a roddir i ddarpar denantiaid o fewn yr awdurdodau lleol yr ydych yn gweithio'n agos â nhw?
 - [Os yw'n rhan o SARTH] A allech chi ddweud mwy wrthym am sut mae eich system leol yn gweithio fel rhan o bartneriaeth SARTH?
5. Sut ydych chi'n cydweithio â'r LCCiaid priodol yn eich awdurdod lleol?
 - Cwestiwn trafod: Gyda pha LCCiaid ydych chi'n gweithio? Sut byddech chi'n disgrifio'ch perthynas â phob un ohonyn nhw mewn ychydig eiriau?
 - Cwestiwn trafod: Sut mae LCCiaid yn cyrchu enwebiadau?
 - Cwestiwn trafod: A ydych yn cael gwybod pam bod LCCiaid efallai'n gwrthod unigolion? Oes rhaid iddyn nhw roi rheswm?
 - Cwestiwn trafod: A oes proses yn ei lle ar hyn o bryd rhyngoch chi a LCCiaid i drafod achosion unigol a pham y gwrthodwyd dyrannu?
 - Cwestiwn trafod: A yw'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd enwebu a'r dyraniad yn amrywio ar draws LCCiaid yn eich ALI?
 - Cwestiwn trafod: A allech chi ddweud mwy wrthym i ba raddau y mae LCCiaid yn derbyn enwebiadau ac achosion eraill lle nad ydynt efallai'n eu derbyn?
6. [Os yw'n berthnasol] A allech chi roi trosolwg i mi o'ch cynnydd gydag Ailgartrefu Cyflym hyd yma? Sut mae/fydd casglu data yn wahanol o dan Ailgartrefu Cyflym, o'i gymharu â chynt?
 - Cwestiwn trafod: A yw'r newid i Ailgartrefu Cyflym wedi newid y ffordd yr ydych yn dyrannu eiddo? A yw LCCiaid yn ymgysylltu ac yn deall Ailgartrefu Cyflym a'i nodau?
7. A oes unrhyw newidiadau polisi dyrannu tai cymdeithasol ar y gweill yn [awdurdod lleol]?
 - Cwestiwn trafod: Sut mae penderfyniadau strategol yn cael eu gwneud, yn enwedig o ran y cydweddu neu anghydweddu rhwng yr angen presennol am dai a'r stoc sydd ar gael?

YN SWYDDOGOL SENSITIF

- Cwestiwn trafod: Sut mae hyn yn effeithio ar adeiladu a/neu gaffael eiddo newydd gan yr awdurdod lleol neu landlordiaid cymdeithasol?

Cwestiynau cyffredinol

8. I ba raddau y mae'r system ddyrannu bresennol yn gweithio'n dda i chi?
Cwestiwn trafod: I ba grwpiau y mae'r system ddyrannu yn gweithio'n dda ar hyn o bryd?
9. Pa rannau o'r system ddyrannu bresennol sy'n cyflwyno heriau i chi, LCCiaid, neu denantiaid?
 - Cwestiwn trafod: Pa gam o'r broses ddyrannu sydd fwyaf tebygol o wynebu heriau o fewn eich ALI?
 - Cwestiwn trafod: Pa rwystrau sy'n debygol o fod o ran ansawdd ac argaeledd dyraniadau tai cymdeithasol?
 - Cwestiwn trafod: Pa ddulliau sy'n cael eu cymryd i ystyriaeth ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth?
 - [Os yw'n berthnasol] Cwestiwn trafod: I ba raddau mae natur wledig yn cyflwyno her ychwanegol i'ch system?
 - Cwestiwn trafod: A oes unrhyw dagfeydd eraill yn eich ALI nad ydym wedi'u trafod eto?
 - Cwestiwn trafod: A ydych chi'n rhagweld unrhyw heriau eraill yn y dyfodol?
10. A oes unrhyw wersi defnyddiol yr hoffech eu rhannu o fewn eich awdurdod lleol wrth geisio cefnogi tenantiaethau cynaliadwy ar gyfer pob math o aelwyd?

Templed casglu data

11. A fydd hi'n bosibl i chi roi'r (rhan fwyaf o'r) data i ni?
12. A oes gennych unrhyw gwestiynau am y templed?
Cwestiwn trafod: A hoffech chi drefnu galwad arall i drafod y templed casglu data yn fanylach neu a oes unrhyw beth arall y gallwn eich cefnogi yn y broses o'i lenwi?
13. Beth yw'r heriau allweddol y mae eich awdurdod lleol yn eu hwynebu wrth gasglu data a phrosesu data i fformat addas?
14. A oes unrhyw ddata ychwanegol y byddech yn argymhell y dylem eu trafod â LCCiaid?

Ôl-drafodaeth

15. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu trafod nad ydym wedi eich holi amdanynt?
16. A fyddai'n bosibl i chi ein rhoi mewn cysylltiad â LCC(iaid) yn eich awdurdod lleol? O ystyried pryderon GDPR, byddai'n werthfawr iawn pe gallech wirio a fyddent yn fodlon i'w manylion cyswllt gael eu trosglwyddo i ni ac a allwn gysylltu â nhw am gyfweliad.

Atodiad C: Canllaw trafod LCC

I ddechrau:

1. I ddechrau, a allech chi ddisgrifio mewn ychydig eiriau eich rôl a'ch gweithgareddau o ddydd i ddydd yn [enw'r LCC]?
 - Cwestiwn trafod: Gyda pha dimau eraill o fewn yr ALI ydych chi'n gweithio'n agos â nhw ar ddyraniadau?

Rôl yr LCC mewn systemau dyrannu lleol

2. A allech chi roi trosolwg i ni o'r stoc dai sydd gan eich LCC? Sut mae hyn yn cymharu â'r ALI ehangach (ALI ei hun a/neu LCCiaid eraill)?
 - Cwestiwn trafod: Sut mae ansawdd eich eiddo yn cymharu â stoc y LCCiaid eraill neu stoc yr ALI? A yw hyn yn dylanwadu ar p'un a yw cleientiaid yn derbyn neu'n gwrthod cynigion eiddo?
 - Cwestiwn trafod: Sut mae eich stoc sydd ar gael yn cymharu â'r galw am wahanol fathau o eiddo a lleoliadau?
 - Cwestiwn trafod: Sut mae nifer a math y stoc dai sydd gennych yn dylanwadu ar eich gallu i gynnig eiddo i wahanol grwpiau cleientiaid? (e.e. llety person sengl, teuluoedd mawr, tai hygyrch)
 - Cwestiwn trafod: A yw eich LCC yn dal ac yn rhentu eiddo i grwpiau cleientiaid penodol (e.e. anghenion meddygol, tai mawr, llety gwarchod ac ati)?
3. I ba raddau ydych chi a'r bartneriaeth leol ehangach o awdurdodau lleol a LCCiaid ar hyn o bryd yn diwallu anghenion grwpiau â dewisiadau rhesymol sy'n ymgeisio am dai cymdeithasol? Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, y rhai sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, gweithwyr allweddol, pobl sengl, teuluoedd, ac ati?
 - Cwestiwn trafod: A ydych chi'n cydweithio â gwasanaethau digartrefedd ar ddyrannu tai cymdeithasol?
 - Cwestiwn trafod: Sut ydych chi'n mynd i'r afael â'r heriau hynny gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac/neu ôl-ddyledion rhent? Sut mae hanes ôl-ddyledion rhent neu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio ar eich penderfyniad i gartrefu darpar ddeiliad contract?
 - Cwestiwn trafod: Sut ydych chi'n cwrdd ag anghenion y rhai sydd ag anghenion ychwanegol neu gymhleth? A ydych yn gweithio gyda gwasanaethau eraill yn yr awdurdod lleol i sicrhau bod cymorth yn cyd-fynd â llety? (e.e. gyda gwasanaethau cymdeithasol, timau iechyd meddwl, ac ati)
4. Sut ydych chi'n cydweithio â'r awdurdod lleol?
 - Cwestiwn trafod: Pa adrannau ydych chi'n gweithio agosaf â nhw yn yr ALI? Sut byddech chi'n disgrifio'ch perthynas mewn ychydig eiriau?
5. Sut ydych chi'n cyrchu data'r Gofrestr Tai Cyffredin a rhestrau byr, neu enwebiadau, os yw'n berthnasol?

YN SWYDDOGOL SENSITIF

- [Ble bo'n briodol] Cwestiwn trafod: A allech chi ddweud wrthym ba ddata sydd ar hyn o bryd yn llywio eich penderfyniadau ar ddyraniadau ar ôl i chi dderbyn rhestr fer neu enwebiadau gan y CHR?
 - Cwestiwn trafod: A ydych chi'n rhoi gwybod i'r ALI pam y byddwch efallai'n gwrthod unigolion neu pam fod unigolion neu aelwydydd yn cael eu hanwybyddu? A yw'r penderfyniadau ar ddethol tenantiaid yn cael eu dogfennu?
 - Cwestiwn trafod: Faint o ddewis a roddir i ddarpar denantiaid o fewn yr ALI(au) yr ydych yn gweithio'n agos â nhw?
 - Cwestiwn trafod: A oes unrhyw denantiaid yn cael eu dyrannu neu eu hailddyrannu i eiddo heb fod wedi mynd drwy'r system awdurdod lleol? (e.e. adleoli o un eiddo i un arall yn lle ei ddyrannu i rywun ar y CHR)
 - [Ble bo'n briodol] Cwestiwn trafod: Ydy'r CHR yn gyfredol?
6. I ba raddau ydych chi'n ymwneud â gwneud penderfyniadau strategol lleol neu'r posibilrwydd o ail-lunio polisi lleol?
- Cwestiwn trafod: Sut mae hyn yn effeithio ar adeiladu a/neu gaffael eiddo newydd?
 - Cwestiwn trafod: Sut mae'r berthynas rhwng y stoc dai sydd ar gael a'r angen presennol am dai yn bwydo i mewn i benderfyniadau strategol yn eich sefydliad?
 - Cwestiwn trafod: Sut mae cynllunio strategol yn amrywio yn ôl math o aelwyd neu fath o eiddo?

Casglu data

7. Pa ddata sydd gennych ar y broses ddyrannu? Pa ddata sy'n cael ei rannu ag awdurdodau lleol, pa ddata sydd ddim yn cael ei rannu?
- Cwestiwn trafod: Pa mor aml mae eich cronfa ddata fewnol yn cael ei diweddarau? Pa mor aml y rhennir data gyda'r awdurdod lleol?
 - Cwestiwn cwestiwn: A oes gennych chi fynediad at ddyraniadau neu gynigion data dros amser trwy eich system?
 - Cwestiwn trafod: A oes unrhyw ddata sydd gennych a allai ein helpu i gael gwell darlun o ddyraniadau tai cymdeithasol o safbwynt LCC? Sut y gallem ni gael hyn?
8. Beth yw'r heriau allweddol a wynebwr gan eich LCC o ran casglu, prosesu a rhannu data mewn fformat addas?

Cwestiynau cyffredinol

9. I ba raddau y mae rôl eich LCC yn y system dyraniadau lleol yn gweithio'n dda?
- Cwestiwn trafod: Ar gyfer pa grwpiau cleient y mae'r system ddyrannu yn gweithio'n dda ar hyn o bryd?
10. Pa rannau o'r system ddyraniadau bresennol sy'n peri heriau i chi, awdurdodau lleol, neu denantiaid?

YN SWYDDOGOL SENSITIF

- Cwestiwn trafod: Pa ddulliau sy'n cael eu cymryd i ystyriaeth ar gyfer unigolion ag anghenion cymhleth?
- [Os yw'n berthnasol] Cwestiwn trafod: I ba raddau mae natur wledig yn her ychwanegol i chi?
- Cwestiwn trafod: A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol i'r ffordd y mae'r system yn gweithio ar hyn o bryd?
- Cwestiwn trafod: A oes unrhyw heriau (e.e. trwy ddeddfwriaeth gyfagos) sy'n effeithio ar eich gallu i gynyddu eich stoc a'ch gallu i ddyrannu eiddo i gleientiaid sydd angen tai?
- Cwestiwn trafod: A ydych chi'n rhagweld unrhyw heriau eraill yn y dyfodol?

11. A oes unrhyw wersi defnyddiol neu unrhyw arferion gorau yr hoffech eu rhannu?

Ôl-drafodaeth

12. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu trafod nad ydym wedi eich holi amdanynt?

Atodiad D: Canllaw trafod sefydliadau rhanddeiliaid

I ddechrau

1. I ddechrau, allech chi ddisgrifio gwaith [Enw'r Sefydliad]?
 - Cwestiwn trafod: Pa sefydliadau eraill ydych chi'n gweithio'n agos â nhw?
 - Cwestiwn ymarferol: Ym mha gamau o'r broses ddyrannu ydych chi'n ymwneud fwyaf?
 - Cwestiwn trafod: Pwy mae eich mudiad yn ei gynrychioli a beth yw sefyllfa'r bobl neu'r aelodau rydych chi'n gweithio gyda nhw bob dydd?
2. A allech chi ddisgrifio mewn ychydig eiriau eich rôl a'ch gweithgareddau o ddydd i ddydd yn [Enw'r Sefydliad]?

Themâu

[Nodyn esboniadol: Gan fod y sefydliadau sydd i'w cyfweld yn amrywio, mae'r cyfweiliadau hyn angen gwyro mwy oddi wrth y canllaw trafod. Maent yn canolbwyntio ar gwestiynau ymchwil allweddol a meysydd arbenigedd pob cyfwelai, wedi'u strwythuro o amgylch chwe thema: anghenion grwpiau penodol, heriau ac arferion gorau, cyflenwad stoc a thai, prosesau dyrannu o ddydd i ddydd, prosesau dyrannu strategol, a chasglu data. Ni thrafodwyd bob thema ym mhob cyfweiliad].

Thema 1: Anghenion grwpiau penodol

3. [Os yw sefydliad yn cynrychioli grŵp penodol neu nodwedd warchoddedig] I ba raddau y mae anghenion [grŵp] yn cael eu diwallu o fewn y system tai cymdeithasol ledled Cymru?
 - Cwestiwn trafod: A yw hyn yn amrywio ar draws gwahanol gamau o'r broses ddyrannu? E.e. a oes rhwystrau gwahanol yn y camau ymgeisio, enwebu a dyrannu?
 - Cwestiwn trafod: Pa rwystrau y mae rhai grwpiau â nodweddion gwarchoddedig yn eu hwynebu yn y broses ymgeisio a dyrannu?
[Canllaw i gyfwelwyr: Mae grwpiau o ddiddordeb yn cynnwys grwpiau oedran penodol, LHDT+, lleiafrifoedd ethnig, crefydd, pobl anabl, pobl sengl yn erbyn cyplau neu deuluoedd, ac ati. Os yw cyfwelai yn cyfeirio at rai yn unig, holwch am grwpiau eraill hefyd]
 - Cwestiwn trafod: A ydych wedi nodi unrhyw effaith ychwanegol drwy groestoriad nodweddion gwarchoddedig?
 - Cwestiwn trafod: A oes enghreifftiau o arfer gorau wrth ddiwallu anghenion [grŵp] mewn rhai awdurdodau lleol yng Nghymru, neu'n rhyngwladol?
4. [Os nad yw sefydliad yn cynrychioli grŵp penodol] I ba raddau y mae anghenion tai pobl yn cael eu diwallu ar hyn o bryd gan y system dyrannu tai cymdeithasol?
 - Cwestiwn trafod: A yw anghenion pobl â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu diwallu ar hyn o bryd?
[Canllaw i gyfwelwyr: Mae grwpiau o ddiddordeb yn cynnwys grwpiau oedran penodol, LHDT+, lleiafrifoedd ethnig, crefydd, pobl anabl, gadawyr gofal ac ati]

- Cwestiwn trafod: A ydych wedi nodi unrhyw effaith ychwanegol drwy groestoriad nodweddion gwarchoddedig?
 - Cwestiwn trafod: A yw unigolion neu deuluoedd sy'n profi digartrefedd yn wynebu unrhyw heriau unigryw?
5. A oes unrhyw ffactorau eraill a allai gael effaith andwyol ar allu rhai aelwydydd i gael mynediad i dai cymdeithasol?
- [Os yw'n berthnasol] Cwestiwn trafod: A oes unrhyw ffactorau sy'n effeithio'n arbennig ar y rhai sy'n gadael gofal o ran eu hanghenion neu eu gallu i gael mynediad at dai cymdeithasol?
 - Cwestiwn trafod: Beth yw effaith natur wledig ac, yn gysylltiedig â hynny, cysylltiadau trafndiaeth?
 - Cwestiwn trafod: A ydych yn nodi unrhyw effaith o ddyraniadau yn benodol mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith?

Thema 2: Heriau ac arfer gorau

6. Beth yw'r prif heriau o fewn y system dyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru?
- Cwestiwn trafod: Beth yw canlyniadau system ddyrannu sy'n gweithredu'n wael? Mae hyn yn cynnwys canlyniadau ehangach ac anfwriadol -
 - i. I awdurdodau lleol.
 - ii. I landlordiaid cymdeithasol.
 - iii. I wasanaethau cyhoeddus ehangach.
 - Cwestiwn trafod: A ydych chi'n ymwybodol o atebion posibl i'r heriau hyn?
7. I ba raddau y mae'r system dyrannu tai cymdeithasol yn gweithio'n dda yng Nghymru? A ydych yn ymwybodol o unrhyw feysydd o arfer da yng Nghymru?
- Cwestiwn trafod: A oes unrhyw wersi i'w dysgu o gynlluniau eraill, megis y cynllun ailsefydlu i'r rhai sy'n ffoi o'r rhyfel yn yr Wcráin?
8. Beth yw'r opsiynau posibl i wella'r broses o ddyrannu eiddo i aelwydydd digartref? A ydych chi'n ymwybodol o arfer gorau o wledydd eraill neu o'r llenyddiaeth?
9. Beth yw manteision posibl gwella dyraniadau i aelwydydd digartref i awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus ehangach?

Thema 3: Stoc a chyflenwad tai

Bydd yr adran hon yn canolbwyntio'n gyntaf ar y prinder tai cymdeithasol yng Nghymru, ac yna'r effaith y mae hyn yn ei chael ar unigolion a'r farchnad ehangach, yn ogystal â ffyrdd o fynd i'r afael â phroblemau cyflenwad yng Nghymru.

10. A oes unrhyw amrywiadau yn y stoc tai cymdeithasol sydd ar gael yn ôl math neu faint o eiddo?
11. A oes amrywiadau yn argaeledd y stoc tai cymdeithasol yn ôl ffactorau eraill?
- Cwestiwn trafod: Sut byddech chi'n disgrifio'r math neu lefel o brinder tai cymdeithasol mewn ardaloedd trefol yn erbyn ardaloedd gwledig?
 - Cwestiwn trafod: A ydych chi'n ymwybodol o faterion cyflenwad eraill ar draws mathau o dai cymdeithasol, megis eiddo wedi'i addasu, eiddo ar gyfer yr henoed,

eiddo i bobl iau, neu eiddo sy'n agos at gyfleoedd cyflogaeth neu leoliadau addysg?

12. Pa effaith y mae stoc tai cymdeithasol annigonol yn ei chael ar ddyraniadau tai cymdeithasol? Pa effaith y mae hyn yn ei chael ar yr unigolion a'r aelwydydd sydd angen tai?

- Cwestiwn trafod: Pa effaith mae'r prinder presennol o dai cymdeithasol yn ei chael ar aelwydydd digartref yn arbennig?
- Cwestiwn trafod: A ydych chi'n canfod unrhyw effeithiau eraill ar wahanol grwpiau â nodweddion gwarchoddedig?

13. [Os yw'n berthnasol] A yw'r heriau sy'n wynebu eich sector yn cael unrhyw sgil-ffeithiau ar argaeledd a dyraniadau tai cymdeithasol?

- Cwestiwn trafod: Sut mae'r newidiadau mewn costau defnyddiau, Covid a digwyddiadau byd-eang, wedi effeithio ar eich gallu i adeiladu neu gynnal tai cymdeithasol?
- Cwestiwn trafod: Sut mae canfyddiadau gwleidyddol a chymdeithasol neu stigma yn effeithio ar y ddarpariaeth o dai cymdeithasol sydd ar gael o fewn datblygiadau newydd?

14. Pa effaith y mae diffyg stoc tai cymdeithasol yn ei chael ar y farchnad dai ehangach, os o gwbl?

- Cwestiwn trafod: [Os yw'n berthnasol] A yw nifer annigonol o dai cymdeithasol yn cael effaith ar y Sector Rhentu Preifat?
- Cwestiwn trafod: [Os yw'n berthnasol] A yw nifer annigonol o dai cymdeithasol yn cael effaith ar ddatblygu tai sector preifat newydd?

15. Sut y gellid cynyddu'r stoc tai cymdeithasol yng Nghymru, yn enwedig i fynd i'r afael â'r hyn sydd wedi'i ddisgrifio fel "diffyg stoc difrifol" ar draws ardaloedd awdurdodau lleol?

- Cwestiwn trafod: Mewn achosion lle nad yw'r mesurau hyn wedi'u gweithredu, beth yw'r rhwystrau sy'n atal hyn? A yw canfyddiadau cymdeithasol neu bwysau gwleidyddol yn effeithio ar y potensial i gynyddu'r stoc tai cymdeithasol mewn rhai lleoliadau daearyddol?
- Cwestiwn trafod: A oes enghreifftiau o rannau o Gymru lle cafwyd llwyddiannau o ran cynyddu'r stoc tai cymdeithasol? Os felly, sut llwyddwyd i wneud hyn?
- Cwestiwn trafod: A fydddech chi'n dweud bod manau twristaidd neu ardaloedd gyda pherchnogaeth ail gartrefi mawr yn cael effaith ar gynyddu'r ddarpariaeth tai cymdeithasol?

Thema 4: Prosesau dyrannu o ddydd-i-ddydd

16. A ydych chi'n clywed yn uniongyrchol gan bobl sy'n gwneud cais am dŷ cymdeithasol? [Os ydych:] Sut maen nhw'n disgrifio'r profiad?

- Cwestiwn trafod: A fyddwch chi'n clywed gan unigolion sydd wedi aros am amser hir mewn bandiau blaenoriaeth ac yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu'n aml gan landlordiaid cymdeithasol?
 - i. Beth yw effaith hyn?

- ii. A yw hyn yn effeithio ar unrhyw nodweddion gwarchoddedig yn fwy nag eraill?
 - iii. Pa gyfathrebiad mae pobl yn ei dderbyn yn ystod y cyfnod aros dan sylw? A ydynt yn cael gwybod am yr amser aros posibl, neu ble maent ar y rhestr?
 - iv. Sut mae "hepgor" eu ceisiadau ar y gofrestr tai yn cael eu cyfleu iddynt?
- Cwestiwn trafod: A fyddwch chi'n clywed gan unigolion sydd wedi'u henwebu gan eu hawdurdod lleol ond a wrthodwyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig?
 - i. Beth yw effaith hyn? A ydynt yn cael eu hysbysu o'r rhesymau y tu ôl i'r gwrthodiad?
 - ii. A yw hyn yn effeithio ar unrhyw grwpiau â nodweddion gwarchoddedig yn fwy nag eraill?
 - Cwestiwn trafod: A ydych chi'n clywed awgrymiadau i wella'r dyraniad o dai cymdeithasol - neu enghreifftiau o arfer gorau - gan unigolion sydd â phrofiad uniongyrchol o ddyraniadau tai cymdeithasol? Os felly, a allech chi rannu rhai o'r rhain?
17. A fyddwch chi'n clywed gan unigolion sydd wedi'u henwebu am ddyraniad, ond wedyn sydd wedi gwrthod yr eiddo a gynigiwyd iddynt?
- Cwestiwn trafod: A yw dyraniadau llety yn 'gynigion addas' yn seiliedig ar anghenion unigol a dewisiadau cofrestredig?
 - Cwestiwn trafod: Ar ba sail mae pobl yn gwrthod eiddo?
 - Cwestiwn trafod: A yw hyn yn effeithio ar unrhyw grwpiau â nodweddion gwarchoddedig yn benodol?
 - Cwestiwn trafod: A ydych chi'n clywed gan ymgeiswyr sy'n poeni am gael eu dadflaenoriaethu ar y rhestr aros, ar ôl gwrthod eiddo?
18. [Gofynnwch i wasanaethau digartrefedd] Sut ydych chi'n cydweithio â darparwyr gwasanaethau eraill (elusennau, awdurdodau lleol, LCCiaid, Llywodraeth Cymru) i rannu gwybodaeth, arferion gorau a data? Sut mae hyn yn gwella canlyniadau i unigolion a chymunedau?

Thema 5: Agwedd strategol at ddyraniadau

19. Pa rôl y mae eich sefydliad yn ei chwarae wrth lywio polisiau dyrannu tai cymdeithasol gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru (e.e. polisi dyrannu lleol neu gyffredin)? A oes gennych unrhyw sylwadau ar y broses hon?
20. A ydych yn sylwi ar unrhyw wahaniaethau yn yr arferion dyrannu rhwng awdurdodau dal stoc ac awdurdodau nad ydynt yn dal stoc?
21. Beth yw eich barn am effeithiau cynnar a thebygol Ailgartrefu Cyflym ar ddyraniadau tai cymdeithasol yng Nghymru?
22. [Yn amodol ar yr ymateb i gwestiwn Ailgartrefu Cyflym] Mae rhai awdurdodau lleol wedi creu bandiau blaenoriaeth ar gyfer pobl sy'n ddigartref ar hyn o bryd. Beth yw eich barn ar y blaenoriaethu hwn?
- Cwestiwn trafod: A ydych yn ymwybodol o unrhyw ganlyniadau anfwriadol cynnwys pobl sy'n profi digartrefedd ar hyn o bryd mewn band blaenoriaeth?
 - Cwestiwn trafod: A oes unrhyw fesurau lliniaru ar gael ar gyfer y canlyniadau a nodwyd?

23. Beth yw rôl bresennol y Sector Rhentu Preifat o ran lliniaru digartrefedd? A allai fod mwy o gydweithio rhwng awdurdodau lleol a'r Sector Rhentu Preifat (PRS) – a sut y gellid cyflawni hyn?

- Cwestiwn trafod: A oes enghreifftiau o arfer gorau o gydweithio rhwng y PRS ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru neu'n rhyngwladol?

24. A oes unrhyw ddulliau strategol eraill o ymdrin â pholisïau dyrannu yr hoffech eu nodi?

Thema 6: Data

25. A oes gennych unrhyw ddata ar ddyraniadau tai cymdeithasol – os felly, a allech chi ddisgrifio'r data hwn?

- Cwestiwn trafod: Er enghraifft, data meintiol neu ansoddol ar yr amser a gymerir i wneud cynigion i grwpiau penodol, y mathau o dai a gynigir, cyfraddau derbyn cynigion, a boddhad â thenantiaethau.
- Cwestiwn trafod: A fydddech chi'n gallu rhannu hwn at ddibenion yr ymchwil hwn?

26. Pa ddata ychwanegol y dylid ei gasglu a/neu ei goladu gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, neu randdeiliaid eraill?

Ôl-drafodaeth

27. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu trafod nad ydym wedi eich holi amdanynt?

Atodiad E: Templed casglu data

8.1 Anfonwyd templed casglu data at bob awdurdod lleol. Roedd tudalen gyntaf hon yn cynnwys y canlynol:

Beth yw hwn?

Offeryn yw'r daenlen hon i helpu i goladu data ar ddyraniadau tai cymdeithasol ar draws Awdurdodau Lleol. Mae Alma Economics wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal ymchwil i sut mae tai cymdeithasol yn cael eu dyrannu ledled Cymru. Gwerthfawrogir eich amser a'ch mewnbwn yn fawr!

Sut mae'n gweithio?

Mae pob dalen yn y daenlen hon yn cyfeirio at "gam" gwahanol lle mae angen llenwi gwahanol fathau o wybodaeth. Ceir trosolwg o bob cam isod:

- Cam 1. Manylion yr Awdurdod Lleol: Bydd y cam hwn yn gofyn i chi lenwi rhai manylion am sut mae dyraniadau tai cymdeithasol yn gweithredu o fewn eich awdurdod lleol. Rydym hefyd yn gofyn am enw pwy sy'n llenwi'r templed hwn.
- Cam 2. Cofrestr tai: Yn y cam hwn, byddwch yn llenwi manylion faint o bobl sydd ar y gofrestr tai, a demograffeg pwy sydd ar y gofrestr tai.
- Cam 3. Data Dyraniadau: Yn y cam hwn, byddwch yn llenwi data am y swm o stoc tai cymdeithasol, a gwybodaeth ddemograffig am bwy sy'n cael ei ddyrannu i dai cymdeithasol.
- Cam 4. Data Cynigion: Yn y cam hwn, byddwch yn llenwi data am faint o gynigion a roddir a phwy sy'n cael y cynigion hyn.
- Cam 5. Enwebiadau: Yn y cam hwn, byddwch yn llenwi data am faint o enwebiadau a gafwyd a phwy sy'n cael eu henwebu.

Cwblhewch naill ai Cam 4 neu Gam 5, yn dibynnu ar yr hyn sy'n fwy perthnasol i chi.

Beth os nad yw rhai o'r cwestiynau yn berthnasol i mi?

Mae hynny'n hollol iawn! Os nad yw rhywbeth yn berthnasol i chi, nodwch nad yw'n berthnasol yn y nodiadau/sylwadau, ac os yn bosibl, esboniwch pam.

Sut i fewnbynnu data

Yn y celloedd glas dylech fewnbynnu rhifau yn unig. Ni fyddwch yn gallu rhoi unrhyw destun yn unrhyw un o'r celloedd hyn.

Mae celloedd oren ar gyfer testun - er enghraifft, os ydych chi'n ateb un o'r cwestiynau sy'n seiliedig ar destun neu'n egluro rhywbeth am eich data.

Beth ddylwn ei wneud pan fyddaf wedi gorffen?

Diolch yn fawr iawn am gymryd yr amser i lenwi'r templed hwn! Ar ôl i chi orffen, e-bostiwch y daenlen hon i [e-bost ymchwilydd Alma Economics] neu [e-bost

ymchwilydd Alma Economics] a byddwn yn dod yn ôl atoch os oes gennym unrhyw gwestiynau pellach.

Dwi angen help!

Os ydych chi'n cael trafferth llenwi'r daenlen hon neu'n methu dod o hyd i rywfaint o'r data rydyn ni'n gofyn amdano, mae hynny'n iawn! Mae croeso i chi anfon e-bost neu drefnu cyfarfod gan ddefnyddio'r dolenni isod:

[E-bost ymchwilydd Alma Economics]

[Dolen we i drefnu cyfarfod yn uniongyrchol ag ymchwilydd Alma Economics]

- 8.2 Teitl ail dudalen y templed yw "Cam 1. Manylion yr awdurdod lleol" ac mae'n cynnwys y canlynol:

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar fanylion amdano chi, eich awdurdod lleol a sut mae dyraniadau tai cymdeithasol yn gweithio. Atebwch y cwestiynau isod.

1. Beth yw enw eich awdurdod lleol?
2. Beth yw eich enw a'ch rôl (unigolyn sy'n llenwi'r daflen hon)?
3. A yw eich ALL yn perthyn i neu'n gweithredu Cofrestr Tai Cyffredin? Os ydych: Pa borth/platfform ydych chi'n ei ddefnyddio? Os na: Beth ydych chi'n ei ddefnyddio yn lle hynny?
4. A yw eich ALL yn perthyn i neu'n gweithredu Polisi Dyraniadau Cyffredin?
5. A ydych yn gweithredu gyda chytundeb enwebu? Os felly, beth yw'r targed?
6. Gyda pha LCCiaid neu Gymdeithasau Tai y mae eich ALL yn gweithio?

- 8.3 Teitl trydedd dudalen y templed oedd "Cam 2. Cofrestr tai". Ar gyfer pob cwestiwn, gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu data ar y rhai heb unrhyw ddyletswydd, dyletswydd Adran 66, 73, a 75 mewn celloedd Excel ar wahân. Gofynnwyd iddynt hefyd nodi'r dyddiad y casglwyd y data. Darparwyd lle i awdurdodau lleol ychwanegu nodiadau at eu cyflwyniadau data. Roedd y cwestiynau fel a ganlyn:

1. Faint o bobl sydd ar eich cofrestr tai ar hyn o bryd?
2. Faint o bobl oedd ar eich cofrestr tai 1 flwyddyn yn ôl?
3. O'r bobl sydd ar y gofrestr dai ar hyn o bryd, faint sydd yn:
 - i) berson sengl (aelwyd = 1)
 - ii) cwpl (aelwyd = 2 berson mewn perthynas)
 - iii) teulu (aelwyd = lleiafswm o 2 berson, lle mae un yn blentyn/dibynnydd)
 - iv) pob math arall o aelwyd nad yw'n cyd-fynd â'r uchod?
4. O'r bobl sydd ar y gofrestr dai ar hyn o bryd, faint sydd angen:

YN SWYDDOGOL SENSITIF

- i) Cartref gydag 1 ystafell wely
 - ii) Cartref gyda 2 ystafell wely
 - iii) Cartref gyda 3 ystafell wely
 - iv) Cartref gyda 4 ystafell wely neu fwy
5. O'r bobl sydd ar y gofrestr dai ar hyn o bryd, faint sydd yn:
- i) 16 i 25 oed
 - ii) 26 i 64 oed
 - iii) 65 oed neu drosodd
6. O'r bobl sydd ar y gofrestr dai ar hyn o bryd, faint sydd yn:
- i) ddi-waith
 - ii) cyflogedig llawn amser
 - iii) cyflogedig rhan-amser
 - iv) hunangyflogedig
 - v) gweithwyr teulu neu ofalwyr di-dâl.
7. O'r bobl sydd ar y gofrestr dai ar hyn o bryd, faint sydd:
- i) yn hunan-ddisgrifio fel rhywun anabl?
 - ii) o'r rhai sy'n anabl, faint sydd â nam corfforol?
 - iii) o'r rhai sy'n anabl, faint sydd â nam meddyliol?
8. O'r bobl sydd ar y gofrestr dai ar hyn o bryd, faint sydd yn nodi eu bod yn:
- i) Wyn
 - ii) Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig
 - iii) Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribiaidd neu Affricanaidd
 - iv) Grwpiau ethnig cymysg neu luosog
 - v) Grwpiau ethnig eraill.
- Nodyn: Os oes gennych chi ddata grŵp ethnig manylach ar gael ac y byddai'n well gennych anfon fersiwn fanylach o'r data hwn, soniwch amdano yn eich e-bost atom neu trefnwch alwad i drafod ymhellach.*
9. O'r bobl sydd ar y gofrestr dai ar hyn o bryd, faint sydd yn nodi eu bod yn:
- i) Fenyw
 - ii) Gwryw
 - iii) Hunaniaeth rhywedd arall
 - iv) Heb adrodd neu mae'n well ganddynt beidio â dweud.

10. O'r bobl sydd ar y gofrestr dai ar hyn o bryd, faint sydd yn nodi eu bod yn:

- i) Heterorywiol
- ii) Hoyw neu lesbiaidd
- iii) Deurywiol
- iv) Rhywioldeb arall
- v) Heb adrodd neu mae'n well ganddynt beidio â dweud.

8.4 Teitl pedwerydd tudalen y templed yw "Cam 3. Data dyraniadau". Ar gyfer pob cwestiwn, gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu data ar y dyraniadau hynny i'r rhai heb unrhyw ddyletswydd, dyletswydd Adran 66, 73, a 75 mewn celloedd Excel ar wahân. Gofynnwyd iddynt hefyd nodi'r dyddiad y casglwyd y data. Darparwyd lle i awdurdodau lleol ychwanegu nodiadau at eu cyflwyniadau data. Roedd y cwestiynau fel a ganlyn:

1. Yn ystod blwyddyn galendr 2023, beth oedd cyfanswm y stoc tai cymdeithasol yn eich ALI? [Sylwer: Yn wahanol i gwestiynau eraill yn yr adran hon, ni ofynnwyd i'r ymatebion gael eu dadansoddi yn ôl dyletswydd]
2. Yn ystod blwyddyn galendr 2023, faint o unedau tai cymdeithasol a ddaeth ar gael yn eich ALI? [Sylwer: Yn wahanol i gwestiynau eraill yn yr adran hon, ni ofynnwyd i'r ymatebion gael eu dadansoddi yn ôl dyletswydd]
3. Yn ystod blwyddyn galendr 2023, faint o unedau a neilltuwyd i rywun? [Sylwer: Yn wahanol i gwestiynau eraill yn yr adran hon, ni ofynnwyd i'r ymatebion gael eu dadansoddi yn ôl dyletswydd]
4. O'r unedau a ddyrannwyd ym mlwyddyn galendr 2023, faint a ddyrannwyd i bobl sydd â: [Rhestr o ddyletswyddau Adran 66, 73, 75, a dim dyletswydd].
5. O'r unigolion y dyrannwyd tai cymdeithasol iddynt, faint a ddyrannwyd i:
 - i) Cartref gydag 1 ystafell wely
 - ii) Cartref gyda 2 ystafell wely
 - iii) Cartref gyda 3 ystafell wely
 - iv) Cartref gyda 4 ystafell wely neu fwy
6. O'r unigolion y dyrannwyd tai cymdeithasol iddynt, faint sydd yn:
 - i) berson sengl (aelwyd = 1)
 - ii) cwpl (aelwyd = 2 berson mewn perthynas)
 - iii) teulu (aelwyd = lleiafswm o 2 berson, lle mae un yn blentyn/dibynnydd)
 - iv) pob math arall o aelwyd nad yw'n cyd-fynd â'r uchod?

7. O'r unigolion y dyrannwyd tai cymdeithasol iddynt, faint sydd yn:

- i) 16 i 25 oed
- ii) 26 i 64 oed
- iii) 65 oed neu drosodd

8. O'r unigolion y dyrannwyd tai cymdeithasol iddynt, faint sydd yn:

- i) ddi-waith
- ii) cyflogedig llawn amser
- iii) cyflogedig rhan-amser
- iv) hunangyflogedig
- v) gweithwyr teulu neu ofalwyr di-dâl

9. O'r unigolion y dyrannwyd tai cymdeithasol iddynt, faint sydd:

- i) yn hunan-ddisgrifio fel rhywun anabl?
- ii) o'r rhai sy'n anabl, faint sydd â nam corfforol?
- iii) o'r rhai sy'n anabl, faint sydd â nam meddyliol?

10. O'r unigolion y dyrannwyd tai cymdeithasol iddynt, faint sydd yn nodi eu bod yn:

- i) Wyn
- ii) Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig
- iii) Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd
- iv) Grwpiau ethnig cymysg neu luosog
- v) Grwpiau ethnig eraill.

Nodyn: Os oes gennych chi ddata grŵp ethnig manylach ar gael ac y byddai'n well gennych anfon fersiwn fanylach o'r data hwn, soniwch amdano yn eich e-bost atom neu trefnwch alwad i drafod ymhellach.

11. O'r unigolion y dyrannwyd tai cymdeithasol iddynt, faint sydd yn nodi eu bod yn:

- i) Fenyw
- ii) Gwryw
- iii) Hunaniaeth rhywedd arall
- iv) Heb adrodd neu mae'n well ganddynt beidio â dweud

12. O'r unigolion y dyrannwyd tai cymdeithasol iddynt, faint sydd yn nodi eu bod yn:

- i) Heterorywiol
- ii) Hoyw neu lesbiaidd
- iii) Deurywiol

iv) Rhywioldeb arall

v) Heb adrodd neu mae'n well ganddynt beidio â dweud.

8.5 Teitl pumed tudalen y templed yw "Cam 4. Data cynigion". Dywedwyd wrth ymatebwyr y gallent lenwi Cam 5 yn lle Cam 4 os oedd yn fwy perthnasol i'w systemau dyrannu lleol. Ar gyfer pob cwestiwn, gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu data ar y dyraniadau hynny i'r rhai heb unrhyw ddyletswydd, dyletswydd Adran 66, 73, a 75 mewn celloedd Excel ar wahân. Gofynnwyd iddynt hefyd nodi'r dyddiad y casglwyd y data. Darparwyd lle i awdurdodau lleol ychwanegu nodiadau at eu cyflwyniadau data. Roedd y cwestiynau fel a ganlyn:

1. Beth yw nifer yr aelwydydd sydd wedi cael cynnig tai cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
2. Beth yw nifer y cynigion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
3. O'r bobl a gafodd gynigion, faint sydd yn:
 - i) berson sengl (aelwyd = 1)
 - ii) cwpl (aelwyd = 2 berson mewn perthynas)
 - iii) teulu (aelwyd = lleiafswm o 2 berson, lle mae un yn blentyn/dibynnydd)
 - iv) pob math arall o aelwyd nad yw'n cyd-fynd â'r uchod?
4. O'r unigolion a gafodd gynigion, faint oedd yn gynigion ar gyfer:
 - i) Cartref gydag 1 ystafell wely
 - ii) Cartref gyda 2 ystafell wely
 - iii) Cartref gyda 3 ystafell wely
 - iv) Cartref gyda 4 ystafell wely neu fwy
5. Beth oedd nifer y cynigion a dderbyniodd unigolion ym mlwyddyn galendr 2023?
6. O'r unigolion a dderbyniodd gynigion, faint sydd yn:
 - i) 16 i 25 oed
 - ii) 26 i 64 oed
 - iii) 65+ oed
7. O'r unigolion a dderbyniodd gynigion, faint sydd yn:
 - i) ddi-waith
 - ii) cyflogedig llawn amser
 - iii) cyflogedig rhan-amser
 - iv) hunangyflogedig

v) gweithwyr teulu neu ofalwyr di-dâl

8. O'r unigolion a dderbyniodd gynigion, faint sydd:

i) yn hunan-ddisgrifio fel rhywun anabl?

ii) o'r rhai sy'n anabl, faint sydd â nam corfforol?

iii) o'r rhai sy'n anabl, faint sydd â nam meddyliol?

9. O'r unigolion a dderbyniodd gynigion, faint sydd yn nodi eu hunain yn:

i) Wyn

ii) Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig

iii) Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribiaidd neu Affricanaidd

iv) Grwpiau ethnig cymysg neu luosog

v) Grwpiau ethnig eraill

Nodyn: Os oes gennych chi ddata grŵp ethnig manylach ar gael ac y byddai'n well gennych anfon fersiwn fanylach o'r data hwn, soniwch amdano yn eich e-bost atom neu trefnwch alwad i drafod ymhellach.

10. O'r unigolion a dderbyniodd gynigion, faint sydd yn nodi eu hunain yn:

i) Fenyw

ii) Gwryw

iii) Hunaniaeth rhywedd arall

iv) Heb adrodd neu mae'n well ganddynt beidio â dweud

11. O'r unigolion a dderbyniodd gynigion, faint sydd yn nodi eu hunain yn:

i) Heterorywiol

ii) Hoyw neu lesbiaidd

iii) Deurywiol

iv) Rhywioldeb arall

v) Heb adrodd neu mae'n well ganddynt beidio â dweud

8.6 Teitl chweched dudalen y templed yw "Cam 5. Enwebiadau". Dywedwyd wrth ymatebwyr y gallent lenwi Cam 4 yn lle Cam 5 os oedd yn fwy perthnasol i'w systemau dyrannu lleol. Ar gyfer pob cwestiwn, gofynnwyd i awdurdodau lleol ddarparu data ar y dyraniadau hynny i'r rhai heb unrhyw ddyletswydd, dyletswydd Adran 66, 73, a 75 mewn celloedd Excel ar wahân. Gofynnwyd iddynt hefyd nodi'r dyddiad y casglwyd y data. Darparwyd lle i awdurdodau lleol ychwanegu nodiadau at eu cyflwyniadau data. Roedd y cwestiynau fel a ganlyn:

1. Beth yw nifer yr aelwydydd sydd wedi cael eu henwebu ar gyfer tai cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

YN SWYDDOGOL SENSITIF

2. Beth yw nifer yr enwebiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?
3. O'r bobl a gafodd gynigion, faint sydd yn:
 - i) berson sengl (aelwyd = 1)
 - ii) cwpl (aelwyd = 2 berson mewn perthynas)
 - iii) teulu (aelwyd = lleiafswm o 2 berson, lle mae un yn blentyn/dibynnydd)
 - iv) pob math arall o aelwyd nad yw'n cyd-fynd â'r uchod?
4. O'r unigolion a enwebwyd, faint a enwebwyd ar gyfer:
 - i) Cartref gydag 1 ystafell wely
 - ii) Cartref gyda 2 ystafell wely
 - iii) Cartref gyda 3 ystafell wely
 - iv) Cartref gyda 4 ystafell wely neu fwy
5. Beth oedd nifer y cartrefi enwebedig a dderbyniwyd ym flwyddyn galendr 2023?
6. O'r unigolion a enwebwyd, faint sydd yn:
 - i) 16 i 25 oed
 - ii) 26 i 64 oed
 - iii) 65+ oed.
7. O'r unigolion a enwebwyd, faint sydd yn:
 - i) ddi-waith
 - ii) cyflogedig llawn amser
 - iii) cyflogedig rhan-amser
 - iv) hunangyflogedig
 - v) gweithwyr teulu neu ofalwyr di-dâl
8. O'r unigolion a enwebwyd, faint sydd:
 - i) yn hunan-ddisgrifio fel rhywun anabl?
 - ii) o'r rhai sy'n anabl, faint sydd â nam corfforol?
 - iii) o'r rhai sy'n anabl, faint sydd â nam meddyliol?
9. O'r unigolion a enwebwyd, faint sydd yn nodi eu hunain yn:
 - i) Wyn
 - ii) Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig
 - iii) Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd
 - iv) Grwpiau ethnig cymysg neu luosog
 - v) Grwpiau ethnig eraill

Nodyn: Os oes gennych chi ddata grŵp ethnig manylach ar gael ac y byddai'n well gennych anfon fersiwn fanylach o'r data hwn, soniwch amdano yn eich e-bost atom neu trefnwch alwad i drafod ymhellach.

10. O'r unigolion a enwebwyd, faint sydd yn nodi eu hunain yn:

i) Fenyw

ii) Gwryw

iii) Hunaniaeth rhywedd arall

iv) Heb adrodd neu mae'n well ganddynt beidio â dweud

11. O'r unigolion a enwebwyd, faint sydd yn nodi eu hunain yn:

i) Heterorywiol

ii) Hoyw neu lesbiaidd

iii) Deurywiol

iv) Rhywioldeb arall

v) Heb adrodd neu mae'n well ganddynt beidio â dweud